Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol

sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig
(fel y'u diwygiwyd ar ôl Cam 2)

Mawrth 2011

**GPM-19-EM-S3**

## Y MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

## Memorandwm Esboniadol i'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan Adran Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 23.41. Mae'n nodi amcanion polisi a darpariaethau'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol fel y'i diwygiwyd ar ôl trafodion Cam 2 ac mae'n esbonio ei gwmpas.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 12 Gorffennaf 2010, ac a ddiwygiwyd ar ôl trafodion Cam 2, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Carl Sargeant AC**

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Yr Aelod Cynulliad â gofal am y Mesur Arfaethedig

Mawrth 2011

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| ***Rhagair (i'r fersiwn ddiwygiedig)*** | | ***4*** |
| **RHAN 1** | | |
| *1.* | ***Disgrifiad*** | ***4*** |
| *2.* | ***Y cefndir deddfwriaethol*** | ***5*** |
| *3.* | ***Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael*** | ***10*** |
| *4.* | ***Ymgynghori*** | ***23*** |
| *5.* | ***Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth*** | ***28*** |
| *6.* | ***Asesiad Effaith Rheoleiddiol*** | ***37*** |
| **RHAN 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol** | | |
| *7.* | ***Opsiynau*** | ***38*** |
| *8.* | ***Costau a manteision*** | ***40*** |
| *9.* | ***Asesu'r Gystadleuaeth*** | ***59*** |
| *10.* | ***Adolygu ar ôl gweithredu*** | ***60*** |
| **Atodiad A – Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** | | **61** |
| **Atodiad B – Nodiadau Esboniadol** | | **73** |
| **Atodiad C – Adendwm ar gyfer yr adrannau yn Rhan 9 (Pennod 2) – a fewnosodwyd yn ystod Cam 2** | | **111** |
| **Adendwm i'r Nodiadau Esboniadol** | | **125** |

***Rhagair i'r fersiwn ddiwygiedig***

Mae'r rhagair hwn yn esbonio'r newidiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol hwn (ac i'r Nodiadau Esboniadol cysylltiedig) ar ôl cymeradwyo'r gwelliannau a wnaed i'r Mesur arfaethedig yn ystod Cam 2.

Roedd y gwelliannau a gymeradwywyd yn cynnwys deg adran newydd i ddarparu ar gyfer cyfuno dau neu dri awdurdod lleol. Mewnosodwyd yr adrannau hyn ym Mhennod 2 o Ran 9 o'r Mesur arfaethedig presennol. Yn hytrach na cheisio gwau'r esboniadau a'r amcanion polisi i mewn i'r amryfal adrannau yn y memorandwm gwreiddiol, ychwanegwyd adendwm ar wahân yn Atodiad C i ymdrin â'r adrannau yn y Bennod newydd. Mae'r adendwm yn dilyn ffurf a phenawdau'r prif femorandwm ei hun ac mae hefyd yn cynnwys Nodiadau Esboniadol ar gyfer yr adrannau newydd.

Mae'r gwelliannau eraill i'r Mesur arfaethedig a gymeradwywyd yn ystod Cam 2 wedi eu hymgorffori (lle y bo hynny'n briodol) ar ffurf diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol gwreiddiol.

# 1. <u>Disgrifiad</u>

1.1 Bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol yn gwneud newidiadau y bwriedir iddynt atgyfnerthu strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru a gwella'r modd y mae'n gweithio, a hynny ar bob lefel. Bwriedir i'r newidiadau fod yn fodd hefyd i sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn ymgysylltu â hwy.

1.2 Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer:

(i) ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a'r anghymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau cynghorau lleol (*Rhannau 1-2 o'r Mesur arfaethedig*);

(ii) adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel y bo'r strwythurau hynny'n gweddu'n well i amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru (*Rhannau 3-4)*;

(iii) cryfhau rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediaethau'r awdurdodau lleol ("aelodau'r meinciau cefn") mewn perthynas â chraffu ar wasanaethau lleol (*Rhannau 5-6)*;

(iv) datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau ac i weithredu'n ehangach yn lleol, ac i fod yn fwy effeithiol o ran eu rôl fel

cynrychiolwyr ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill (*Rhan 7*);

(v) diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau cynghorwyr (*Rhan 8*);

(vi) caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a chydlafurio rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill a rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gyfuno hyd at dri awdurdod lleol *(Rhan 9).*

## 2. <u>Y cefndir deddfwriaethol</u>

### Cymhwysedd

2.1 Mae'r pŵer i wneud Mesurau Cynulliad yn cael ei ddarparu gan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Mae adran 93 o'r Rhan honno o Ddeddf 2006 yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") wneud Mesurau. Mae'n ofynnol o dan adran 94 fod darpariaethau Mesur yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2.2 Mae'r cymhwysedd y dibynnir arno ar gyfer y Mesur arfaethedig (fel y'i diwygiwyd yn ystod Cam 2) o dan adran 94(4) o Ddeddf 2006 yn cael ei ddarparu gan Faterion 12.1 a 12.5 i 12.17 o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

2.3 Cafodd materion 12.1 a 12.5 eu mewnosod i Atodlen 5 gan adran 235 o, ac Atodlen 17 i, Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007. Cafodd materion 12.6 a 12.7 eu mewnosod i Atodlen 5 gan Adran 33 o Ddeddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009 ("Deddf 2009"), a ddaeth i rym o 12 Ionawr 2010 ymlaen. Cafodd Materion 12.8 i 12.17 eu mewnosod i Atodlen 5 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Llywodraeth Leol) 2010 ("yr GCD Llywodraeth Leol"), a ddaeth i rym ar 13 Ebrill 2010.

2.4 Mae Materion 12.1 a 12.5 i 12.17, fel y'u mewnosodwyd i Atodlen 5 o Ddeddf 2006, yn cael eu hatgynhyrchu isod:

*Mater 12.1*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag –

(a) cyfansoddiad prif ardaloedd newydd a diddymiad neu addasiad prif ardaloedd sydd eisoes yn bodoli,a
(b) sefydliad cynghorau ar gyfer y prif ardaloedd newydd a ddidymiad prif gynghorau sydd eisoes yn bodoli.

*Mater 12.5*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag –

(a) gwneud trefniadau gan awdurdodau Cymreig perthnasol i sicrhau gwelliant yn y ffordd y mae eu swyddogaethau yn cael eu harfer;

(b) gwneud trefniadau gan awdurdodau Cymreig perthnasol ar gyfer cynnwys, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan yr arferiad o swyddogaethau neu sy'n debygol o fod â buddiant ynddynt, ac

(c) asesu ac arolygu perfformiad awdurdodau Cymreig perthnasol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau.

Mae'r canlynol yn "awdurdodau Cymreig perthnasol" (*“relevant Welsh authorities”*) -

(a) cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru,

(b) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru,

(c) awdurdod tân ac achub yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) corff codi ardoll o fewn ystyr adran 74(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yr oedd, yn unol â’r Ddeddf honno, y cyngor sir neu'r awdurdod codi taliadau y cyfeirir ato yn adran 74(1)(b) o'r Ddeddf honno yn gyngor neu'n awdurdod ar gyfer ardal yng Nghymru,

(e) corff y mae adran 75 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo (ardollau arbennig) ac a fu o ran y flwyddyn ariannol a ddechreuodd yn 1989 â'r pŵer i godi ardreth drwy gyfeirio at eiddo yng Nghymru.

*Mater 12.6*

Trefniadau gan brif gynghorau mewn perthynas â chyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys trefniadau gweithredol.

Nid yw’r mater hwn yn cynnwys –
(a) etholiadau uniongyrchol i weithrediaethau prif gynghorau, neu
(b) creu ffurf o weithrediaeth y mae etholiadau uniongyrchol yn ofynnol ar ei chyfer.

At ddibenion y mater hwn—
(a) mae i “trefniadau gweithredol” (*“executive arrangements”)* yr ystyr a roddir i “executive arrangements” yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2002;
(c) ystyr “etholiadau uniongyrchol” (“*direct elections”)* yw etholiadau gan etholwyr llywodraeth leol (yn yr ystyr a roddir i “local government elector” gan adran 270(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972).

*Mater 12.7*

Pwyllgorau prif gynghorau sydd â swyddogaethau —

(a) adolygu neu graffu, neu

(b) gwneud adroddiadau neu argymhellion.

Nid yw'r mater hwn yn cynnwys pwyllgorau o dan adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (pwyllgorau trosedd ac anhrefn).

*Mater 12.8*

Ardaloedd cymunedau a chyfansoddiad, strwythur, a gweithdrefnau sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

*Mater 12.9*

Trefniadau etholiadol ar gyfer sefydliadau llywodraeth leol etholedig ar gyfer cymunedau.

Yn y mater hwn nid yw "trefniadau etholiadol" yn cynnwys—
(a) yr etholfraint llywodraeth leol;
(b) cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadol;
(c) y system bleidleisio ar gyfer ethol aelodau'n ffurfiol mewn etholiad.

*Mater 12.10*

Rhoi i sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau bwerau—
(a) y mae'r mater hwn yn gymwys iddynt,
(b) sy'n arferadwy mewn perthynas â'u hardaloedd, ac
(c) sy'n bwerau sy'n arferadwy gan brif gynghorau mewn perthynas â phrif ardaloedd.

Mae'r mater hwn yn gymwys i bwerau i wneud unrhyw beth y mae deiliad y pŵer yn barnu y byddai'n debyg o hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal.

*Mater 12.11*

Grantiau gan Weinidogion Cymru i gyllido llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

*Mater 12.12*

Y berthynas rhwng gwahanol gymunedau (a'u sefydliadau llywodraeth leol), neu rhwng cymunedau (a'u sefydliadau llywodraeth leol) a phrif gynghorau.

*Mater 12.13*

Cynlluniau i achredu ansawdd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau.

*Mater 12.14*

Cyfranogiad y cyhoedd mewn llywodraeth leol ar gyfer cymunedau (ar wahân i etholiadau).

*Mater 12.15*

Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â llywodraeth leol i'r cyhoedd.

At ddibenion y mater hwn ystyr “llywodraeth leol” yw—
(a) llywodraeth leol ar gyfer cymunedau
(b) llywodraeth leol ar gyfer siroedd a bwrdeistrefi sirol.

*Mater 12.16*

Cyflogau, lwfansau, pensiynau a thaliadau eraill i aelodau o'r canlynol—
(a) sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
(b) cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol;
(c) awdurdodau Parciau Cenedlaethol;
(d) awdurdodau tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynlluniau o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynlluniau y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddynt.

*Mater 12.17*

Hybu a chefnogi aelodaeth o'r canlynol—
(a) sefydliadau llywodraeth leol ar gyfer cymunedau;
(b) cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

*Dehongli'r maes hwn*

Yn y maes hwn—

ystyr “cymunedau” yw ardaloedd ar wahân ar gyfer gweinyddu llywodraeth leol, y mae pob un ohonynt yn gyfan gwbl o fewn prif ardal (ond nad yw'n ffurfio prif ardal gyfan);

ystyr “prif ardal” yw bwrdeistref sirol neu sir;

ystyr “prif gyngor” yw cyngor ar gyfer prif ardal.

### O le y mae'r cymhwysedd ar gyfer pob un o Rannau'r Mesur yn deillio

*2.5 O ran y modd y mae'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol wedi'u trefnu, mae'r cymhwysedd ar gyfer pob un o'r Rhannau yn deillio o'r materion a ganlyn:*

*Rhannau 1-2 (Atgyfnerthu democratiaeth leol ac absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol) o faterion 12.15 a 12.17*
*Rhannau 3-5 (Trefniadau llywodraethu, trefniadau gweithrediaeth a chyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr) o fater 12.6*
*Rhan 6 (Trosolwg a Chraffu) o fater 12.7*
*Rhan 7 (Cymunedau a chynghorau cymuned) o faterion 12.8 i 12.14*
*Rhan 8 (Taliadau a phensiynau aelodau) o fater 12.16*
*Rhan 9 (Cydlafurio a chyfuno) o faterion 12.1 a 12.5.*

### Y Sefyllfa Gyffredinol

2.6 Sefydlwyd y system llywodraeth leol sydd ohoni yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972"), ac mae'r system honno'n darparu ar gyfer trefniadaeth a swyddogaethau awdurdodau lleol, gan gynnwys strwythur o gymunedau yng Nghymru. Dyma ardaloedd hen fwrdeistrefi, dosbarthau trefol a phlwyfi gwledig Cymru, ynghyd â rhannau rhanedig penodol o'r hen ddosbarthau trefol a fodolai ar 1 Ebrill 1974.

2.7 Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1972, i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, wedi'u trosglwyddo, heblaw am eithriadau penodol, i'r Cynulliad ac maent wedi'u breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

2.8 Cafodd llywodraeth leol ei had-drefnu ymhellach o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ("Deddf 1994"), a rannodd Cymru yn 22 o brif ardaloedd. Dyma'r strwythur sy'n bod o hyd. O dan Ddeddf 1994 (a oedd yn diwygio Deddf 1972), dynodwyd pob un o'r 22 o brif ardaloedd naill ai'n sir neu'n fwrdeistref sirol (a chaniatawyd i siroedd wneud cais i fod yn fwrdeistrefi sirol). Mae'r siroedd a'r bwrdeistrefi sirol yng Nghymru yn "awdurdodau unedol" - hynny yw, eu cynghorau hwy sy'n gyfrifol am bob un, neu bron pob un, o'r swyddogaethau llywodraeth leol yn eu hardal. Mae gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yr un pwerau yn union o dan Ddeddf 1994. Yr unig wahaniaeth rhyngddynt yw bod cadeirydd cyngor bwrdeistref sirol yn cael ei alw'n "Faer".

2.9 Sefydlodd Deddf 1972 system o gymunedau yng Nghymru hefyd. Dyma ardaloedd hen fwrdeistrefi, dosbarthau trefol a phlwyfi gwledig Cymru, ynghyd â rhannau rhanedig penodol o'r hen ddosbarthau trefol a fodolai ar 1 Ebrill 1974. Ni chafodd ffiniau'r cymunedau yng Nghymru eu newid gan Ddeddf 1994. Mae cymunedau yng Nghymru yn ardaloedd llywodraeth leol, a

chadarnhawyd hynny'n ffurfiol gan Adran 20 (1)(b) o Ddeddf 1972 - fe y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1994.

2.10 Roedd Deddf 1972 yn darparu y caiff cymunedau yng Nghymru ffurfio cynghorau ond, yn ymarferol, nid yw pob cymuned yn gwneud hynny. Caiff cyngor cymuned yng Nghymru benderfynu rhoi statws tref i'w gymuned. Nid oes yn rhaid i unrhyw awdurdod arall gadarnhau penderfyniad o'r fath. Nid oes unrhyw wahaniaeth o ran y pwerau y caiff cynghorau tref a chynghorau cymuned eu harfer - ond mae hawl gan gadeirydd cyngor tref i gael ei alw'n "faer y dref".

2.11 Ymhlith y statudau eraill sy'n ymdrin â'r materion y bydd y Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael â hwy y mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Deddfau Llywodraeth Leol 2000 a 2003 a Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a 1985. Mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithrediaeth o dan Ddeddfau Llywodraeth Leol 2000 a 2003. Nid yw swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

2.12 Mae'r berthynas rhwng y statudau eraill hyn a'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn cael ei nodi yn yr esboniadau perthnasol o bolisi a geir yn y paragraffau isod.

# 3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

*Cyflwyniad*

3.1 Yn ei datganiad polisi am lywodraeth leol, Rhannu Cyfrifoldeb (2007), ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i geisio pwerau newydd i'w galluogi i fynd i'r afael â nifer o'r materion yn ymwneud â chyflenwi a oedd yn effeithio ar lywodraeth leol yng Nghymru.

3.2 Daeth yr angen am ddeddfwriaeth newydd i'r amlwg hefyd yn sgil ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol (a arweiniodd at gyhoeddi At ein gwasanaeth? Adroddiad Panel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru), ac mewn astudiaeth ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad gan Brifysgol Aberystwyth i rôl a swyddogaethau cynghorau cymuned a thref yng Nghymru (Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol ["Adroddiad Aberystwyth"]). Gwelwyd hefyd fod angen deddfwriaeth yn sgil y gwaith a wnaed (ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr) gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Yn olaf, mae'r darpariaethau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau lleol yn cywiro mân ddiffyg ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009; mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfuno yn cryfhau'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yrru'r agenda gydlafurio yn ei blaen er mwyn cyflenwi gwasanaethau'n effeithiol er budd

dinasyddion Cymru – gweler yr Adendwm i'r Memorandwm hwn yn Atodiad C.

3.3 Nodir amcanion cyffredinol y Mesur arfaethedig yn adran 1 o'r memorandwm hwn. Defnyddio'r pwerau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol (fel y'u nodir yn adran 2 uchod) yw'r unig ffordd o gyrraedd y nod yn hyn o beth.

**Cynigion ar gyfer y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth leol**

3.4 Mae disgrifiad manylach o'r darpariaethau yn y Nodiadau Esboniadol i'r Mesur arfaethedig. I grynhoi, bydd y Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion a nodir yn y paragraffau uchod drwy:

*(a) Atgyfnerthu democratiaeth leol; ac Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol (Rhannau 1-2)*

- Cyflwyno dyletswydd ar brif gynghorau i fonitro proffil cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredinol i brif gynghorau ac i gynghorau tref a chymuned.
- Cyflwyno dyletswydd ar brif gynghorau i ddarparu systemau hyfforddi, datblygu ac arfarnu digonol ar gyfer aelodau etholedig.
- Ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau i bob cynghorydd gyhoeddi adroddiad blynyddol.
- Rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i drefnu bod swyddogion ar gael i ddarparu cymorth gweinyddol a chymorth ymchwil rhesymol i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth.
- Hwyluso'r gallu i fynychu cyfarfodydd y cyngor o bell.
- Ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau alluogi cynghorwyr (gan gynnwys aelodau gweithrediaeth) i gymryd absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant sy'n debyg i'r hyn sydd ar gael i'w swyddogion eu hunain.

*(b) Trefniadau llywodraethu, trefniadau gweithrediaeth a chyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr (Rhannau 3-5)*

- Symleiddio'r gweithdrefnau y gall awdurdod lleol eu defnyddio i newid ei fodel gweithrediaeth.
- Dileu'r model trefniadau amgen (y Pedwerydd Opsiwn).
- Dileu'r opsiwn sy'n cynnwys maer etholedig a rheolwr cyngor.
- Galluogi awdurdodau lleol neu eu gweithrediaethau i ddirprwyo swyddogaethau gwneud penderfyniadau i aelodau etholedig nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth a benodir i wasanaethu ar fyrddau gwasanaethau lleol neu ar bartneriaethau eraill.

*(c) Trosolwg a Chraffu (Rhan 6)*

- Galluogi dau neu ragor o awdurdodau lleol i ffurfio cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu.

- Galluogi awdurdodau lleol i gael pwerau i gyfethol pobl nad ydynt yn gynghorwyr i'w pwyllgorau craffu.
- Galluogi pwyllgorau craffu i'w gwneud yn ofynnol i sefydliadau y tu allan i'r cyngor sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu hardal roi gwybodaeth a chyflwyno ymatebion, ac i'w gwneud yn ofynnol i gynrychiolwyr sefydliadau o'r fath ddod i gyfarfodydd y pwyllgorau os bydd gofyn iddynt wneud hynny.
- Rhoi dyletswydd ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar wasanaethau a gyflenwir gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.
- Annog grwpiau gwleidyddol i beidio â gorfodi gweithdrefnau chwipio ar aelodau pwyllgorau craffu.
- Darparu bod awdurdodau lleol, wrth benodi cadeiryddion pwyllgorau craffu, yn gwneud hynny yn unol â chydbwysedd gwleidyddol y cyngor.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgor archwilio i fonitro eu materion ariannol.
- Ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu gyhoeddi blaen-gynlluniau sy'n amlinellu eu rhaglen waith craffu.
- Ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu ymgynghori ag etholwyr ynghylch materion polisi pwysig.
- Cyflwyno "galwadau gan gynghorwyr i weithredu", a fydd yn fodd i sicrhau bod cynghorwyr lleol a'u hetholwyr yn cael ymateb gan arweinyddiaeth y cyngor i faterion o bwysigrwydd lleol.

*(d) <u>Cymunedau a Chynghorau Cymuned (Rhan 7)</u>*

- Ei gwneud yn haws i sefydlu cyngor cymuned neu gyngor tref ac i bennu trothwy uwch ar gyfer penderfyniad gan gymuned i ddiddymu cyngor cymuned neu gyngor tref sy'n bodoli eisoes.
- Ei gwneud yn ofynnol i hysbysebu'n eang yn lleol unrhyw swyddi gwag y bwriedir eu llenwi drwy gyfethol.
- Rhoi pŵer a fydd yn galluogi cynghorau cymuned i benodi cynrychiolwyr ieuenctid sydd heb hawliau pleidleisio.
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau unedol adolygu eu hardaloedd cymunedol bob 10-15 mlynedd ac i gyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn Ffiniau).
- Galluogi awdurdodau unedol i ofyn i'r Comisiwn Ffiniau gynnal yr adolygiadau hyn ar eu rhan a rhoi'r gallu i'r Comisiwn Ffiniau godi tâl ar yr awdurdodau unedol yn unol â hynny.
- Rhoi pŵer wrth gefn i Weinidogion Cymru gyflwyno siarteri gorfodol rhwng cynghorau sir/bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned.
- Rhoi pŵer wrth gefn i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun achredu ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru.
- Estyn y pŵer llesiant i gynghorau cymuned.
- Galluogi Llywodraeth y Cynulliad i roi arian grant uniongyrchol i gynghorau cymuned at ddibenion penodol.

*(e) <u>Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau Cynghorwyr) (Rhan 8)</u>*

Bydd y darpariaethau arfaethedig yn galluogi Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel Annibynnol") i:

- newid y mathau o lwfansau, a'r derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r lwfansau hynny (h.y. yr enwau a roddir ar lwfansau).
- diffinio'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau y mae aelodau'n gymwys i gael lwfansau ar eu cyfer.
- penderfynu ar lefelau gwirioneddol y lwfansau y mae'n rhaid i brif awdurdodau eu talu i'w haelodau, yn lle pennu uchafsymiau, os dyna yw dymuniad y Panel Annibynnol.
- penderfynu ar derfyn uchaf o ran cyfran yr aelodau o brif gyngor a gaiff dderbyn mathau penodol o daliadau.
- penderfynu ar lwfansau ar gyfer aelodau cynghorau cymuned, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub, yn ogystal ag ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.
- bydd dyletswydd yn cael ei gosod ar y Panel Annibynnol i ystyried yr effaith a gaiff ei benderfyniadau ar sefyllfa ariannol yr awdurdodau o dan sylw.
- monitro'r modd y mae'r awdurdodau yr effeithir arnynt gan ei benderfyniadau yn gweithredu ac yn rheoli'r taliadau a wneir ganddynt.
- pennu unrhyw fynegai y dylid cysylltu unrhyw newidiadau i lwfansau ag ef.
- pennu lefelau gwahanol o lwfansau ar gyfer awdurdodau gwahanol.
- penderfynu ar y trefniadau cyhoeddusrwydd a fydd yn gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth ariannol a roddir i'w haelodau.
- penderfynu pa aelodau o awdurdodau cymwys a fydd yn cael eu galluogi i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.
- rhoi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r Panel Annibynnol.

At hynny,

- bydd pŵer yn cael ei roi i Weinidogion Cymru gyfarwyddo y dylai awdurdod lleol gadw lwfansau yn ôl oddi wrth aelod neu aelodau fel y disgrifir yn y cyfarwyddyd. Ni fyddai modd rhoi cyfarwyddyd o'r fath heb ymgynghori'n gyntaf â'r Panel Annibynnol.
- bydd gan Weinidogion Cymru bŵer hefyd i gyfarwyddo'r Panel Annibynnol i ailystyried unrhyw adroddiad y mae'n ei baratoi, ond byddai angen i Weinidogion Cymru esbonio pam. Caiff y Panel Annibynnol wrthod newid ei gynigion/penderfyniadau, ond byddai'n ofynnol iddo roi rhesymau dros wneud hynny. Ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu gwrthdroi cynigion y Panel Annibynnol.

*<u>(f) Cydlafurio a Chyfuno (Rhan 9)</u>*

- Estyn pwerau Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gan gynnwys canllawiau ar y pwerau a'r

dyletswyddau y mae'r Mesur hwnnw'n eu rhoi i awdurdodau lleol mewn perthynas â chydlafurio.
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfuno hyd at dri awdurdod lleol – gweler yr Adendwm i'r Memorandwm hwn yn Atodiad C.

**Y materion y mae'r Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael â hwy**

*Atgyfnerthu democratiaeth leol ac Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol (Rhannau 1-2 o'r Mesur arfaethedig)*

3.5 Ym mis Mawrth 2008, sefydlodd Llywodraeth y Cynulliad Banel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru ("y Panel Arbenigol") i ystyried yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Comisiwn y Cynghorwyr, "Representing the Future" (a gyhoeddwyd yn 2007 ac a gyflwynwyd i Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU). Gofynnwyd hefyd i'r Panel hwn bwyso a mesur a oedd yr argymhellion hynny yn gymwys i Gymru ai peidio, ac i edrych ar faterion ehangach yn ymwneud â recriwtio a chadw cynghorwyr.

3.6 Cyflwynodd y Panel Arbenigol ei adroddiad (*At ein Gwasanaeth?*) i Lywodraeth y Cynulliad ym mis Awst 2009. Daeth i'r casgliad bod angen i Lywodraeth y Cynulliad ac eraill weithredu ar y cyd er mwyn hyrwyddo mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig ar bob lefel o lywodraeth leol yng Nghymru.

3.7 Yn ôl adroddiad y Panel Arbenigol, y tueddiad ledled Cymru oedd mai dynion gwyn, oedrannus a oedd wedi ymddeol oedd mwyafrif helaeth aelodau'r cynghorau. Roedd y Panel Arbenigol yn amcangyfrif mai 24% o'r cynrychiolwyr ar brif gynghorau Cymru oedd yn fenywod, a bod llai nag 1% o'r aelodau yn dod o blith pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (a phob un o'r aelodau hynny'n ddynion). Oedran yr aelodau, ar gyfartaledd, oedd ychydig o dan 60 oed. Daeth y Panel Arbenigol i'r casgliad hefyd nad oedd cynrychiolaeth ddigonol yn siambrau cynghorau Cymru gan bobl ifanc, pobl anabl, pobl sydd mewn cyflogaeth am dâl, a phobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol.

3.8 Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai sefyllfa debyg a geir mewn cynghorau cymuned, ond ei bod yn ddigon posibl bod y proffil yn hŷn yn eu hachos hwy.

3.9 Mae cynghorwyr yn gwbl hanfodol er mwyn sicrhau bod democratiaeth leol yn iach a bod gwasanaethau lleol o ansawdd yn cael eu cyflenwi. Mae'r rhan fwyaf o gynghorwyr yn ymdrechu hyd eithaf eu gallu i gynrychioli'u cymunedau ond mae'n bwysig bod gennym gynrychiolwyr etholedig yn lleol sydd, wrth iddynt wneud penderfyniadau ynghylch sut y dylid rhedeg gwasanaethau lleol, yn gallu deall anghenion pob aelod o'r gymuned leol. Mae cynghorau a chynghorwyr yn fwy effeithiol os ydynt yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

3.10 Ymhlith ei argymhellion eraill, galwodd y Panel Arbenigol ar y Cynulliad i ddeddfu ar gyfer: monitro amrywiaeth cynghorwyr ac ymgeiswyr; hyfforddiant

a datblygiad mewn swydd ar gyfer cynghorwyr; trefniadau gweithio hyblyg ar gyfer cynghorwyr; cymorth gweinyddol i gynghorwyr; ac atebolrwydd cyhoeddus cynghorwyr.

3.11 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn nodi'r pryderon a ddisgrifiwyd gan y Panel Arbenigol. Bwriedir i'r darpariaethau a nodir yn Rhannau 1 a 2 o'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â'r pryderon hyn; mae'r cynigion yn cael eu crynhoi ym mharagraff 3.4(a) uchod, yn yr adran sy'n dwyn y teitl Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.

*Trefniadau llywodraethu, trefniadau gweithrediaeth a chyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr (Rhannau 3-5 o'r Mesur arfaethedig)*

3.12 Yn ôl adroddiad Adolygiad Beecham o'r modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru (*Ar Draws Ffiniau*, a gyhoeddwyd yn 2006), roedd perfformiad y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn anghyson ac roedd angen gweddnewid y gwasanaethau hynny.

3.13 Ymhlith y problemau a nodwyd gan yr adolygiad hwn yr oedd cymhlethdod y trefniadau llywodraethu, y ffaith bod gormod o bwysau ar yr arweinyddiaeth, bod diffyg gallu strategol ac arbenigedd, ac nad oedd y sefydliadau, o ran eu diwylliant, yn uchelgeisiol, nac yn barod i herio, nac yn ddigon arloesol.

3.14 Bwriedir i'r darpariaethau yn Rhannau 3-5 o'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â'r materion hyn. Cynigir nifer o ddiwygiadau, rhai ohonynt yn seiliedig ar arferion ym maes llywodraeth leol y derbynnir yn eang eisoes eu bod yn rhai da, er nad yw'r arferion hynny'n cael eu rhoi ar waith ym mhob un o'r awdurdodau.

3.15 Roedd Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") yn caniatáu i gynghorau yng Nghymru gyflwyno un o dri "model gweithrediaeth" (Maer a Chabinet; Arweinydd a Chabinet; neu Faer a Rheolwr Cyngor). Roedd hefyd yn caniatáu iddynt fynd ati, drwy gyfrwng rheoliadau, i gyflwyno "pedwerydd opsiwn" a oedd yn cynnig trefniadau amgen lle y byddai'r cyngor yn cael ei arwain gan fwrdd gwleidyddol gytbwys. Mae tri awdurdod lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu'r trefniadau amgen hyn, er bod un o'r rheini wedi newid yn ddiweddar i fodel gweithrediaeth (y sefyllfa ym mis Mehefin 2010).

3.16 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn nad yw'r opsiwn trefniadau amgen wedi gweithio'n dda. Mae wedi gorfodi grwpiau gwleidyddol i ymuno â'i gilydd o dan amgylchiadau nad ydynt, bob amser, wedi bod yn gydnaws ag arweinyddiaeth gydlynol ac nad ydynt, o'r herwydd, wedi bod o fudd o ran sicrhau bod llywodraeth leol yn gweithredu mewn modd effeithiol a thryloyw.

3.17 Mae'r berthynas wleidyddol yn yr awdurdodau lleol hynny lle mae'r trefniadau amgen hyn ar waith wedi bod yn un anodd ar brydiau, a hynny oherwydd, i bob pwrpas, mae elfen o'r gwrthbleidiau yn rhan o arweinyddiaeth

y cyngor. Mae'r elfennau hyn wedi manteisio ar ddarpariaethau Rheoliad 4(4) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007, sy'n caniatáu i faterion y byddai Bwrdd yn arfer ymdrin â hwy gael eu cyfeirio at y cyngor llawn er mwyn iddo ef benderfynu arnynt. Gall cyfeirio materion yn y fath fodd fod yn ffordd o danseilio awdurdod y bwrdd ac yn ffordd o osgoi gwneud penderfyniadau anodd; mae hyn wedi cyfrannu at danseilio effeithiolrwydd a thryloywder llywodraeth leol.

3.18 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn caniatáu i awdurdodau lleol newid eu model gwleidyddol, ond mae'r broses yn un feichus, gan ei bod yn ofynnol i'r awdurdod o dan sylw gynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn ceisio barn am y newidiadau arfaethedig. Dim ond ychydig iawn sy'n tueddu i ymateb i ymgyngoriadau o'r fath, a hynny, yn ôl pob tebyg, am nad oes gan bobl fawr o ddiddordeb yn sefyllfa gyfansoddiadol eu cynghorau.

3.19 Nid oes unrhyw gefnogaeth wedi'i mynegi ar unrhyw adeg yng Nghymru i'r model gweithrediaeth lle ceir maer a rheolwr cyngor. Mae'r opsiwn hwn wedi'i ddileu eisoes yn Lloegr, ac mae'r ffaith ei fod ar gael o hyd i awdurdodau lleol Cymru yn peri dryswch. Nid oes ei angen.

3.20 Mae'n ofid i Lywodraeth y Cynulliad nad oes gan bob un o awdurdodau lleol Cymru bwyllgor archwilio (yn unol â'r hyn y mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth [CIPFA] wedi'i argymell er 2005). Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod pwyllgorau archwilio yn nodweddion cadarnhaol a fyddai'n helpu i wella gwaith cynllunio strategol ac yn hwyluso trefniadau craffu a herio o fewn strwythurau cynghorau.

3.21 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod aelodau etholedig yr awdurdodau lleol yn rhan, yn aml, o drefniadau partneriaeth gyda chyrff allanol, lle y gallai'r gallu i wneud penderfyniadau ar ran y cyngor neu ar ran ei weithrediaeth fod yn fanteisiol. Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol y pŵer i ddirprwyo unrhyw un neu rai o'u swyddogaethau gweithrediaeth i gynghorydd nad yw'n aelod gweithrediaeth, ac mae hyn yn arafu'r broses gwneud penderfyniadau ac yn rhoi mwy o bwysau ar y weithrediaeth.

3.22 Mae'r cynigion sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu yn cael eu crynhoi ym mharagraff 3.4(b) uchod, yn yr adran sy'n dwyn y teitl Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.

*Trosolwg a Chraffu (Rhan 6 o'r Mesur arfaethedig)*

3.23 Nodwyd yn Neddf 2000 mai gweithrediaeth prif gyngor fyddai'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r swyddogaethau sy'n eiddo i awdurdodau lleol, gan weithio o fewn fframwaith polisi a bennir gan y cyngor llawn. O dan Ddeddf 2000 hefyd y crëwyd pwyllgorau trosolwg a chraffu, sy'n cynnwys cynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth ("aelodau'r meinciau cefn"), i graffu ar waith y weithrediaeth yn ogystal ag i adolygu polisïau y tu mewn a'r tu allan i'r cyngor ei hun o safbwynt sut y maent yn effeithio ar yr ardal leol.

3.24 Daeth Adolygiad Beecham i'r casgliad bod craffu yn ffordd bwysig o wella'r modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus, a hynny drwy ddwyn gweithrediaethau cynghorau a chyrff cyhoeddus eraill i gyfrif a thrwy wneud cyfraniad hanfodol at waith datblygu polisi. Argymhellodd yr Adolygiad y dylai craffu ar y lefel leol weithio ar draws ffiniau sefydliadol, ac y dylai fod yn gynhwysol, gan edrych at y dyfodol. Dylai hefyd gwmpasu pob gwasanaeth ac ystod eang o randdeiliaid.

3.25 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cymeradwyo'r rhesymeg sy'n sail i argymhellion Beecham. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn nad yw'r broses graffu wedi bod mor effeithiol ag y gallai fod neu y dylai fod; nid oes ganddi ddigon o ddannedd i fynd i'r afael ag asiantaethau cyhoeddus eraill, ac anghyson fu ei chyfraniad o ran hyrwyddo datblygiad polisi. Un diffyg amlwg yw'r ffaith nad oes modd craffu ar wasanaethau cyhoeddus a ddarperir ar draws ardal mwy nag un awdurdod lleol.

3.26 Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad ymrwymiad yn *Rhannu Cyfrifoldeb* i gryfhau pwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol er mwyn dwyn y weithrediaeth i gyfrif mewn modd mwy effeithiol, er mwyn ehangu eu cwmpas i gynnwys gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, ac er mwyn datblygu rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth.

3.27 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod y trefniadau craffu sy'n bod ar hyn o bryd ar ei hôl hi bellach o ystyried y newidiadau i'r agenda llywodraeth leol er 2000. Mae amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi ar draws ardaloedd mwy nag un awdurdod lleol, ac mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi hefyd ar draws amryfal sectorau, yn ogystal ag ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol.

3.28 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen darpariaeth newydd er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion hyn ac er mwyn sicrhau bod fframweithiau llywodraethu clir ac effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau allweddol i bobl ac i gymunedau lleol.

3.29 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod nifer o broblemau wedi codi mewn rhai o'r awdurdodau lleol o ran y ffordd yr aed ati i roi'r trefniadau craffu ar waith. Nid yw'r problemau hyn yn rhai cyffredinol o bell ffordd ac er bod arferion gwael mewn rhai ardaloedd, mae rhai da i'w gweld mewn eraill. Er hynny, cred Llywodraeth y Cynulliad fod angen gweithredu er mwyn sicrhau bod pob ardal yn cael elwa ar arferion y derbynnir yn gyffredinol eisoes eu bod yn rhai da.

3.30 Dyma'r materion eraill y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio mynd i'r afael â hwy yn y Mesur arfaethedig o safbwynt gwella'r trefniadau craffu ym maes llywodraeth leol:

i. yr angen i fynd i'r afael â phryderon nad yw ansawdd y gwaith craffu gan bwyllgorau craffu gystal ag y dylai fod bob amser ac nad oes iddo hygrededd yng ngolwg y gymuned ehangach a'r sector

cyhoeddus am nad yw aelodau'r pwyllgorau yn meddu ar yr arbenigedd angenrheidiol;

ii. pryder nad yw pwyllgorau craffu mor effeithiol ag y dylent fod o ran dwyn y weithrediaeth i gyfrif nac o safbwynt cyfrannu at ddatblygu polisi, a hynny am fod aelodau o'r un grŵp (grwpiau) gwleidyddol â'r weithrediaeth yn cael eu penodi'n gadeiryddion ar bob un o'r pwyllgorau craffu mewn rhai o'r awdurdodau, neu am fod aelodau'r pwyllgorau (neu o leiaf rai ohonynt) yn pleidleisio yn unol â chyfarwyddiadau eu grwpiau gwleidyddol (chwipio). Mae amgyffrediad eang bod yr arferion hyn yn tanseilio'r egwyddorion sydd wrth wraidd craffu effeithiol;

iii. mae llawer o'r awdurdodau lleol yn argraffu blaen-gynlluniau sy'n amlinellu gweithgareddau eu pwyllgorau craffu, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol yn hyn o beth, ac nid yw rhai ohonynt yn gwneud hyn. Bernir bod craffu'n gweithio orau yn yr awdurdodau hynny sy'n mynd ati ymhell ymlaen llaw i gyhoeddi'r materion y disgwylir iddynt gael eu trafod;

iv. yr angen am ffyrdd o alluogi pobl leol a chynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth i ymgysylltu â phwyllgor craffu a chodi materion sy'n destun pryder iddynt.

3.31 Mae'r cynigion sy'n ymwneud â threfniadau craffu yn cael eu crynhoi ym mharagraff 3.4(c) uchod, yn yr adran sy'n dwyn y teitl Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.

*Cymunedau a chynghorau cymuned (Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig)*

3.32 Mae Llywodraeth y Cynulliad am wireddu ymrwymiadau a wnaed i ddatblygu ac i atgyfnerthu rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan roi'r gallu iddynt ddarparu ystod ehangach o wasanaethau ac i weithredu'n ehangach yn lleol. Mae'n awyddus hefyd i'w galluogi i fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni eu rôl fel cynrychiolwyr ac wrth weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill.

3.33 Mae'r darpariaethau yn Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig yn deillio o'r astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac a gynhaliwyd yn 2003 gan Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Cymru, Aberystwyth: 'Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol ("Adroddiad Aberystwyth").

3.34 Cafwyd adolygiad cynhwysfawr yn Adroddiad Aberystwyth o'r gweithgareddau y mae cynghorau cymuned ledled Cymru yn ymgymryd â hwy. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod pwysau cynyddol i ddiwygio strwythur ac arferion gwaith cynghorau cymuned. Nododd yr adroddiad fod rhai cynghorau cymuned yn teimlo bod cyfuniad o gyfyngiadau deddfwriaethol, ariannol a gweinyddol yn cyfyngu arnynt ac yn peri rhwystredigaeth iddynt.

3.35 Lleisiwyd pryderon yn yr adroddiad hefyd ynghylch pa mor gynhwysol yw rhai cynghorau, ynghylch y ffaith mai dim ond nifer bach o etholiadau sy'n cael eu hymladd, am y gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori â phobl leol a chyfathrebu â hwy, am yr hyfforddiant a roddir i glercod ac i gynghorwyr cymuned, ac am yr arbenigedd sydd ganddynt.

3.36 Nododd Adroddiad Aberystwyth fod llawer o arferion da ymhlith cynghorau cymuned mewn perthynas â phob un o'r agweddau y mynegwyd pryder yn eu cylch, ond bod y patrwm yn hyn o beth yn amrywio ar draws Cymru. Nododd yr adroddiad nifer o gynigion i ddatblygu rôl cynghorau cymuned, pe bai unrhyw gynghorau am ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad hefyd fod y gweithdrefnau presennol ar gyfer sefydlu cyngor cymuned yn rhy gaeth a'r rheini ar gyfer diddymu cyngor cymuned yn rhy llac.

3.37 Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad ei hymateb ffurfiol i Adroddiad Aberystwyth yn 2004, gan ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ystod yr adolygiad. Mae llawer o'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur arfaethedig yn deillio o'r ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei hymateb i Adroddiad Aberystwyth.

3.38 Ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i helpu i ddatblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer cynghorau cymuned a fyddai'n hyrwyddo:

- Gweithio mewn partneriaeth gyda haenau eraill o lywodraeth, gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a chyda sefydliadau eraill i hybu llesiant eu hardaloedd;
- Ymgynghori ac ymgysylltu â phobl leol i sicrhau bod math ac ansawdd y gwasanaethau a'r camau gweithredu a gynigir yn adlewyrchu anghenion lleol;
- Sicrhau bod y gwasanaethau a'r camau gweithredu hynny'n cael eu cyflenwi mewn modd effeithiol;
- Adolygu'r gweithdrefnau ar gyfer sefydlu neu ddiddymu cynghorau cymuned er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau hynny'n dryloyw ac yn gwbl gynrychioliadol;
- Annog grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol eraill i weithio er lles eu hardaloedd;
- Gwella cynrychiolaeth leol drwy annog pobl i bleidleisio ac i sefyll mewn etholiadau.

3.39 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig y darpariaethau sydd yn Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig gyda golwg ar wireddu'r dyheadau polisi hirdymor a nodir uchod. Mae'r cynigion yn cael eu crynhoi ym mharagraff 3.4 (d) uchod, yn yr adran sy'n dwyn y teitl Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.

*Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau cynghorwyr) (Rhan 8 o'r Mesur arfaethedig).*

3.40 Mae angen ystyried y cynigion sy'n ymwneud ag atgyfnerthu democratiaeth leol law yn llaw â'r rheini yn Rhan 8 sy'n ymwneud â diwygio'r system ar gyfer penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ledled Cymru.

3.41 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod rôl cynghorydd modern wedi datblygu'n aruthrol yn ystod y degawd diwethaf o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2000, ac a amlinellir yn yr adrannau uchod sy'n ymdrin â threfniadau llywodraethu a chraffu (Rhannau 3-6 o'r Mesur arfaethedig).

3.42 Yn yr oes sydd ohoni, mae'r dyddiau wedi hen fynd heibio pan oedd bod yn gynghorydd llywodraeth leol yn cael ei ystyried, ar y gorau, yn fath o waith gwirfoddol a oedd yn fodd i lenwi oriau hamdden gŵyr bonheddig cyfoethog ar ôl iddynt ymddeol.

3.43 Mae'r egwyddor wedi'i derbyn ers tro bod hawl gan gynghorwyr i gydnabyddiaeth ariannol am y rôl allweddol y maent yn ei chwarae wrth gynrychioli'u cymunedau ac wrth oruchwylio'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi. Mae'n rhaid i'r bobl hynny sy'n gynghorwyr roi o'u hamser er mwyn gwasanaethu ym maes llywodraeth leol ac mae costau ynghlwm hefyd wrth gynnal gwerthoedd democrataidd llywodraeth leol. Mae'r gydnabyddiaeth ariannol a roddir i gynghorwyr yn llai na 0.5% o gyllideb prif gyngor.

3.44 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn pryderu bod y system bresennol o gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr – y'n cynnwys lwfansau o wahanol fathau, pensiynau a thaliadau eraill – ar ei hôl hi, o bosibl, o ystyried y datblygiadau lu a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr.

3.45 Mae pryderon o'r fath wedi'u mynegi eisoes gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel Annibynnol"), sef y corff parhaol ac annibynnol a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru yn 2008 i ragnodi'r fframwaith y dylai cynghorau ei ddefnyddio wrth bennu'r cynlluniau lwfansau ar gyfer eu haelodau etholedig. Mae cylch gwaith y Panel hwn yn cael ei gyfyngu i wneud argymhellion i gynghorau sir ac i gynghorau bwrdeistref sirol ynghylch uchafswm neu uchafswm cyfanredol y lwfansau sy'n daladwy i aelodau'r awdurdodau hynny.

3.46 Caiff y Panel Annibynnol hefyd wneud argymhellion ynghylch pensiynau cynghorwyr sy'n aelodau o gynghorau sir neu o gynghorau bwrdeistref sirol, ond nid yw ei gylch gwaith yn cynnwys pennu lwfansau ar gyfer aelodau cynghorau cymuned; Gweinidogion Cymru sy'n dal i fod yn gyfrifol am wneud hynny.

3.47 Nid oes gan y Panel Annibynnol y pŵer i bennu'r lefelau ar gyfer cynghorwyr sy'n aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub neu o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, nac i bennu'r lefelau ar gyfer aelodau cyfetholedig o'r cyrff hynny, ond rhaid i'r awdurdodau hynny beidio â phennu lefelau sy'n uwch na'r cyfartaledd a bennir gan eu cynghorau awdurdodau lleol cyfansoddol.

3.48 Mae Llywodraeth y Cynulliad am sicrhau bod y system cydnabyddiaeth ariannol yn rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i bob cynghorydd am y cyfrifoldebau sydd arno ac am y dyletswyddau y mae'n eu cyflawni. Yng ngoleuni casgliadau'r Panel Arbenigol, mae'n bwysig hefyd nad oes unrhyw rwystrau ariannol sy'n golygu nad oes modd denu rhagor o bobl i ystyried gwasanaethu ym maes llywodraeth leol, yn enwedig y bobl hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd – er enghraifft, menywod, pobl ifanc, pobl o blith y lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau, yn ogystal â phobl sydd mewn cyflogaeth.

3.49 Gan hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen adolygu'r system bresennol, a'i diwygio, o bosibl; mae angen hefyd ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau na fydd y system cydnabyddiaeth ariannol yn syrthio ar ei hôl hi o ystyried datblygiadau ar draws llywodraeth leol ac yn ein cymdeithas yn gyffredinol.

3.50 Ym marn Llywodraeth y Cynulliad, byddai'n briodol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn a byddai hefyd yn briodol roi i'r corff hwnnw yr awdurdod i benderfynu ar bob agwedd ar y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i gynghorwyr. Byddai hyn yn fodd i sicrhau bod system fwy cynhwysfawr, cydlynol ac atebol yn cael ei sefydlu. Ar hyn o

bryd, mae'r ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn cyfyngu ar gylch gwaith y Panel Annibynnol ac ar yr hyn y gall ei wneud, ac mae'n rhannu'r cyfrifoldeb dros bennu lwfansau rhwng y Panel a Gweinidogion Cymru.

3.51 Bwriedir i'r darpariaethau a nodir yn Rhan 8 o'r Mesur arfaethedig fynd i'r afael â'r amgylchiadau hyn; mae'r cynigion yn cael eu crynhoi ym mharagraff 3.4(e) uchod, yn yr adran sy'n dwyn y teitl Cynigion ar gyfer y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol.

*Cydlafurio a Chyfuno (Rhan 9 o'r Mesur)*

3.52 Cafodd nifer o bwerau a dyletswyddau, a oedd yn ymwneud â gwella'r modd y maent yn arfer eu swyddogaethau, eu rhoi i awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, o dan Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009"). Roedd y rhain yn cynnwys pŵer cyffredinol i awdurdodau gydlafurio ag unrhyw berson pe byddai hynny'n hwyluso gwelliannau, a dyletswydd i ystyried arfer y pŵer hwnnw o bryd i'w gilydd.

3.53 Roedd Mesur 2009 hefyd yn rhoi grym i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol am y rhan fwyaf o'r pwerau a'r dyletswyddau sy'n cael eu creu yn Rhan 1, gan ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau eu hystyried. Fodd bynnag, drwy amryfusedd, cafodd y darpariaethau ynghylch cydlafurio eu hepgor o gwmpas y pŵer i gyhoeddi canllawiau.

3.54 Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ynghylch canllawiau drafft yn hwyr yn 2009 a bydd yn cyhoeddi'r testun terfynol yn y man. Roedd y canllawiau hynny'n cynnwys canllawiau ar gydlafurio, gan nodi'n gwbl glir bod yr elfen honno'n anstatudol. Cafodd y canllawiau, gan gynnwys yr adran sy'n ymwneud â chydlafurio, groeso cynnes gan yr awdurdodau lleol a chan eraill yr ymgynghorwyd â hwy.

3.55 Fodd bynnag, mae'r sefyllfa hon yn peri dryswch diangen. At hynny, mae awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod yn gyffredinol bod cydlafurio yn sylfaenol bwysig i wella ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bendant o'r un farn, ac mae'n dymuno rhoi cymaint o gymorth ag y bo modd i awdurdodau yn hyn o beth.

3.56 Mae Pennod 1 o Ran 9 o'r Mesur yn unioni'r sefyllfa hon drwy ddarparu y caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio.

Ar gyfer Pennod 2 o Ran 9 (Cyfuno) – gweler yr adendwm i'r Memorandwm hwn yn Atodiad C.

**Y cyrff y bydd y Mesur arfaethedig yn gymwys iddynt**

3.57 Dyma'r cyrff y bydd y Mesur arfaethedig yn gymwys iddynt:

- **Prif gynghorau** - cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru; mae cyfanswm o 22 o awdurdodau o'r fath yng Nghymru

- **Cynghorau cymuned** - mae rhyw 735 o gynghorau cymuned yng Nghymru (Gorffennaf 2010). Mae rhyw 115 o gymunedau yng Nghymru nad oes ganddynt gyngor cymuned. Gyda'i gilydd, mae'r 735 o gynghorau cymuned yn cwmpasu 96% o arwynebedd tir Cymru a rhyw 70% o'i phoblogaeth.

- **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** – mae tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

- **Awdurdodau Tân ac Achub** – mae tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru – Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

- **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** – corff annibynnol, parhaol a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2008. Y Panel hwn sy'n pennu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer y cynlluniau lwfansau sydd gan gynghorau ar gyfer eu haelodau etholedig.

**Cymhwysiad Tiriogaethol**

3.58 Mae'r Mesur yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Cychwyn**

3.59 Heblaw am rai eithriadau, dylai rhannau gwahanol o'r Mesur ddod i rym ar ddyddiadau a bennir mewn gorchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru. Dylai fod modd pennu dyddiadau gwahanol at ddibenion gwahanol mewn gorchmynion o'r fath.

# 4. Ymgynghori

4.1 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori am y Mesur ei hun, a hynny oherwydd iddi ymgynghori'n eang am y cynigion polisi sy'n sail i'r ddeddfwriaeth arfaethedig. Roedd y datganiad polisi cyffredinol, *Rhannu Cyfrifoldeb*, yn seiliedig ar ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu eang a gynhaliwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, ac a oedd yn cynnwys llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Aed ati, wrth ddatblygu'r cynigion manwl, i gynnal nifer o ymgyngoriadau, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y cynigion.

*Rhannau 1-2 – Atgyfnerthu democratiaeth leol ac Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol*

4.2 Mae'r darpariaethau yn Rhannau 1-2 o'r Mesur arfaethedig yn seiliedig ar y casgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad "*At ein gwasanaeth?*" a gyhoeddwyd ym mis Awst 2009 gan Banel Arbenigol Comisiwn Cynghorwyr Cymru (y "Panel Arbenigol").

4.3 Aeth Llywodraeth y Cynulliad ati rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2009 i ymgynghori am y casgliadau a'r argymhellion yn "*At ein gwasanaeth?*". Cafodd copïau o'r adroddiad eu hanfon at arweinwyr a phrif weithredwyr yr awdurdodau lleol, y pedair prif blaid wleidyddol, grwpiau gwleidyddol yn yr awdurdodau lleol, sefydliadau sy'n cynrychioli cyrff yn y sector cyhoeddus, ac at y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb. Cafodd yr adroddiad ei gyhoeddi hefyd ar wefan ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad.

4.4 Daeth cyfanswm o 41 o ymatebion i law, gan gynnwys 7 oddi wrth gynghorau sir / cynghorau bwrdeistref sirol, 20 oddi wrth gynghorau cymuned, 4 oddi wrth grwpiau ymgyrchu cenedlaethol a 2 oddi wrth grwpiau a oedd yn arwain eu hawdurdodau lleol. Mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi ar wefan ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad (yn Saesneg yn unig)

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/beingserved/?lang=en&status=closed

4.5 Roedd y gwaith o ddatblygu'r cynigion polisi ar gyfer y Mesur arfaethedig yn seiliedig ar argymhellion 1, 2, 10, 11, 13, 14, 23, 26 ac 28 yn adroddiad y Panel Arbenigol. Roedd gweddill yr argymhellion yn ymwneud â gweithredu ar faterion eraill.

4.6 Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r argymhellion a oedd yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r Mesur arfaethedig, er bod rhai o'r farn bod angen bod yn ofalus oherwydd y goblygiadau posibl o ran cost. Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at y ffaith bod y cynigion yn nifer o'r argymhellion hyn yn arferion y derbynnir eisoes ar draws llywodraeth leol eu bod yn rhai da.

4.7 Cafwyd ymateb negyddol, at ei gilydd, i un o'r argymhellion a oedd yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig. Roedd argymhelliad 2 yn cynnig y dylid mynd ati mewn prif gynghorau i wahanu swyddogaethau'r weithrediaeth yn llwyr oddi wrth swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau gweithrediaeth, gan wneud hynny'n gyfreithiol. Daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad nad oedd yn briodol gwahanu'r swyddogaethau hyn yn gyfreithiol, ond y dylid, er hynny, fynd i'r afael ag anghenion cymorth yr aelodau hynny nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth. Mae'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei ddarparu gan swyddogion i'r aelodau hynny nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth, ond ni fydd unrhyw wahanu cyfreithiol a fydd yn creu endidau cyfreithiol newydd.

4.8 Cafodd ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r ymgynghoriad am adroddiad y Panel Arbenigol ei gyhoeddi mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 12 Mai 2010, sydd i'w weld ar dudalennau'r Cabinet ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

http://cymru.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2010/100512ccep/?lang=cy

*Rhannau 3-6 – Trefniadau Llywodraethu a Chraffu (hy Rhannau yn ymdrin â threfniadau llywodraethu, trefniadau gweithrediaeth, cyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr, a throsolwg a chraffu)*

4.9 Mae'r darpariaethau yn Rhannau 3-6 o'r Mesur arfaethedig yn seiliedig ar yr ymgynghoriad am y cynigion ar gyfer craffu a strwythurau gwleidyddol (fel y cyfeirir atynt yn y ddogfen yr ymgynghorwyd yn ei chylch), a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Mawrth 2010.

4.10 Roedd y ddogfen ymgynghori'n gwahodd pobl i leisio barn am y cynigion a fyddai'n cael eu cynnwys mewn Mesur Cynulliad arfaethedig.

4.11 Cafodd copïau o'r ddogfen ymgynghori eu hanfon at arweinwyr a phrif weithredwyr yr awdurdodau lleol, y pedair prif blaid wleidyddol, arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn yr awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus sy'n cynrychioli'r sector cyhoeddus, gan gynnwys y sector iechyd a'r sector gwirfoddol, ac at sefydliadau cynrychioliadol, ac eraill. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi hefyd ar wefan ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad.

4.12 Daeth cyfanswm o 42 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 17 oddi wrth gynghorau sir / cynghorau bwrdeistref sirol, 7 oddi wrth gyrff cyhoeddus eraill, 5 oddi wrth grwpiau gwleidyddol yn yr awdurdodau lleol, 2 oddi wrth sefydliadau sy'n cynrychioli'r trydydd sector a 2 oddi wrth grwpiau ymgyrchu cenedlaethol. Mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi ar wefan ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad

http://wales.gov.uk/consultations/localgovernment/scrutiny/?lang=en&status=closed

4.13 Cafodd bron pob un o'r cynigion rhyw gymaint o gefnogaeth, er bod gwahaniaethau ar brydiau rhwng yr amryfal gategorïau o ymatebwyr: er enghraifft, roedd yr ymatebwyr "eraill" yn fwy brwdfrydig am rai o'r cynigion na'r awdurdodau lleol, ac i'r gwrthwyneb. Lle bo hynny'n briodol, eir ati yn y crynodeb o'r ymatebion i nodi gwahaniaethau o'r fath.

4.14 Cafwyd ymateb arbennig o negyddol i ddau o'r cynigion; sef y dylai cadeiryddion y pwyllgorau archwilio arfaethedig fod yn lleygwyr (h.y. unigolion cyfetholedig nad ydynt yn gynghorwyr) (gweler *cynnig 14* yn y ddogfen ymgynghori), a'r pŵer newydd arfaethedig i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y modd y mae awdurdod lleol yn cael ei redeg pan fo risg wirioneddol, neu ganfyddiad o risg, na chaiff swyddogaethau eu cyflawni'n effeithiol (gweler *cynnig 15*).

4.15 Nododd Llywodraeth y Cynulliad y safbwyntiau a fynegwyd am y materion hyn ac aeth ati i newid y cynigion. O dan y darpariaethau arfaethedig ar gyfer pwyllgorau archwilio, mater i'r pwyllgorau eu hunain fydd dewis y cadeirydd, ar yr amod nad yw'r cadeirydd yn aelod o grŵp gwleidyddol sy'n rhan o weithrediaeth yr awdurdod. Nid oes unrhyw bwerau newydd sy'n ymwneud ag ymyrryd â'r modd y mae'r awdurdodau lleol yn cyflawni'u swyddogaethau.

4.16 Caiff ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'r ymgynghoriad ynghylch craffu a strwythurau gwleidyddol (h.y. y trefniadau llywodraethu) ei gyhoeddi yn y man.

*Rhan 7 – Cymunedau a chynghorau cymuned*

4.17 Mae'r darpariaethau yn Rhan 7 o'r Mesur arfaethedig yn deillio o'r astudiaeth o gynghorau cymuned yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ac a gynhaliwyd yn 2003 gan Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Prifysgol Cymru, Aberystwyth: '*Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol* ("Adroddiad Aberystwyth"). Dyma'r adolygiad cynhwysfawr cyntaf o waith cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

4.18 Bu Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori am astudiaeth Aberystwyth rhwng mis Tachwedd 2003 a mis Chwefror 2004. Cysylltwyd â chynghorau sir/bwrdeistref sirol, cynghorau cymuned, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru (a oedd ar ffurf gysgodol bryd hynny) a chymdeithasau cynghorau lleol eraill, yn ogystal â sefydliadau eraill â buddiant, i ofyn iddynt gyflwyno sylwadau. Y nod oedd sicrhau bod cynigion polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn seiliedig ar sylwadau a chyfraniadau gan randdeiliaid.

4.19 Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, trefnodd Llywodraeth y Cynulliad gyfres o bedair seminar ranbarthol ym mis Ionawr 2004, gan wneud hynny ar y cyd ag Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y seminarau hyn yn gyfle i'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy drafod argymhellion yr adroddiad.

4.20 Daeth cyfanswm o 186 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad; 156 oddi wrth gynghorau cymuned a thref, 14 oddi wrth gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac 16 oddi wrth sefydliadau eraill ac unigolion. Roedd ymateb ffurfiol Llywodraeth y Cynulliad i Adroddiad Aberystwyth (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2004) yn seiliedig ar yr ymgynghoriad. Mae'r ymateb hwnnw i'w weld ar wefan Llywodraeth y Cynulliad ar http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/research/wagresponse/?skip=1&lang=cy

4.21 Roedd nifer sylweddol o'r dyheadau polisi a bennwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer cynghorau cymuned yn dibynnu ar newid deddfwriaeth sylfaenol. Roedd *Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd*

*Deddfwriaethol 2010* ("yr GCD") yn rhoi'r cymhwysedd i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno'r newidiadau yr oedd am eu gwneud. At ei gilydd, roedd y rheini a ymatebodd i ymgyngoriadau'r pwyllgorau craffu am yr GCD o blaid cynigion Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer deddfu mewn perthynas â chynghorau cymuned.

4.22 Mae'r Gweinidogion wedi ystyried y pryderon a fynegwyd yn adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 am yr GCD, yn benodol felly fel nad yw cynghorau cymuned llai yn cael eu rhoi o dan unrhyw anfantais am nad yw'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt yn realistig, nac yn cael eu llethu gan ormod o gyfrifoldebau newydd.

*Rhan 8 – Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau cynghorwyr)*

4.23 Cafodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y "Panel Annibynnol") ei sefydlu'n gorff parhaol gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2008. Y Panel hwn sy'n pennu'r fframwaith ar gyfer y cynlluniau lwfansau sydd gan gynghorau ar gyfer eu haelodau etholedig.

4.24 Mae'n ofynnol i'r Panel Annibynnol fynd ati bob blwyddyn i baratoi Adroddiad Blynyddol, a chaiff baratoi adroddiadau atodol ar unrhyw adeg. Roedd amryfal argymhellion yn adroddiad cychwynnol (Gorffennaf 2008) ac yn adroddiad atodol (Rhagfyr 2008) y Panel hwn ynghylch diwygio'r system lwfansau yn y dyfodol, yn fwyaf arbennig, ceisio cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad Cenedlaethol dros gydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr.

4.25 Rhoddodd yr GCD Llywodraeth Leol uchod (a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2010) gymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol dros y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i gynghorwyr. Yn ystod y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y camau craffu ar yr GCD, daeth hi'n amlwg y byddai'n ddymunol ehangu cylch gwaith y Panel Annibynnol er mwyn sicrhau a hwyluso mwy o gysondeb ledled Cymru.

4.26 Yn ei adroddiad am yr GCD, roedd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 y Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod bod cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad o drosglwyddo cymhwysedd dros y system lwfansau, a nododd hefyd ei bod yn bwysig rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i argymhellion y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Bydd y darpariaethau arfaethedig ar lwfansau yn caniatáu hyblygrwydd o'r fath.

*Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno*

4.27 Mae Pennod 1 o Ran 9 (Cydlafurio) yn y Mesur arfaethedig yn cywiro anghysondeb technegol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn ei chylch. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgynghori am ganllawiau anstatudol ar gydlafurio; roedd mwyafrif llethol yr ymatebion a gafwyd oddi wrth awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol yn rhai cadarnhaol.

Ar gyfer Pennod 2 o Ran 9 (Cyfuno) – gweler yr adendwm i’r Memorandwm hwn yn Atodiad C.

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 . Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Nodir isod yn *Nhabl 1* mewn perthynas â phob darpariaeth:

- y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- priodoldeb y pŵer a ddirprwywyd;
- y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn), os o gwbl.

5.2 I helpu i ddeall y bwriadau ar gyfer defnyddio'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig, paratowyd memorandwm ar wahân yn *Atodiad A* o'r ddogfen hon. Mae *Atodiad A* yn nodi hefyd briodoldeb mabwysiadu gwahanol weithdrefnau’r Cynulliad ar gyfer y ddeddfwriaeth.

## Tabl 1- Crynodeb o’r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth

### Crynodeb o’r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth - Atgyfnerthu Democratiaeth Leol

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 1 (dyletswydd i gynnal arolwg) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 2 (dyletswydd i grynhoi a chyhoeddi data) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 9(1)(i) (swyddogaethau gwasanaethau democrataidd) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau rhagnodedig sy’n agored i newid. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 10 (rheolau sefydlog) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn ychwanegu darpariaeth rhagnodedig ac addasiadau, ac oherwydd y byddant yn gallu gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau gwahanol o achos. | Penderfyniad Negyddol |

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 24 (absenoldeb teuluol ) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 25 (absenoldeb mamolaeth) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 26 (absenoldeb newydd-anedig) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 27 (absenoldeb mabwysiadu) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 28 (absenoldeb mabwysiadu newydd) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 29 (absenoldeb rhiant) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 30 (atodol) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu manylion ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn gysylltiedig â gweithredu trefniadau a wneir o dan y Mesur sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac oherwydd y byddant yn caniatáu diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen. | Penderfyniad Cadarnhaol |

## Crynodeb o'r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Llywodraethu

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Mae adran 34 yn rhoi effaith i baragraff 13(2) o Ran 3 o Atodlen 1 (methu â rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Nid oes unrhyw reswm ar hyn o bryd dros gredu na fydd awdurdodau'n gwneud y newidiadau angenrheidiol, ond serch hynny, mae'n ddoeth cynnwys pŵer diofyn. Os caiff y pŵer ei ddefnyddio, bydd angen darpariaeth fanwl ac felly mae'n briodol gwneud y ddarpariaeth angenrheidiol drwy orchymyn. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 55 (arfer swyddogaethau gan gynghorwyr) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bod y darpariaethau'n ymwneud â manylion y trefniadau a alluogir gan y Mesur. | Penderfyniad Negyddol |

## Crynodeb o'r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Trosolwg a Chraffu

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 57<br>(y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu'r manylion gweinyddol ar gyfer cynllun sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ei hun. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 21G(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a fewnosodwyd gan Adran 60<br>(personau dynodedig) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion gweinyddol y mae eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 21A(13(b)) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a fewnosodwyd gan Adran 62 (cyfeirio materion at y pwyllgor trosolwg a chraffu – materion eithriedig | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Nid oes modd, ar hyn o bryd, nodi pob achos lle y gall fod yn briodol i Weinidogion Cymru arfer y pŵer i bennu pa faterion a fydd yn rhai eithriedig, ac felly, mae gorchymyn yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 74<br>(darpariaeth atodol a dehongli) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â chynllun penodi sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac y gall fod angen ei adolygu o dro i dro. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 80<br>(blaen-gynlluniau) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion gweinyddol y gall fod angen eu hadolygu'n rheolaidd. | Penderfyniad Negyddol |

## Crynodeb o'r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Cynghorau Cymuned

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 97 (hysbysiad sydd i'w roi gan y swyddog canlyniadau ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y cynnwys yn ymhelaethu ar fanylion y mathau o gwestiynau (a fyddai'n destun pleidlais) a allai ddirymu'r ddarpariaeth ynghylch hysbysiad a nodir yn adran 97. | Penderfyniad Negyddol (bydd y brif ddarpariaeth yn Neddf 1972 fel y'i diwygir gan y Mesur) |
| Adran 116 (pŵer i newid trothwy pleidleisio) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd y bydd yn fodd i ddiwygio'r trothwyon sydd i'w gweld ar wyneb Deddf 1972, fel y'i diwygir gan y Mesur. | Penderfyniad Cadarnhaol (rhagamod ynghylch ymgynghori yn is-adran (3)). |
| Adran 119(5)(c) (gofynion hysbysu) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod gwybodaeth ychwanegol i'w hychwanegu at y gofynion hysbysu os gwelir bod angen gwneud hynny. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 122 (gofynion hysbysu) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod gwybodaeth ychwanegol i'w hychwanegu at y gofynion hysbysu os gwelir bod angen gwneud hynny. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 124 (effaith penodi) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn pennu at ba ddiben/ion y mae cynrychiolydd ieuenctid i'w drin fel aelod o'r cyngor; yn agored i gael eu hadolygu a'u newid dros amser. | Penderfyniad Negyddol |

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 130 (diwygio neu ddiddymu deddfiadau yn atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Pŵer i wneud gorchymyn yn addas gan y bydd yn sefydlu rheolaeth cyfraith newydd, yn rhinwedd diwygio neu ddiddymu deddfiadau eraill. | Penderfyniad Uwchgadarnhaol |
| Adran 133 (pŵer i osod cytundeb siarter) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd y bydd, i bob pwrpas, yn pennu'r hyn sydd i'w gynnwys yn y cytundeb siarter enghreifftiol, y gall y bydd cyfarwyddyd yn cael ei roi wedyn mewn perthynas â mabwysiadu'r cyfryw gytundeb. | Penderfyniad Negyddol (rhag-amod ynghylch ymgynghori yn adran 136). |
| Adran 137 (cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd bod y darpariaethau'n nodi manylion y cynllun achredu, ee dichon y bydd y meini prawf a osodir yn agored i newid. | Penderfyniad Negyddol |
| Adran 143 (achredu ansawdd - canlyniadau) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod y darpariaethau'n addasu'r modd y gweithredir unrhyw ddeddfiad mewn perthynas â chynghorau cymuned penodol sy'n deillio o'r ffaith bod gan y cyfryw gynghorau achrediad ansawdd, neu fel arall. | Penderfyniad Cadarnhaol |

**Crynodeb o’r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Lwfansau Cynghorwyr**

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 161<br>(pŵer i ddiwygio) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd yn rhan o’r cynllun penodi sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur ac y gall fod angen ei adolygu o dro i dro. | Penderfyniad Cadarnhaol |

**Crynodeb o’r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Cydlafurio a Chyfuno** – gweler yr adendwm i’r Memorandwm hwn yn Atodiad C

**Crynodeb o’r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Cyffredinol**

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 170 (y pŵer i wneud darpariaeth atodol) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion diwygiadau i ddeddfwriaeth y gall y bydd eu hangen yn y dyfodol. | Penderfyniad Negyddol<br>Penderfyniad Cadarnhaol os yw’r gorchymyn yn addasu deddfiad |
| Adran 171<br>(cychwyn) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd bod y ddarpariaeth yn ymwneud â’r dyddiad dod i rym sydd i’w benderfynu gan Weinidogion Cymru. | Dim gweithdrefn |

# 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi ei gwblhau ar gyfer y Mesur arfaethedig, yn unol â Rheol Sefydlog 23.18 (vi), ac mae'n dilyn yn Rhan 7.

6.2 Ni fydd unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio na chostau eraill newydd neu ychwanegol o ganlyniad i lawer o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig, a hynny am eu bod yn ymdrin â strwythurau llywodraethu, strwythurau busnes, strwythurau cydnabyddiaeth ariannol a strwythurau ymgysylltu sy'n bodoli eisoes mewn prif gynghorau. Os bydd unrhyw gostau newydd ac ychwanegol, fe'u nodir yn adran 8 ar gyfer pob rhan o'r Mesur arfaethedig, gan nodi hefyd dros ba gyfnod o amser y disgwylid costau o'r fath.

# Rhan 2: <u>Asesiad Effaith Rheoleiddiol</u>

### *7. Opsiynau*

7.1 Dyma'r opsiynau sy’n cael eu hystyried mewn perthynas â’r cynigion a nodir yn y Mesur arfaethedig:

**Opsiwn 1**: Gwneud dim
**Opsiwn 2**: Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl gan ddefnyddio deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes a chan hyrwyddo newidiadau eraill drwy ganllawiau a thrwy ledaenu arferion da.
**Opsiwn 3**: Cyflwyno Mesur Cynulliad

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

7.2 Byddai gwneud dim yn cyfyngu ar allu Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill i fynd i’r afael â’r amryfal faterion a nodwyd gan y gwahanol adolygiadau ac adroddiadau a ddisgrifir yn adran 3 uchod. Daeth yr adolygiadau i’r casgliad mai’r unig ffordd, mewn nifer o achosion, o fynd i’r afael â’r materion a nodwyd oedd drwy ddeddfwriaeth, naill ai drwy ddarpariaeth newydd neu drwy newid darpariaeth a oedd eisoes yn bod.

7.3 Felly, byddai gwneud dim yn golygu y byddai perygl o gynnal ystod o amgylchiadau ym maes llywodraeth leol y nodwyd eu bod yn anghyson, yn anghynrychioliadol, ar ôl yr oes ac yn niweidiol i lywodraethu da. Byddai gwneud dim yn golygu hefyd y byddai anghysondeb, nad yw o fudd, i’w weld o hyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl gan ddefnyddio deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes a chan hyrwyddo newidiadau eraill drwy ganllawiau a thrwy ledaenu arferion da**

7.4 Byddai’r opsiwn hwn yn golygu y byddai gofyn gweithio o fewn y fframweithiau deddfwriaethol a gweithdrefnol sy’n bodoli eisoes. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad rai pwerau eisoes, er enghraifft, mewn perthynas â sefydlu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a phwerau i gyhoeddi canllawiau yn ymwneud â’r modd y mae pwyllgorau trosolwg a chraffu yn gweithredu.

7.5 Mae’r pwerau presennol hyn, serch hynny, yn gyfyngedig eu cwmpas, ac nid ydynt ond yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i fynd i’r afael â rhai o’r materion a nodwyd, neu i fynd i’r afael â hwy yn rhannol yn unig. Mae’r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol yn dameidiog ac yn anghyflawn (er enghraifft, mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr), ac mae hyn yn amharu ar allu Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill i fynd i’r afael mewn ffordd gynhwysfawr â’r amryfal faterion a nodwyd.

7.6 Gallai Llywodraeth y Cynulliad hefyd geisio sicrhau newidiadau drwy gyhoeddi canllawiau a thrwy ledaenu arferion da. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos eisoes â phartneriaid megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac Un Llais Cymru (sef y cyrff mantell ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned, yn y drefn honno) er mwyn nodi a rhannu arferion da.

7.7 Ond mae pen draw i'r gwelliannau y gellir eu sicrhau drwy ddibynnu ar ganllawiau ac ar ledaenu arferion da. Mae rhai awdurdodau lleol yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol, gan adolygu eu harferion a chyflwyno newidiadau; ond nid dyna'r sefyllfa ym mhob awdurdod.

7.8 Mae'r amryfal adolygiadau y cyfeiriwyd atynt eisoes wedi dod i'r casgliad na fydd y fframweithiau presennol yn fodd i gyrraedd y nod o ran cyflawni'r newidiadau a argymhellwyd yn yr adolygiadau hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai dibynnu ar y fframweithiau statudol presennol, ac ar ganllawiau ac ar ledaenu arferion da, yn golygu mai anghyson o hyd fyddai'r cynnydd a gâi ei wneud o ran mynd i'r afael â'r amryfal faterion allweddol y tynnwyd sylw atynt yn yr adolygiadau a grybwyllir uchod.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad**

7.9 Yr opsiwn hwn fyddai fwyaf effeithiol o ran cyflawni'r amcanion polisi a nodir mewn datganiadau megis *Rhannu Cyfrifoldeb* ac yn ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adroddiad Aberystwyth.

7.10 Bydd y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn fodd i gael gwared ar y rhwystrau sydd wedi cyfyngu ar gyfranogiad, ymgysylltiad ac atebolrwydd ym maes llywodraeth leol ledled Cymru; mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o ddileu'r rhwystrau hyn yw drwy ddeddfwriaeth. Yr unig ffordd o gael gwared ar nifer mawr o'r rhwystrau yw drwy gyflwyno deddfwriaeth.

7.11 Byddai'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad, i'w phartneriaid ac i randdeiliaid eraill fynd i'r afael mewn modd cydlynol a chynhwysfawr â'r materion cydberthynol sy'n wynebu llywodraeth leol.

7.12 Bydd cyflwyno Mesur yn fodd i sefydlu fframwaith clir a fydd yn galluogi'r amryfal bartneriaid i gyflwyno gwelliannau er mwyn cyflawni'r amcanion polisi y dymunir eu gweld. Bydd y darpariaethau a nodir yn y Mesur arfaethedig yn helpu i sicrhau bod safonau ac egwyddorion yn gyson ar draws llywodraeth leol.

# 8. <u>Costau a manteision</u>

8.1 Mae'r adran hon yn edrych ar gostau a manteision yr opsiynau a ddisgrifir yn yr adran flaenorol, gan wneud hynny o dan bob Rhan yn unol â'r drefn yn y Mesur arfaethedig.

*(a) <u>Atgyfnerthu democratiaeth leol ac Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol (Rhannau 1-2)</u>*

**<u>Opsiwn 1 – Gwneud dim</u>**

8.2 Byddai gwneud dim yn cyfyngu ar allu Llywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid eraill i ymateb i lawer o'r materion a nodir yn adroddiad y Panel Arbenigol.

8.3 Canfu'r Panel Arbenigol nad oedd cynrychiolaeth ddigonol yn siambrau cynghorau Cymru gan fenywod, gan bobl o blith y lleiafrifoedd ethnig, gan bobl ifanc, gan bobl anabl, gan bobl sydd mewn cyflogaeth am dâl na chan bobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol. Nododd y Panel mai ychydig iawn o newid sydd wedi'i weld ym mhroffil cynghorwyr, er gwaethaf pryderon sydd wedi'u codi ac argymhellion sydd wedi'u gwneud mewn nifer o adroddiadau ers degawdau (megis adroddiad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru a luniwyd yn 2002).

8.4 Nod y 35 o argymhellion a wnaed gan y Panel Arbenigol oedd dileu rhwystrau canfyddedig sy'n atal pobl o gefndiroedd amrywiol rhag sefyll etholiadau a rhag medru parhau'n gynghorwyr wedyn. Nododd nifer o'r argymhellion y byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth er mwyn bwrw ymlaen â materion penodol.

8.5 O beidio â gwneud dim mewn ymateb i argymhellion y Panel Arbenigol, ni fyddai unrhyw gostau i Lywodraeth y Cynulliad nac i lywodraeth leol. Fodd bynnag, byddai gwneud dim yn golygu na fyddai unrhyw ddyletswydd ar gynghorau i sicrhau bod amodau gwaith aelodau etholedig, a'r gwasanaethau cymorth a fyddai'n cael eu darparu ar eu cyfer, yn diwallu anghenion aelodau o gefndiroedd amrywiol. Byddai'r ffaith na fyddai unrhyw warant ynghylch darparu cymorth a hyfforddiant yn cyfyngu ar effeithiolrwydd cynghorwyr etholedig. Ni fyddai unrhyw ofyniad ar gynghorau i weithredu er mwyn mynd i'r afael ag ystod o arferion y nododd y Panel Arbenigol eu bod yn peri problemau gwirioneddol i bobl a hoffai ystyried bod yn gynghorwyr neu a oedd am barhau i fod yn gynghorwyr.

8.6 Byddai gwneud dim yn golygu hefyd na fyddai gan Lywodraeth y Cynulliad na rhanddeiliaid eraill unrhyw ddata dibynadwy ar amrywiaeth yr ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol. Byddai'n amhosibl dweud a fyddai'r polisïau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith er mwyn annog ystod ehangach o bobl i sefyll fel ymgeiswyr yn cael unrhyw effaith.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl**

8.7 Nid oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth bresennol y gellid ei ddefnyddio i helpu i wireddu'r dyheadau y mae'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur arfaethedig yn mynd i'r afael â hwy.

8.8 Gallai canllawiau, anogaeth a lledaenu arferion da arwain at rai canlyniadau cadarnhaol, ond mae profiad wedi dangos bod dibynnu ar ddulliau o'r fath yn unig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn golygu mai araf a bratiog yw unrhyw gynnydd a wneir. Cyfeiriodd y Panel Arbenigol at amryfal fentrau yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y degawd diwethaf er mwyn annog cyfranogiad ehangach, gan roi croeso i'r mentrau hynny, ond nododd, o ystyried faint o gynnydd sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd, y byddai'n 2060 cyn y byddai modd sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar gynghorau ledled Cymru.

8.9 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu mentrau y mae CLlLC wedi ymgymryd â hwy i wella'r hyfforddiant a'r cymorth a roddir i gynghorwyr, ac i wella'u perfformiad, yn benodol drwy ei gyhoeddiad *Breinlen ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru*, ond nid oes unrhyw orfodaeth ar awdurdodau lleol i fabwysiadu'r egwyddorion na'r arferion da a nodir yn y Freinlen. Dim ond rhai o'r awdurdodau lleol a'r cynghorwyr sydd wedi gwneud hynny. Lansiwyd y Freinlen yn 2005, ond hyd yma, dim ond 8 o blith y 22 o brif gynghorau sydd wedi cyrraedd Lefel 1 o'r Freinlen.

8.10 Dichon fod lle i gryfhau'r arolwg presennol o gynghorwyr, a gynhaliwyd ddiwethaf gan CLlLC ar ôl yr etholiadau yn 2004 (ond ni chynhaliwyd arolwg o'r fath yn 2008). Efallai y byddai gwneud hynny'n fodd i gael gwell data am gynghorwyr, ond ni fyddai'n rhoi unrhyw wybodaeth am ymgeiswyr, ac mae hynny'n golygu, felly, na fyddai unrhyw fodd i fesur yr effaith y byddai polisïau i annog rhagor o amrywiaeth yn eu cael ar y mathau o bobl a fyddai'n sefyll etholiadau.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur**

8.11 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu canllawiau ac i rannu arferion da, ond mae o'r farn bod angen y ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn cael gwared ar nifer o rwystrau allweddol sy'n llesteirio cynnydd.

*Costau a manteision*

8.12 Bernir mai deddfwriaeth yw'r unig ffordd o sicrhau bod ymgeiswyr a chynghorwyr yn cael eu monitro'n rheolaidd. Er gwaethaf y cynsail a osodwyd yn 2004, ni chynhaliwyd arolwg yn 2008 a fyddai, o'i gynnal, wedi bod yn arolwg o gynghorwyr (ac felly ymgeiswyr *llwyddiannus*) yn unig. Bydd y cynnig y mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar ei gyfer yn fodd i sicrhau data mwy cynhwysfawr a rheolaidd, a fydd yn galluogi'r rheini sy'n llunio polisïau i asesu

effeithiolrwydd mentrau y bwriedir iddynt wella amrywiaeth mewn siambrau cynghorau.

8.13 Bydd y Mesur arfaethedig yn rhoi dyletswyddau ar brif gynghorau i ddarparu systemau hyfforddi a datblygu digonol ar gyfer eu haelodau etholedig ac i wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi adroddiad blynyddol gan bob aelod. Derbynnir eisoes ledled llywodraeth leol bod y rhain yn arferion da, ac mae llawer o awdurdodau lleol, ond nid pob un ohonynt, yn darparu gwasanaethau o'r fath eisoes. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylai'r un safonau, o ran arferion da, fod ar gael i aelodau pob un o'r prif gynghorau. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig yn sicrhau bod safonau o'r fath yn cael eu gweithredu ar draws yr holl brif gynghorau.

8.14 Nid oes darpariaeth yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n galluogi cynghorau i gyflwyno cyfleusterau mynychu o bell ar gyfer aelodau etholedig; nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn nodi a gaiff cynghorau ganiatáu cyfnodau o absenoldeb i aelodau am resymau teuluol, megis absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu, ac absenoldeb sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau rhiant. Diben y darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yw galluogi cynghorau i gyflwyno'r nodweddion hyn a thrwy wneud hynny, ymateb i anghenion aelodau (neu ddarpar aelodau) y mae eu hamgylchiadau personol, o bosibl, yn ei gwneud hi'n anodd iddynt fynd i gyfarfodydd ar adegau penodol.

8.15 Amcangyfrifir mai cost cyflwyno arolwg rheolaidd fyddai £35,000 yr arolwg. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn darparu'r cyllid, a fyddai'n cael ei rannu rhwng y 22 o brif gynghorau (tua £1,750 yr un), er mwyn cynnal arolwg o ymgeiswyr mewn etholiadau cyngor cymuned ac etholiadau prif gynghorau. Byddai gofyn ysgwyddo'r gost hon bob pedair blynedd, gan ddechrau ym mlwyddyn ariannol 2012-13. Byddai Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gyfrifol am gost gweinyddu o tua £2,500 ar gyfer dadansoddi a dosbarthu data'r arolwg, a byddai'r arian hwnnw'n dod o'r adnoddau y rhagamcenir a fyddai ganddynt eisoes.

8.16 O ran y cynigion sy'n ymwneud â hyfforddi a datblygu ac arfarnu perfformiad, derbynnir eisoes bod y rhan fwyaf ohonynt yn arferion da, ac maent wedi'u mabwysiadu gan yr awdurdodau lleol hynny sy'n gweithredu yn unol â Breinlen CLlLC. Bydd y goblygiadau o ran cost yn dibynnu ar lefel yr hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd. Er mwyn adolygu'r ddarpariaeth a nodi unrhyw fylchau, efallai y bydd angen i rai awdurdodau ddarparu arian ysgogi o 2012-13 ymlaen (£5,000 yr awdurdod yn yr achosion hynny lle nad oes fawr o ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar hyn o bryd). Efallai hefyd y bydd angen i rai awdurdodau ysgwyddo ychydig o gostau sefydlu, o hyd at £2,500 (yr awdurdod), er mwyn dechrau arfarnu perfformiad yn flynyddol ac er mwyn cyhoeddi adroddiadau blynyddol cynghorwyr ar wefannau cynghorau.

8.17 Mae darpariaeth yn cael ei gwneud eisoes yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer hyfforddi a datblygu cynghorwyr (ond nid yw'r ddarpariaeth honno'n cael ei neilltuo, ac o'r herwydd, nid oes modd rhoi amcangyfrif o'r costau ar hyn o bryd). At hynny, mae Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £110,000 y flwyddyn i CLlLC (yn ystod 2010-11) er mwyn ariannu hyfforddiant i gynghorwyr. Ni ragwelir y bydd y darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â hyfforddi a datblygu yn arwain at gynnydd yn y cyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei roi i awdurdodau lleol neu i CLlLC. Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol o ran staff na thechnoleg.

8.18 Byddai cost cyflwyno cyfleusterau mynychu o bell yn dibynnu'n fawr iawn ar amgylchiadau'r awdurdod lleol ac, o bosibl, ar ddosbarthiad yr aelodau etholedig ar draws ei ardal. Mae llawer o awdurdodau eisoes wedi gosod offer fideogynadledda / gwe gamerâu mewn swyddfeydd rhanbarthol. Yn achos yr awdurdodau hynny sydd heb gyfleusterau o'r fath eisoes, amcangyfrifir y bydd gofyn iddynt ysgwyddo costau un-tro o £2000 yr un er mwyn gosod yr offer.

8.19 Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i sicrhau bod swyddogion yn rhoi cymorth digonol i aelodau nad ydynt yn aelodau o weithrediaeth y cyngor yn cydnabod effaith y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a'u diben yw sicrhau bod cynghorau yn ystyried anghenion cynghorwyr "y meinciau cefn", ac yn darparu ar eu cyfer. Bydd angen ad-drefnu'r gwasanaethau presennol rywfaint o ganlyniad i'r gofynion newydd, er mwyn sefydlu adran newydd Gwasanaethau Democrataidd, a phenodi un o'r swyddogion presennol i swydd newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Ni ddylai hynny olygu y bydd angen rhagor o swyddogion mewn awdurdodau lleol; mae swyddogaethau'r adran newydd arfaethedig yn cael eu harfer eisoes gan gynghorau, ond dylid disgwyl rhywfaint o ad-drefnu mewnol.

8.20 Yn achos y cynghorau hynny lle nad oes digon o ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau cymorth, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o adnoddau, ond penderfyniad i'r cyngor llawn fydd hwnnw. Bydd y cyngor yn cael ei gynghori gan bwyllgor newydd a sefydlir i fonitro gwaith yr adran newydd, fel sy'n ofynnol o dan y Mesur arfaethedig. Rhagwelir mai cost y trefniadau ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd newydd fydd tua £12,500 y flwyddyn i bob awdurdod, o 2012-13 ymlaen. Byddai'r cyfanswm ar draws Cymru tua £270,000. Rhagwelir y bydd y galwadau ychwanegol hyn yn gymesur â maint pob awdurdod lleol ac y bydd modd eu bodloni heb adnoddau ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, a hynny drwy weithio mewn ffyrdd mwy effeithlon.

(*b*) _Trefniadau llywodraethu, trefniadau gweithrediaeth a chyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr (Rhannau 3-5)_

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

8.21 Byddai gwneud dim yn golygu methu â mynd i'r afael ag ystod o faterion sydd wedi dod i'r amlwg ers y diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2000.

8.22 Ymhlith y modelau llywodraethu sydd ar gael i brif gynghorau yng Nghymru er Deddf 2000 y mae un model diangen (maer etholedig a rheolwr

cyngor) a'r model trefniadau amgen problemus (y "Pedwerydd Opsiwn") y bernir nad yw wedi gweithio'n dda oherwydd bod canfyddiad ei fod yn milwrio yn erbyn arweinyddiaeth gydlynol a sefydlog. O ganiatáu i'r model trefniadau amgen barhau, y gost ymarferol fyddai cadw strwythur gwleidyddol y profwyd ei fod yn creu cyrff sy'n llai effeithiol o ran y modd y maent yn gwneud penderfyniadau. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn anhyblyg hefyd gan ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal ymgyngoriadau cyhoeddus os ydynt yn bwriadu newid eu model llywodraethu. Mae ymgyngoriadau o'r fath yn cymryd cryn amser ac yn creu costau, megis amser gweinyddwyr, a ffioedd ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newyddion, sydd, fel rheol, yn costio £500 a mwy yr hysbyseb. Ychydig iawn sy'n debygol o ymateb i ymgyngoriadau o'r fath (deg ymateb ysgrifenedig yn unig mewn achos diweddar yng Nghymru), a hynny, yn ôl pob tebyg, am mai prin yw nifer y trigolion sydd â diddordeb mewn manylion cyfansoddiadol o'r fath.

8.23 Byddai gwneud dim hefyd yn cyfyngu ar allu prif gynghorau i ymateb i'r ffaith bod mwy a mwy o weithio mewn partneriaeth ar draws llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach. Nid yw awdurdodau lleol a'u gweithrediaethau yn cael dirprwyo'r gallu i wneud penderfyniadau i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth sy'n eu cynrychioli ar gyrff eraill, megis Byrddau Gwasanaethau Lleol, etc. Mae hyn yn peri rhwystredigaeth i'r corff partneriaeth, mae'n rhoi baich diangen ar y broses gwneud penderfyniadau sydd gan weithrediaeth yr awdurdod lleol ac yn cyfyngu ar rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl**

8.24 Nid yw cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl yn gynnig ymarferol, am fod y materion yr eir i'r afael â hwy yn y rhan hon o'r Mesur yn cael eu rheoli gan weithdrefnau a bennir mewn deddfwriaeth (neu gan y ffaith nad oes deddfwriaeth sy'n rhoi'r awdurdod i ddirprwyo'r gallu i wneud penderfyniadau). Rydym am ddileu'r ddau fodel. O ystyried maint y newidiadau, ac er mwyn rhoi sicrwydd ac eglurder i'r awdurdodau lleol, rydym am gynnwys y newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur**

8.25 Mae'r cynigion yn cael gwared ar elfennau diangen ac aneffeithiol yr opsiynau presennol.

8.26 Ni fydd unrhyw oblygiadau o ran cost yn deillio o gael gwared ar yr opsiwn sy'n cynnwys maer etholedig a rheolwr cyngor, a hynny am nad oes unrhyw un o awdurdodau lleol Cymru wedi mabwysiadu'r model hwn. Ni fydd cael gwared ar y model trefniadau amgen yn arwain at unrhyw oblygiadau i'r ugain o awdurdodau lleol sydd heb fod yn defnyddio'r model hwnnw. Yn yr achosion hynny lle mae trefniadau amgen yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, bydd newid y trefniadau hynny'n arwain at rai costau, ond bydd y costau hynny'n dibynnu ar ba un o'r modelau newydd y mae'r awdurdodau'n bwriadu ei fabwysiadu (gweler isod). Ni ddylai fod unrhyw oblygiadau o ran cost ar ôl i'r trefniadau gael eu newid, gan nad oes unrhyw reswm pam y dylai'r costau

sy'n gysylltiedig â gweithredu a chefnogi model gwahanol o dan drefniadau gweithrediaeth fod yn wahanol mewn unrhyw ffordd i'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu a chefnogi'r model trefniadau amgen presennol.

8.27 O ran y costau a fyddai'n gysylltiedig â newid y trefniadau, dau awdurdod lleol sy'n gweithredu'r trefniadau amgen ar hyn o bryd (y sefyllfa ar 1 Mehefin 2010). Bydd yn rhaid i'r awdurdodau lunio cynnig er mwyn newid i un o'r opsiynau newydd a fydd ar gael ar gyfer modelau gweithrediaeth. Oni bai eu bod yn bwriadu newid i'r model maer etholedig a chabinet (lle y byddai'n ofynnol cynnal refferendwm – fel ar hyn o bryd), yr unig gost fyddai llunio a chyflwyno'r cynnig gofynnol i Weinidogion Cymru. Byddai'r gost honno mor fach fel y byddai'n cael ei chynnwys yng nghostau rhedeg arferol yr awdurdod lleol.

8.28 Pe bai bwriad i newid i'r model maer etholedig a chabinet, byddai gofyn cynnal refferendwm (fel sy'n ofynnol hefyd o dan y ddeddfwriaeth bresennol) a byddai gofyn i'r awdurdod lleol ysgwyddo'r gost (dyna fyddai'r sefyllfa ar hyn o bryd hefyd pe bai'n fwriad gan awdurdod newid i'r model hwn). Byddai cost y refferendwm yn dibynnu ar nifer yr etholwyr yn yr awdurdod o dan sylw, ond byddai'n amrywio o £80,000 ar gyfer awdurdod bach i £400,000 ar gyfer y mwyaf.

8.29 Mae arbedion posibl o ran cost yn gysylltiedig â'r darpariaethau ar gyfer dileu'r gofyniad i ymgynghori ynghylch cynnig i newid o un model gweithrediaeth i un arall, er mai bach iawn fyddai'r arbedion hynny.

8.30 Mae'r darpariaethau arfaethedig ar gyfer dirprwyo'r gallu i wneud penderfyniadau yn debygol o fod yn niwtral o ran cost. Bydd ychydig bach iawn o gostau gweinyddol (a fydd mor isel fel nad oes modd eu cyfrif) yn gysylltiedig â chyflwyno gweithdrefn ar gyfer dirprwyo'r gallu i wneud penderfyniadau, ond mae'n debyg y gwneir iawn am y costau hynny gan arbedion yr un mor fach a fydd yn deillio o'r ffaith y bydd modd i'r cyrff partneriaeth o dan sylw wneud penderfyniadau'n gynt, heb fod angen iddynt gyfeirio penderfyniadau yn ôl at weithrediaeth cyngor. Bydd y cynnig o fudd hefyd oherwydd y bydd yn rhoi mwy o rôl i aelodau nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth.

*(c) <u>Trosolwg a Chraffu (Rhan 6)</u>*

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

8.31 Nid oes unrhyw gostau amlwg yn gysylltiedig â methu â gweithredu, ond byddai gwneud dim yn cyfyngu ar allu'r awdurdodau lleol a'u partneriaid lleol i fynd i'r afael â phryderon sydd wedi datblygu am y modd y mae'r swyddogaeth graffu wedi'i harfer ers y diwygiadau a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf 2000.

8.32 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chraffu ar ei hôl hi o ystyried y datblygiadau a fu o ran gweithio mewn partneriaeth rhwng cyrff cyhoeddus ac ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn

caniatáu i bwyllgorau craffu edrych ar y modd y mae cyrff cyhoeddus eraill yn eu hardaloedd yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ac nid yw ychwaith yn caniatáu i awdurdodau lleol ffurfio cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae hyn yn golygu nad oes modd craffu'n effeithiol ar wasanaethau nac ar faterion sy'n croesi ffiniau siroedd neu sectorau, a hynny ar adeg pan fo awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd fwyfwy er mwyn cyflenwi gwasanaethau penodol a mynd i'r afael â materion sy'n gyffredin rhyngddynt.

8.33 Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i bwyllgorau craffu gyfethol pobl nad ydynt yn gynghorwyr a rhoi hawliau pleidleisio iddynt, ac felly, mae'n golygu nad oes modd manteisio ar arbenigedd a phrofiad allanol yn ystod y broses graffu, ac eithrio mewn modd gwirfoddol, datgysylltiedig; o'r herwydd, mae pwyllgorau craffu, ar adegau, wedi wynebu trafferthion o ran ennill hygrededd yng ngolwg sectorau eraill.

8.34 Byddai gwneud dim yn golygu y diystyrid gwendidau eraill sydd wedi dod i'r amlwg o ran y modd y mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei harfer: yn benodol felly, y pryder bod chwipio'n cael ei ddefnyddio ar brydiau i reoli penderfyniadau pwyllgorau craffu; yr arfer mewn rhai cynghorau o ddyrannu cadeiryddiaeth yr holl bwyllgorau craffu i aelodau o'r grŵp(grwpiau) gwleidyddol sy'n rheoli; a methiant rhai o'r pwyllgorau i gyhoeddi blaen-gynlluniau. Mae'r ffaith bod amgylchiadau o'r fath yn bodoli (er nad ydynt yn gyffredin) yn gallu tanseilio'r broses graffu a'r hyder sydd gan y cyhoedd ynddi.

8.35 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn gyfyngol hefyd am nad yw'n galluogi'r cyhoedd i roi eu barn i bwyllgorau craffu, a chan nad yw ychwaith yn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor roi materion ar agendâu pwyllgorau craffu. Mae hyn yn golygu nad oes gan bobl leol ffordd amlwg o gyfrannu o'u profiad i broses y bwriedir iddi wella ansawdd y gwasanaethau a gyflenwir ar eu cyfer.

8.36 O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid yw'n ofynnol i gynghorau sefydlu pwyllgorau archwilio er gwaethaf y manteision (a'r arbedion posibl) a allai ddeillio o bwyllgorau o'r fath o ran monitro materion ariannol awdurdod. Mae nifer o gynghorau yng Nghymru wedi cydymffurfio â chyngor y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (a gyhoeddwyd yn 2005) ac wedi sefydlu pwyllgorau archwilio, ond nid dyna'r sefyllfa ym mhob cyngor. Mae methu â sefydlu pwyllgorau archwilio effeithiol yn gallu arwain at gostau posibl, a hynny am mai rôl ganolog pwyllgorau archwilio fydd sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'u hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

### Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl

8.37 Nid yw trefniadau gwirfoddol, canllawiau a lledaenu arferion da yn ddigon ynddynt eu hunain i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er mwyn craffu'n effeithiol, mae angen cymorth deddfwriaeth er mwyn rhoi dannedd i bwyllgorau, yn enwedig o ran y gallu i alw tystion ac i ofyn am wybodaeth.

8.38 Mae canllawiau'n bod eisoes sy'n argymell y dylid sefydlu pwyllgorau archwilio, sy'n annog yn erbyn chwipio, sy'n argymell y dylid dyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu yn unol â chydbwysedd gwleidyddol, a chyhoeddi blaen-gynlluniau pwyllgorau. Er bod llawer o awdurdodau'n cydymffurfio â'r canllawiau, nid dyna'r sefyllfa mewn eraill, ac mae hynny'n niweidiol i'r swyddogaeth graffu ac i fuddiannau pobl leol.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur**

8.39 Amcanion y newidiadau arfaethedig yw cryfhau'r modd y creffir ar wasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd lleol, sicrhau bod y broses yn un annibynnol, a bod eraill yn ei gweld felly. At hynny, dylai'r gwelliannau arfaethedig i'r broses graffu a gynigir gan y Mesur arwain at sefyllfa lle caiff gwasanaethau lleol eu hadolygu mewn modd mwy effeithiol, a dylai hynny, yn ei dro, olygu y bydd modd nodi arbedion posibl.

*Costau a manteision*

8.40 Bydd estyn y swyddogaeth graffu i gynnwys cydweithio, yn ogystal â'i estyn i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, yn golygu y bydd yn fwy perthnasol; bydd ansawdd y craffu hwnnw'n cael ei wella drwy ganiatáu i aelodau cyfetholedig bleidleisio, gan greu ffyrdd i'r cyhoedd ac i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor gael cyfrannu. Bydd yn cael ei wella hefyd drwy gyhoeddi blaen-gynlluniau. Bydd darpariaethau i ddyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu yn unol â chydbwysedd gwleidyddol, ac i wahardd chwipio, yn fodd i fynd i'r afael â'r broblem o ddylanwadu'n ormodol ar gynghorwyr.

8.41 Mae'r goblygiadau o ran costau sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau yn y Rhan hon yn dibynnu ar y graddau y mae awdurdodau lleol unigol wedi cydymffurfio â'r canllawiau eisoes, ac yn dibynnu hefyd a fyddant yn manteisio ai peidio ar y cyfle sy'n cael ei gynnig gan bwerau, sydd, at ei gilydd, yn bwerau galluogi. Mae'r costau a nodir isod yn seiliedig ar faint fyddai'n ei gostio i gyflwyno pob gofyniad newydd yn llawn o dan yr amgylchiadau hynny lle nad oes unrhyw ddarpariaeth o gwbl ar hyn o bryd. Bydd y costau'n llai os oes peth darpariaeth eisoes, ac ni fydd unrhyw gostau o gwbl os yw safon y ddarpariaeth yn foddhaol eisoes (er enghraifft, os oes gan awdurdod bwyllgor eisoes sy'n ymgymryd â'r holl swyddogaethau y bydd disgwyl i bwyllgor archwilio eu cyflawni).

8.42 Byddai'r pŵer i sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu yn bŵer galluogi, felly ni fydd unrhyw orfodaeth ar awdurdodau lleol i sefydlu cyd-bwyllgor o'r fath. Byddai gwneud hynny, a chynnal y cyd-bwyllgor wedyn, yn costio oddeutu £5,000 y flwyddyn, a'r gost honno'n cael ei rhannu rhwng yr awdurdodau cyfansoddol.

8.43 Amcangyfrifir hefyd y byddai sefydlu pwyllgor archwilio newydd (yn yr awdurdodau hynny lle nad oes un yn bodoli eisoes), a gwasanaethu'r pwyllgor

hwnnw, yn costio £5,000 i bob awdurdod yn ystod y flwyddyn gyntaf (o 2012-13 ymlaen). Byddai’r costau blynyddol wedi hynny ychydig yn llai na’r costau yn ystod y flwyddyn gyntaf, a hynny am na fyddai unrhyw gostau sefydlu erbyn hynny. Nid oes unrhyw orfodaeth yn y darpariaethau i awdurdodau dalu lwfans i aelodau cyfetholedig; mater i’r awdurdod unigol benderfynu arno, yn ôl ei ddisgresiwn, fyddai hwnnw.

8.44 Nid yw galluogi pwyllgorau craffu i roi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig yn golygu, ynddo’i hun, y bydd unrhyw gostau ychwanegol; mae’r ddeddfwriaeth bresennol eisoes yn caniatáu aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau craffu. Nid oes unrhyw orfodaeth i dalu lwfans i aelodau cyfetholedig.

8.45 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran costau yn gysylltiedig â’r darpariaethau sy’n ymwneud â dyrannu cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu ac â gwahardd chwipio; nid oes unrhyw oblygiadau o’r fath ychwaith yn gysylltiedig â’r darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyhoeddi eu cynlluniau gwaith, gan fod gan bob un o’r prif gynghorau wefannau sy’n cael eu defnyddio eisoes i hysbysu am ddyddiadau cyfarfodydd ac am fanylion busnes y cyngor a’i bwyllgorau.

8.46 Byddai’r darpariaethau i wella ymgysylltiad rhwng pwyllgorau craffu a’r cyhoedd a chynghorwyr nad ydynt yn aelodau o’r pwyllgorau hynny yn arwain at gostau sefydlu isel na fyddent yn fwy na £3,000 ar gyfer pob un o’r prif gynghorau, a hynny er mwyn caniatáu i’r cyhoedd gyflwyno safbwyntiau a gwybodaeth yn electronig i wefan pwyllgor craffu. Ni fernir bod angen unrhyw strwythurau na chyfleusterau newydd er mwyn galluogi cynghorwyr i roi materion sy’n destun pryder iddynt ar agendâu pwyllgorau craffu.

8.47 O ran y darpariaethau a fydd yn caniatáu i bwyllgorau craffu graffu ar wasanaethau a gyflenwir gan y sector cyhoeddus ehangach, bydd y darpariaethau hynny’n golygu y bydd rhai goblygiadau o ran costau i’r cyrff cyhoeddus o dan sylw. Byddai’r costau hynny’n deillio o’r rheidrwydd a fyddai arnynt i ddarparu’r wybodaeth y byddai’r pwyllgor craffu yn gofyn amdani ac o’r ffaith y byddai’n rhaid i’w personél ymddangos gerbron pwyllgor. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm y costau a fyddai’n deillio o ddyletswyddau o’r fath rhwng £10,000 a £30,000 y flwyddyn ledled Cymru (hy cyfanswm y costau a fyddai ar yr holl gyrff cyhoeddus a fyddai’n ymddangos gerbron pwyllgorau craffu ledled Cymru gyfan mewn unrhyw flwyddyn). Bernir y byddai’r gost ar gyrff cyhoeddus unigol mor isel fel na fyddai angen cyllid ychwanegol.

*(d) Cymunedau a chynghorau cymuned (Rhan 7)*

**Opsiwn 1: Gwneud Dim**

8.48 Ni fyddai unrhyw gostau amlwg yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn, ond byddai’n golygu y byddai llawer o’r amgylchiadau a nodwyd yn Adroddiad Aberystwyth yn 2003, ac yr ystyriwyd eu bod yn niweidiol i lywodraethu da ar y lefel leol, yn parhau. Ni fyddai rôl cynghorau cymuned yn cael ei datblygu

na'i chryfhau; a byddent yn cael eu llesteirio rhag cyflenwi ystod ehangach o wasanaethau a rhag gweithredu'n ehangach yn lleol.

8.49 O gadw'r trefniadau presennol, byddai cynghorau cymuned yn parhau i fod o dan fygythiad posibl o ganlyniad i ymgyrchoedd i'w diddymu gan grwpiau trefnus o drigolion lleol. Ond ar y llaw arall, ystyrir bod y trothwyon presennol ar gyfer sefydlu cyngor cymuned lle nad oes un eisoes yn bodoli yn rhy uchel o lawer, ac yn rhwystr i sefydlu cynghorau yn yr ardaloedd hynny. Nid oes unrhyw gynghorau cymuned newydd wedi'u sefydlu yn ystod y pum mlynedd diwethaf, sy'n golygu nad oes gan oddeutu 115 o ardaloedd cymunedol gynghorau o'r fath.

8.50 Mae'r trothwyon ar gyfer cynnal cyfarfod cymunedol ac ysgogi pleidleisiau cymunedol yn gymharol isel. O ganlyniad, gallai grŵp anghynrychioliadol, sydd wedi'i drefnu'n dda, o bobl leol ysgogi pleidlais ar fater nad yw, o bosibl, o fawr o ddiddordeb yn gyffredinol – gyda'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chynnal pleidlais. Pan fo pleidlais wedi'i chynnal a'r cynnig wedi'i gymeradwyo, nid yw'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth bresennol i brif gyngor ymateb mewn unrhyw ffordd i'r bleidlais, hyd yn oed os y cyngor ei hun sy'n gyfrifol am y mater a oedd yn destun y bleidlais.

8.51 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn cadw cofnodion o'r niferoedd sy'n cael eu cyfethol i'r 735 o gynghorau cymuned sydd yng Nghymru, ond tynnwyd sylw yn Adroddiad Aberystwyth at y canfyddiad bod cynghorau cymuned yn "siopau caeëdig", a bod hyn yn gallu arwain at amheuon a all danseilio'r enw da sydd gan gyngor yn lleol. Byddai gwneud dim yn golygu y byddai'n bosibl o hyd i rai cynghorau cymuned beidio ag ymdrechu i ddod o hyd i ymgeiswyr ar gyfer is-etholiad ac i ddefnyddio gweithdrefnau cyfethol yn lle hynny er mwyn recriwtio aelodau newydd i'r cyngor sy'n gyfeillion i'r cynghorwyr presennol neu o'r un cefndir a rhwydweithiau cymdeithasol cyfyngedig â hwy. Ni fyddai angen i gynghorau cymuned deimlo bod unrhyw rwymedigaeth arnynt i ehangu cyfranogiad nac i ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, megis pobl ifanc.

8.52 Byddai gwneud dim yn golygu y byddai'r diffyg canfyddedig o ran y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth bresennol, sy'n caniatáu i brif gynghorau osgoi'r ddyletswydd sydd arnynt i adolygu ardaloedd eu cymunedau, yn parhau. Mae wyth cyngor yng Nghymru wedi ceisio cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gynnal eu hadolygiadau cymunedol. Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r cyfrifoldeb dros gynnal adolygiadau ar y prif gynghorau, ond nid yw'n cynnwys amserlenni ar gyfer cynnal yr adolygiadau. Pan nad yw cynghorau'n cynnal adolygiadau, mae'n rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ymyrryd, ond dim ond os yw Gweinidogion Cymru wedi'i gyfarwyddo i wneud hynny. O dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ysgwyddo cost yr adolygiadau (a chost pob adolygiad yn amrywio o £8,000 i £25,000 – gweler Opsiwn 3 isod), gan nad oes unrhyw bŵer i godi tâl ar y prif gyngor o dan sylw.

8.53 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y dylid parhau i ddatblygu siarteri ar sail wirfoddol rhwng y prif gynghorau a'r cynghorau cymuned. Fodd bynnag,

nid oes unrhyw bŵer ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth y Cynulliad ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sy'n gyndyn o wneud hynny ddod ynghyd i fynd i'r afael a'r materion sy'n eu hwynebu a chytuno ar siarter er budd eu hardaloedd.

8.54 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen y cynllun achredu cenedlaethol arfaethedig er mwyn rhoi sicrwydd i brif gynghorau ac i etholwyr ynghylch gallu cynghorau cymuned, yng nghyd-destun cynllunio cymunedol a dirprwyo gwasanaethau fel ei gilydd.

8.55 Byddai peidio ag estyn y pŵer llesiant i gynghorau cymuned yn amharu ar allu cynghorau cymuned i ymateb i nod Llywodraeth y Cynulliad o gryfhau rôl cynghorau cymuned, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau ac i weithredu'n ehangach yn lleol. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol, sy'n atal Llywodraeth y Cynulliad rhag rhoi arian grant yn uniongyrchol i gynghorau cymuned at unrhyw ddiben, yn gyfyngiad arall arnynt.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl**

8.56 Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r pwerau presennol sydd ar gael i Weinidogion Cymru, neu i ddefnyddio canllawiau neu i ledaenu arferion da er mwyn mynd i'r afael â'r materion y nodwyd bod angen gweithredu arnynt ac yr ymdrinnir â hwy yn y Rhan hon o'r Mesur arfaethedig.

8.57 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer diddymu a sefydlu cyngor cymuned wedi'u pennu mewn deddfwriaeth (Deddf 1972), ac felly hefyd y trothwyon ar gyfer cynnal cyfarfodydd cymunedol a phleidleisiau cymunedol. Yr unig ffordd o gyflawni'r amcanion polisi (ei gwneud yn anos i ddiddymu cynghorau cymuned; yn haws i'w sefydlu) yw drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol.

8.58 Mae hyn yn wir hefyd yn achos nifer o'r amcanion polisi eraill yr ymdrinnir â hwy yn y Rhan hon. Dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir mynd i'r afael â'r diffyg darpariaeth sydd yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd mewn perthynas ag adolygiadau cymunedol a'r Comisiwn Ffiniau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog cynghorau cymuned i fod yn fwy effeithiol yn eu rôl gynrychioli ac wrth weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Mae diffyg eglurder o ran hyd a lled pwerau cynghorau cymuned, a'r ffaith nad ydynt yn gallu cael arian grant uniongyrchol at ddibenion penodol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad, yn golygu ei bod yn anos gwireddu'r dyhead hwn.

8.59 Gellid darparu canllawiau i gynghorau cymuned ar hysbysebu swyddi gwag i'w llenwi drwy gyfethol ac ar ymgysylltu â phobl ifanc yn eu hardaloedd, ond ni fyddai unrhyw reidrwydd arnynt i ddilyn canllawiau o'r fath ac nid yw'n debygol y byddai canllawiau, ynddynt eu hunain, yn ddigon i symbylu newidiadau mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig.

8.60 Mae Llywodraeth y Cynulliad o’r farn y dylid datblygu siarteri’n wirfoddol yn y lle cyntaf. Dymuna Gweinidogion Cymru gael pŵer wrth gefn i’w gwneud yn ofynnol i fabwysiadu siarteri o dan y math o amgylchiadau a ddisgrifir uchod ym mharagraff 8.53, ond maent yn gobeithio (ar sail y dystiolaeth am y cydlafurio a fu hyd yma) na fydd angen arfer y pŵer hwnnw.

8.61 Nid yw Gweinidogion Cymru yn rhagweld y byddai’r cynllun achredu cenedlaethol arfaethedig yn orfodol, ond maent yn credu bod angen pŵer wrth gefn i’w galluogi i roi cefnogaeth statudol i’r cynllun os gwelir y byddai hynny’n fuddiol.

## Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad

8.62 Bydd y Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu hamcanion polisi mewn perthynas â chynghorau cymuned.

8.63 O’u gweithredu gyda’i gilydd, bydd y darpariaethau yn y Rhan hon o’r Mesur arfaethedig yn datblygu ac yn cryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau a chamau gweithredu yn lleol, yn ogystal â bod yn fwy effeithiol o ran eu rôl gynrychioli ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill.

*Costau a manteision*

8.64 Bwriad y newidiadau i’r rheolau ar gyfer cyfarfodydd cymunedol, pleidleisiau cymunedol, a diddymu a sefydlu cynghorau cymuned yw sicrhau bod safbwyntiau lleol yn cael eu mynegi mewn ffordd mor gynrychioliadol â phosibl. Mae’r newidiadau arfaethedig yn diwygio’r amryfal drothwyon y mae eu hangen er mwyn ysgogi camau dilynol penodol. Mae’r prosesau ar gyfer diddymu a sefydlu cynghorau cymuned yn eu lle eisoes, ac felly hefyd y gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd cymunedol a phleidleisiau cymunedol, a bydd y rhain, i bob pwrpas, yn aros yr un fath. Ni fydd unrhyw gostau newydd na chostau ychwanegol yn deillio o’r newidiadau hyn.

8.65 Gallai pennu trothwyon is ar gyfer sefydlu cynghorau cymuned annog mwy o ymgyrchoedd i’w sefydlu yn yr ardaloedd hynny lle nad ydynt eisoes yn bodoli, ond byddai cost sefydlu a chynnal cyngor cymuned yn fater allweddol i bobl leol ei ystyried, gan mai hwy fyddai’n ysgwyddo’r gost drwy’r praesept lleol. Nid oes unrhyw oblygiadau o ran cost o bennu trothwy uwch ar gyfer diddymu cyngor cymuned.

8.66 Mae’r newidiadau i’r rheolau ar gyfer cyfarfodydd cymunedol ac ar gyfer ysgogi pleidleisiau cymunedol yn golygu, yn ôl pob tebyg, y bydd cyfarfodydd a phleidleisiau o’r fath yn llai tebygol o gael eu cynnal. Ond gan fod cyfarfodydd a phleidleisiau o’r fath yn bethau cymharol brin, ychydig iawn o arbedion a wneir o ran costau (llogi mannau cyfarfod, cost hysbysiadau). Nid oes unrhyw gostau anorfod yn gysylltiedig â’r ddyletswydd a roddir ar brif gyngor i ymateb i bleidlais gymunedol. Ymateb i’r bleidlais yw’r unig beth sy’n

ofynnol o dan y ddyletswydd, yn y lle cyntaf, a hynny dim ond os y prif gyngor sy’n gyfrifol am y mater dan sylw.

8.67 Bydd y darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i hysbysebu swyddi gwag i’w llenwi drwy gyfethol yn arwain at gostau ychwanegol posibl i gynghorau cymuned, gan y bydd yn ofynnol iddynt roi hysbysiad cyhoeddus am y swyddi gwag a gwahodd datganiadau o ddiddordeb. Byddai pob hysbysiad yn costio tua £5.

8.68 Os yw prif gyngor wedi bod yn arfer y ddyletswydd sydd arno ar hyn o bryd ac wedi bod yn cynnal yr adolygiad cymunedol yn rheolaidd, ni fydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â’r darpariaethau sy’n ymwneud ag adolygiadau cymunedol ac â’r Comisiwn Ffiniau. O dan yr amgylchiadau hyn, mae’r cyngor eisoes yn ysgwyddo’r costau (ac mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hyn yn y setliad refeniw y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddarparu ar gyfer llywodraeth leol). Os yw cyngor wedi bod yn osgoi’r ddyletswydd gyfreithiol sydd arno, ac wedi bod yn dibynnu ar y Comisiwn Ffiniau i gynnal yr adolygiad, byddai gwneud hynny yn y dyfodol yn golygu y bydd yn rhaid i’r cyngor ad-dalu costau’r Comisiwn Ffiniau. Mae adolygiad yn costio rhwng oddeutu £8,000 a £25,000, gan ddibynnu ar faint yr awdurdod, nifer y cymunedau, a pha mor gymhleth yw’r materion sydd o dan sylw. Byddai’r Comisiwn Ffiniau yn gwneud arbedion cyfatebol gan y byddai modd ei ad-dalu am unrhyw gostau y byddai wedi’u hysgwyddo.

8.69 Ni fydd unrhyw gostau’n deillio o’r pwerau “wrth gefn” sy’n gysylltiedig â siarteri a’r cynllun achredu cenedlaethol. Ychydig iawn o gostau gweinyddol sy’n gysylltiedig â datblygu siarteri ar hyn o bryd, a hynny am eu bod, at ei gilydd, yn cael eu datblygu fel rhan o’r cysylltiadau rheolaidd rhwng prif gyngor a’i gynghorau cymuned  Mae’n ddigon posibl na fydd angen arfer y pwerau “wrth gefn” os bydd cynghorau yn parhau â’r tueddiadau calonogol a welwyd eisoes o ran gweithio gyda’i gilydd, ac os bydd Llywodraeth y Cynulliad a’i phartneriaid yn llwyddo i ddatblygu cynllun achredu gwirfoddol. Os bernir bod angen defnyddio’r naill neu’r llall o’r pwerau “wrth gefn”, byddai’r costau yn cael eu hasesu yng ngoleuni’r amgylchiadau ar y pryd.

8.70 Ni ragwelir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn sgil y darpariaethau ar gyfer penodi cynrychiolwyr ieuenctid, estyn y pŵer llesiant neu ganiatáu ar gyfer rhoi arian grant yn uniongyrchol i gynghorau cymuned. Pwerau galluogi yw’r rhain ac nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â’r pwerau eu hunain. Mater i’r cynghorau cymuned eu hunain fydd pwyso a mesur a fyddai unrhyw oblygiadau o ran cost pe byddent yn penderfynu penodi cynrychiolwyr ieuenctid neu ddefnyddio’r pŵer llesiant. Byddai angen i Lywodraeth y Cynulliad asesu’r goblygiadau o ran cost pe bai’n ystyried cynigion i roi arian grant yn uniongyrchol at ddibenion penodol.

*(e) <u>Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau Cynghorwyr) (Rhan 8)</u>*

**Opsiwn 1 – Gwneud Dim**

8.71 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu parhau â'r strwythur presennol ar gyfer penderfynu ar y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i gynghorwyr. Mae'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â chefnogi'r Panel Annibynnol, gyda'r cylch gwaith cyfyngedig sydd ganddo ar hyn o bryd, yn £30,000 y flwyddyn, ac mae'r arian hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y Cynulliad (gweler Opsiwn 3 isod).

8.72 Byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei rannu o hyd rhwng y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Gweinidogion Cymru a'r cynghorau eu hunain. Mae rhannu'r cyfrifoldeb fel hyn yn rhwystr i ddatblygu polisïau cyson a chytbwys ar yr ystod o faterion sy'n wynebu'r holl fathau gwahanol o awdurdodau yr effeithir arnynt. Nid yw bob amser yn glir pwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau, ac mae'n rhaid i'r cynghorau bleidleisio'n flynyddol ar eu cynlluniau lwfansau, sy'n fater y byddai'n well gan y mwyafrif helaeth ohonynt beidio â bod yn gyfrifol amdano.

8.73 Mae'r system gydnabyddiaeth ariannol bresennol ar gyfer cynghorwyr, sy'n cynnwys lwfansau o wahanol fathau, yn ogystal â phensiynau a thaliadau eraill, ar ei hôl hi o ystyried y datblygiadau lu a welwyd ym maes llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o ran y dyletswyddau arwain, llywodraethu, craffu a rheoleiddio y mae rheidrwydd ar gynghorwyr i'w hysgwyddo.

8.74 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen adolygu'r system gydnabyddiaeth ariannol yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn cael cydnabyddiaeth briodol am y cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyddo.

8.75 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai'n briodol i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ysgwyddo'r cyfrifoldebau hyn. Mae awdurdodau lleol, CLlLC a'r Panel Annibynnol ei hun, hefyd wedi mynegi'r farn honno, ond mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn cyfyngu ar yr hyn y gall y Panel Annibynnol ei wneud.

### Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl

8.76 Opsiwn posibl arall fyddai galluogi'r Panel Annibynnol, drwy gyfrwng rheoliadau a fyddai'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, i wneud argymhellion i gynghorau ynghylch lwfansau penodol a rhoi'r cyfrifoldeb dros bennu lwfansau eraill i Weinidogion Cymru. At hynny, gallai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n gwneud darpariaeth i gynghorau sefydlu a chynnal panel y byddai ganddo swyddogaethau wedi'u pennu yn y rheoliadau mewn perthynas â lwfansau a phensiynau. Byddai trefniadau o'r fath yn dwysáu'r effaith y mae rhannu'r cyfrifoldeb dros y system gydnabyddiaeth ariannol yn ei chael, ac yn rhwystr pellach i ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau mewn modd cyson a chytbwys ar draws yr ystod o faterion sy'n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol.

### Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur

8.77 Byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei freinio mewn un corff sydd eisoes yn bodoli, y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sydd wedi meithrin arbenigedd a phrofiad yn y materion perthnasol. Mae'r Panel Annibynnol yn annibynnol ar Weinidogion Cymru a llywodraeth leol, a byddai estyn ei gylch gwaith yn caniatáu i benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol gael eu gwneud mewn modd gwrthrychol ar sail gwybodaeth. Byddai un corff yn gallu ystyried yr holl faterion mewn modd cyson a, phe bai'n dymuno gwneud hynny, yn gallu cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r system gydnabyddiaeth ariannol ar draws llywodraeth leol yng Nghymru.

8.78 Byddai'n briodol hefyd estyn cyfrifoldeb y Panel Annibynnol i gynnwys pennu lwfansau etc ar gyfer aelodau cynghorau cymuned, aelodau awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac aelodau awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau hyn wedi mynegi'u dymuniad i weld pwerau'r Panel Annibynnol yn cael eu hestyn i gynnwys eu meysydd hwy.

*Costau a manteision*

8.79 Ni fyddai'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur arfaethedig yn arwain, ynddynt eu hunain, at unrhyw gynnydd yn y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i gynghorwyr. Ar hyn o bryd, tua 0.5% o gyllideb prif gyngor sy'n cael ei wario ar y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i gynghorwyr. Nid oes unrhyw reswm pam y dylai'r gyfran honno amrywio yn sgil y newidiadau arfaethedig. Mae'r Mesur arfaethedig yn cyflwyno gofyniad newydd ar y Panel Annibynnol sy'n golygu y bydd yn rhaid iddo, wrth wneud ei benderfyniadau, ystyried goblygiadau ariannol y penderfyniadau hynny i'r cyngor o dan sylw. Mae'r newidiadau hefyd yn symleiddio'r broses ar gyfer penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol ac yn ei gwneud yn fwy tryloyw.

8.80 Mae'r Panel Annibynnol yn bodoli eisoes, felly ni fydd unrhyw gostau newydd yn gysylltiedig â'i sefydlu; gallai costau gweinyddol y Panel Annibynnol gynyddu yn unol â'i gylch gwaith estynedig. Mae ei gyllideb ar hyn o bryd yn £30,000 y flwyddyn (sy'n cael ei darparu o gyllideb Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad). Efallai y bydd yn rhaid i'r costau hynny gynyddu i swm o oddeutu tua £50,000 y flwyddyn, i'w ddarparu o'r un gyllideb ag ar hyn o bryd. Ni ragwelir unrhyw gostau eraill o ganlyniad i'r darpariaethau yn y rhan hon o'r Mesur arfaethedig.

*(f) Cydlafurio a Chyfuno*

*i. Cydlafurio (Pennod 1 o Ran 9)*

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

8.81 O wneud dim, byddai'r anghysondeb ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") yn parhau.

8.82 Fodd bynnag, ni fyddai gwneud dim yn golygu y byddai unrhyw gostau'n cael eu harbed. Yr unig gostau uniongyrchol yn hyn o beth yw'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a chyhoeddi canllawiau, ac nid yw statws statudol na chynnwys y canllawiau hynny yn newid y costau hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori eisoes ar ganllawiau drafft, gan gynnwys pennod ar gydlafurio, nad yw'n statudol ar hyn o bryd, a bydd yn eu cyhoeddi yn y man.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl**

8.83 Nid yw'r opsiwn hwn yn berthnasol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am fwrw ati yn hyn o beth drwy gyhoeddi canllawiau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw ei phwerau presennol yn caniatáu iddi wneud hynny'n effeithiol. Diben yr adran hon yw unioni'r sefyllfa honno.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno Mesur Cynulliad**

8.84 Bydd y Mesur arfaethedig yn cywiro anghysondeb ym Mesur 2009 ac yn caniatáu i Weinidogion gyhoeddi canllawiau statudol cynhwysfawr ar bob agwedd ar bwerau a dyletswyddau'r awdurdodau o dan y Mesur hwnnw.

*Costau a manteision*

8.85 Nid oes i'r ddarpariaeth hon unrhyw oblygiadau o ran cost. Er gwaethaf hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi canllawiau ar Fesur 2009, ac ysgwyddo'r costau cysylltiedig. Nid yw'r ffaith bod statws statudol i ran o'r canllawiau hynny yn newid y costau mewn unrhyw ffordd.

8.86 Ni fyddai'r darpariaethau hyn ychwaith yn golygu y byddai'n rhaid i awdurdodau ysgwyddo unrhyw gostau sylweddol. Ni all canllawiau statudol orfodi unrhyw un i wneud unrhyw beth: yr unig ddyletswydd a fyddai ar unrhyw un fyddai 'eu hystyried. At hynny, mynd i'r afael â phwerau i gydlafurio a roddir i awdurdodau ym Mesur 2009 y byddai'r canllawiau yn bennaf, pan fyddai hynny'n hwyluso gwelliannau. Er ei bod yn ofynnol i awdurdodau ystyried o bryd i'w gilydd a ddylid arfer y pŵer hwnnw ai peidio, mater i bob awdurdod, yn ôl ei ddisgresiwn, yw penderfynu pryd a sut i wneud hynny.

8.87 Yn aml, mae awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn cydlafurio er mwyn sicrhau arbedion o ran cost neu effeithlonrwydd, megis drwy rannu gwasanaethau cymorth, sicrhau arbedion maint neu wella'u gallu i wario. Mae'n eithaf tebygol y byddant yn defnyddio'r pwerau a roddir iddynt ym Mesur 2009 i'r perwyl hwnnw: mae effeithlonrwydd yn agwedd ar wella sy'n cael ei nodi'n benodol yn adrannau 2-4 o'r Mesur hwnnw. Yn y dyfodol, byddai trefniadau cydlafurio o'r fath yn cael eu llywio a'u cefnogi gan ganllawiau statudol. Fodd bynnag, byddai maint unrhyw arbedion yn dibynnu'n llwyr ar fanylion prosiectau cydlafurio lleol, ac ar eu llwyddiant, yn hytrach nag ar statws cyfreithiol y canllawiau.

*ii. Cyfuno (Pennod 2 o Ran 9) – gweler yr adendwm i'r Memorandwm hwn yn Atodiad C*

**Tabl o gostau posibl a allai ddeillio o'r Mesur arfaethedig**

8.88 Mae nifer o'r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig yn niwtral o ran cost. Os nodwyd y bydd unrhyw gostau, costau cydymffurfio a chostau gweinyddol i'r awdurdodau lleol fydd y rheini. Yn achos prif gynghorau, bernir mai bach iawn fydd y costau posibl a fydd yn gysylltiedig â chydymffurfio. Mae'r Mesur yn gosod dyletswyddau sydd, yn aml, yn arferion da sydd wedi ennill eu plwyf eisoes mewn rhai o'r awdurdodau (ond nid ym mhob un ohonynt). Os bydd unrhyw gostau newydd, byddant yn gyfuniad o gostau un-tro a chostau gweinyddol rheolaidd. Mae'r costau a nodir isod yn seiliedig ar faint fyddai'n ei gostio i gyflwyno pob gofyniad newydd yn llawn o dan yr amgylchiadau hynny lle nad oes unrhyw ddarpariaeth o gwbl ar hyn o bryd. Bydd y costau'n llai os oes peth darpariaeth eisoes, ac ni fydd unrhyw gostau o gwbl os yw safon y ddarpariaeth yn foddhaol eisoes. Rhagwelir y bydd y galwadau ychwanegol hyn yn gymesur â maint y sefydliad. Disgwylir hefyd y bydd modd eu bodloni drwy ddulliau mwy effeithlon o weithio ac y dylent sicrhau arbedion yn y tymor hwy drwy drefniadau llywodraethu gwell a chraffu mwy effeithiol.

***Tabl 2 – Costau posibl a allai ddeillio o'r Mesur arfaethedig***

| ***Polisi*** *(y Rhan berthnasol o'r Mesur)* | ***Goblygiadau*** | ***Cost Bosibl*** | ***Sylw** (os yn briodol)* |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Dileu'r trefniadau amgen ("y pedwerydd opsiwn")<br><br>(Trefniadau Llywodraethu sydd ar gael) | Os yw awdurdod am newid i fodel maer etholedig / cabinet – byddai'n ofynnol cynnal refferendwm | (Os bydd angen refferendwm) £80,000 - £400,000, gan ddibynnu ar faint yr awdurdod. Yr awdurdod i fod yn gyfrifol am y gost – fel ar hyn o bryd | Yn effeithio ar ddau awdurdod yn unig sy'n gweithredu trefniadau amgen ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw gost os newidir i'r model gweithrediaeth arweinydd a chabinet |
| | | | |
| Sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu<br><br>(trosolwg a chraffu) | Yn rhoi'r grym i awdurdodau lleol – nid yw'n gosod unrhyw reidrwydd arnynt | £5,000 y cyd-bwyllgor (costau sefydlu a chostau rhedeg yn ystod y flwyddyn gyntaf)<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Costau i'w rhannu rhwng awdurdodau |
| | | | |
| Sefydlu pwyllgor archwilio<br><br>(trosolwg a chraffu) | | £5,000 y pwyllgor (costau sefydlu a chostau rhedeg yn ystod y flwyddyn gyntaf)<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Efallai ei fod yn bodoli'n anffurfiol eisoes – os felly, bydd y costau sefydlu'n is |
| | | | |
| Ystyried safbwyntiau'r cyhoedd<br><br>(trosolwg a chraffu) | | £3,000 yr awdurdod<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Costau sefydlu |
| | | | |
| Craffu ar y sector cyhoeddus ehangach | | Cyfanswm o hyd at £30,000 y flwyddyn ar draws | Cyfanswm y gost flynyddol ar draws holl gyrff y sector |

| | | | |
|---|---|---|---|
| (trosolwg a chraffu) | | holl gyrff y sector cyhoeddus<br><br>Cyrff cyhoeddus i fod yn gyfrifol am y costau | cyhoeddus |
| | | | |
| Arolwg o ymgeiswyr a chynghorwyr<br><br>(atgyfnerthu democratiaeth leol) | | £35,000 ar gyfer arolwg ledled Cymru (£1,750 yr awdurdod)<br><br>Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn gyfrifol am y costau | I’w gynnal bob pedair blynedd |
| | | | |
| Asesu’r arolwg<br><br>(atgyfnerthu democratiaeth leol) | | £2,500 - Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru i fod yn gyfrifol am y costau | |
| | | | |
| Hyfforddi a datblygu<br><br>(atgyfnerthu democratiaeth leol) | Yn cael ei wneud eisoes mewn awdurdodau lleol | Defnyddio arian ysgogi o bosibl – £5,000 yr awdurdod – i adolygu’r ddarpariaeth bresennol<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Yn dibynnu ar lefel yr hyfforddiant a ddarperir ar hyn o bryd – bydd y costau’n is os yw’r ddarpariaeth yn dda eisoes |
| | | | |
| Adroddiadau blynyddol ar gyfer cynghorwyr<br><br>(atgyfnerthu democratiaeth leol) | Yn cael eu paratoi eisoes mewn rhai awdurdodau lleol | Costau sefydlu – £2,500 yr awdurdod<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Lle nad ydynt yn cael eu cynnal eisoes |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mynychu o bell<br><br><br>(atgyfnerthu democratiaeth leol) | Mae'n bosibl bod offer priodol ar gael eisoes ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol a chyfarfodydd rhwng swyddogion | £2,000 yr awdurdod (sefydlu)<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Lle nad oes cyfleusterau ar gael eisoes |
| | | | |
| Gwasanaethau Democrataidd<br><br>(atgyfnerthu democratiaeth leol) | | £12,500 y flwyddyn i bob awdurdod<br><br>Awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | |
| | | | |
| Costau rhedeg y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol<br><br>(taliadau a phensiynau aelodau) | Cylch gwaith estynedig y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol | £50,000 y flwyddyn<br><br>Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad i fod yn gyfrifol am y costau. | Ar hyn o bryd, £30,000 yw costau rhedeg blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| | | | |
| Hysbysebu swyddi gwag i'w llenwi drwy gyfethol<br><br>(cynghorau cymuned) | Pŵer galluogi yn hytrach na dyletswydd | O £5 yr hysbysiad<br><br>Cynghorau cymuned i fod yn gyfrifol am y costau | |
| | | | |
| Cost cynnal adolygiad cymunedol<br><br><br>(cynghorau cymuned) | | £8,000 - £25,000, gan ddibynnu ar faint yr awdurdod<br><br>Yr awdurdodau i fod yn gyfrifol am y costau | Ar hyn o bryd, yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol; mae rhai wedi'i osgoi a throsglwyddo'r gost i'r Comisiwn Ffiniau |

## 9. <u>Asesu'r Gystadleuaeth</u>

9.1 Nid oes angen Asesiad o'r Gystadleuaeth ar gyfer y Mesur hwn; mae'n ymdrin â llywodraeth leol yng Nghymru ac nid yw'n effeithio ar fusnesau, ar elusennau nac ar y trydydd sector.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

10.1 Bydd Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu ag awdurdodau lleol a'r cyrff sy'n eu cynrychioli (gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru) i fonitro effeithiolrwydd y darpariaethau yn y Mesur.

10.2 Bydd yr arolwg arfaethedig o gynghorwyr ac ymgeiswyr yn darparu data rheolaidd a fydd yn galluogi'r rheini sy'n llunio polisïau i asesu pa mor effeithiol yw'r mentrau y bwriedir iddynt wella amrywiaeth mewn siambrau cynghorau. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys darpariaeth i'w alluogi i fonitro effaith ei benderfyniadau.

10.3 Bydd y gwaith paratoi a wneir er mwyn gwneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau o dan y pwerau dirprwyedig sydd yn y Mesur yn rhoi adborth hynod werthfawr am y trefniadau ymarferol sydd ynghlwm wrth weithredu'r Mesur.

## ATODIAD A - MEMORANDWM PWERAU DIRPRWYEDIG

Mae’r memorandwm hwn yn nodi’r darpariaethau yn y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) sy’n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Mae’n dynodi diben y pŵer, y rheswm pam y mae ar y ffurf y mae, ac unrhyw weithdrefnau Cynulliad sy’n gymwys i arfer y pŵer.

Wrth lunio’r Mesur arfaethedig, y nod oedd rhoi arwydd clir yn y Mesur ei hun o’r prif amcanion polisi. Nid yw darpariaethau i roi pwerau dirprwyedig ond yn cael eu defnyddio pan fo gweithdrefnau neu ofynion gweinyddol yn dilyn ymlaen o’r hyn sydd ar wyneb y Mesur a phan fo eu hangen er mwyn rhoi effaith gyfreithiol i’r trefniadau neu i’r gweithrediadau a ddisgrifir.

Os yw’n debygol y bydd cryn ddiddordeb ym manylion y rheoliadau neu’r gorchymyn, rydym wedi cynnig y dylid defnyddio’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol er mwyn caniatáu i aelodau’r Cynulliad drafod y materion o dan sylw a chymeradwyo arfer y pŵer dirprwyedig.

### Rhannau 1 a 2 – Atgyfnerthu Democratiaeth Leol ac Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol

Mae’r darpariaethau yn y rhan hon o’r Mesur yn ymwneud â hybu a chefnogi aelodaeth o awdurdodau lleol.

Mae adran 1 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi’r cwestiynau y mae’n rhaid i awdurdod lleol eu gofyn mewn arolwg wrth gyflawni’r ddyletswydd i gynnal arolwg ymhlith ymgeiswyr aflwyddiannus a chynghorwyr.

Mae adran 2 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu ar ba ffurf y mae’n rhaid i’r awdurdodau lleol roi’r wybodaeth y maent wedi’i chrynhoi i Weinidogion Cymru.

Mae adran 9 (1) (i) yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau gwasanaethau democrataidd a ragnodir.

Mae adran 10 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ymgorffori darpariaeth sy’n ymwneud â rheoli staff yn ei reolau sefydlog ac i wneud addasiadau eraill, sy’n ymwneud â rheoli staff, i’w reolau sefydlog.

Mae adran 24 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi’r manylion ar gyfer penderfynu ar gyfnod o absenoldeb teuluol ar gyfer aelod o awdurdod lleol.

Mae adran 25 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi’r manylion ar gyfer penderfynu sut i gyfrifo cyfnod o absenoldeb mamolaeth.

Mae adran 26 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb newydd-anedig.

Mae adran 27 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru nodi'r manylion ar gyfer penderfynu sut i gyfrifo cyfnod o absenoldeb mabwysiadu.

Mae adran 28 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb mabwysiadu newydd.

Mae adran 29 yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi natur a chyfnodau absenoldeb rhiant.

Mae adran 30 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ragnodi'r gweithdrefnau gweinyddol i'w dilyn gan awdurdodau lleol, ynghyd â chwmpas yr absenoldeb, gan gynnwys parhâd unrhyw fanteision sy'n dod i aelodau sydd â hawl i absenoldeb o dan y rhan hon o ganlyniad i'w haelodaeth o'r awdurdod neu'r weithrediaeth.

**Cyfraniad y pwerau dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn adrannau 1 a 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurf y cwestiynau y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol eu gofyn ac i bennu sut y mae'r wybodaeth a grynhoir i'w hanfon at Weinidogion Cymru. Dros amser, bydd yr wybodaeth a ddaw i law yn rhoi cipolwg i Weinidogion Cymru, i randdeiliaid eraill ac i lunwyr polisi ar nodweddion y rheini sy'n sefyll etholiadau a'r rheini sy'n cael eu hethol. Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb ond nid oes unrhyw ofyniad i gynnal ymarferion monitro cydraddoldeb. Gellir defnyddio'r broses monitro cydraddoldeb i weld beth yw'r gwahaniaethau rhwng proffil ymgeiswyr a phroffil cynghorwyr, a hynny gyda golwg ar ddatblygu dull dibynadwy o fesur pa fathau o bobl sy'n barod i ystyried mynd i faes llywodraeth leol, a chyda golwg ar sut y gellir annog hyn.

Mae'r Mesur yn cyflwyno swydd newydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac yn pennu swyddogaeth y swydd honno. Bydd y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn adran 9(1)(i) ac yn adran 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu swyddogaethau at y rhestr honno ac i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori yn eu rheolau sefydlog ddarpariaethau sy'n ymwneud â rheoli staff a fydd yn gweithio gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Bydd y pwerau i wneud rheoliadau a geir yn adrannau 24 - 30 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynllun absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol, a diben y cynllun hwnnw yw mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu cynghorwyr y mae ganddynt ddyletswyddau teuluol, neu y gall y bydd ganddynt ddyletswyddau o'r fath.

## Ffurf y Pŵer Dirprwyedig

Bernir mai Rheoliadau sy'n briodol er mwyn llunio'r cwestiynau y cyfeirir atynt yn adran 1 ac er mwyn ymdrin â sut y mae'r data y cyfeirir ato yn adran 2 i'w gyflwyno. Bydd cyflwyno Rheoliadau yn fodd i sicrhau cysondeb ar draws yr awdurdodau lleol wrth gasglu'r wybodaeth hon. Mae rhestr ar wyneb y Mesur o'r math o wybodaeth y ceir ei chasglu am ymgeiswyr aflwyddiannus ac am gynghorwyr gan ddefnyddio'r cwestiynau rhagnodedig, ond nid yw'r rhestr honno'n un gynhwysfawr. Dichon y bydd gofyn ailedrych ar y cwestiynau rhagnodedig ac ar yr agweddau gweinyddol ymhen amser ac ar ôl ystyried effeithiolrwydd y darpariaethau, a'u hyd a'u lled.

Bernir bod rheoliadau'n briodol ar gyfer adran 9 (1) (i) ac adran 10. Bydd y rheoliadau'n ychwanegu at y rhestr o swyddogaethau rhagnodedig y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori darpariaeth yn eu rheolau sefydlog sy'n dilyn ymlaen o'r gwasanaeth newydd hwn. Bydd y rheoliadau hyn yn ymhelaethu ar fanylion y gwasanaeth newydd hwn, a gallant newid o bryd i'w gilydd.

Bernir bod rheoliadau'n briodol ar gyfer adrannau 24 - 30, oherwydd y byddant yn darparu'r manylion ar gyfer gweinyddu'r cynllun ac ar gyfer yr hawl i absenoldeb teuluol, ac yn caniatáu ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol os bydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y cynllun a'r hawl yn parhau i fod yn gydnaws â'r hawliau sy'n bod ar y pryd o dan y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth.

## Ffurf y Weithdrefn Cynulliad

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adrannau 1, 2 a 10. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd y gall y bydd angen diweddaru manylion technegol a gweinyddol y rheoliadau arfaethedig ar sawl achlysur yn y dyfodol.

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan 9 (1) (i). Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd y bydd modd ychwanegu at swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a bennir yn y Mesur ei hun, ac oherwydd y dylid craffu ar unrhyw swyddogaethau ychwanegol i'r un graddau ag y gwneir ar y Mesur ei hun.

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adrannau 24 -30. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd y bydd y rheoliadau'n cyflwyno cynllun absenoldeb newydd ar gyfer aelodau awdurdodau lleol. Dylai aelodau'r Cynulliad gael cyfle i gymeradwyo'r cynllun ac i drafod y materion sy'n codi.

### Rhannau 3, 4 a 5 – Llywodraethu

Mae adran 34 yn rhoi effaith i Atodlen 1, y mae paragraff 13(2) yn Rhan 3 ohoni yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a'u bod yn dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth sydd ar ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 55 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru eithrio unrhyw swyddogaethau neu i gyfyngu ar y graddau y caiff aelod o'r cyngor nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer swyddogaeth.

### Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi

Mae adran 34 yn rhoi effaith i Atodlen 1, sy'n ategu adran 34, ac yn darparu nad yw trefniadau amgen yn ddewis bellach ar gyfer awdurdodau lleol. Nid oes unrhyw reswm ar hyn o bryd dros gredu na fydd awdurdod yn cydymffurfio â'r ddarpariaeth ond mae'n ddoeth cynnwys pŵer diofyn. Os caiff y pŵer ei ddefnyddio, bydd angen darpariaeth fanwl ac felly mae'n fwy priodol gwneud y ddarpariaeth angenrheidiol drwy orchymyn yn hytrach nag ar wyneb y Mesur.

Mae adran 55 yn darparu y caiff awdurdod wneud trefniadau i aelodau unigol arfer swyddogaethau'r weithrediaeth neu swyddogaethau eraill yr awdurdod mewn perthynas â'r adran etholiadol y maent wedi eu hethol drosti neu mewn perthynas â'u haelodaeth o gorff ac eithrio'r awdurdod lleol. Bydd hyn yn golygu y bydd modd gweithio mewn partneriaeth oherwydd y bydd aelodau nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth ac sy'n cynrychioli awdurdodau lleol ar gyrff allanol yn gallu gwneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod, a hynny oherwydd y bydd ganddynt bŵer dirprwyedig i arfer swyddogaethau.

### Ffurf y pwerau dirprwyedig

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn Atodlen 1, y rhoddir effaith iddo drwy adran 34. Bwriedir iddo fod yn bŵer diofyn ar gyfer Gweinidogion Cymru er mwyn sicrhau y cydymffurfir â bwriad y Mesur, sef bod y model "trefniadau amgen" ar gyfer awdurdodau lleol yn peidio â bod yn ddewis, drwy ei gwneud yn ofynnol drwy orchymyn i awdurdod lleol roi'r gorau i weithredu trefniadau amgen a dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 55. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion trefniadau a alluogir gan y Mesur.

### Ffurf y Weithdrefn Cynulliad

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 34. Bernir mai dyna sy'n briodol

oherwydd natur weithdrefnol y pŵer. Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 55. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd natur weithdrefnol y pŵer ac o ystyried mai'r weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio hefyd ar gyfer y pŵer cyfatebol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau nad ydynt i'w cyflawni gan y weithrediaeth (adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000).

**Rhan 6 Trosolwg a Chraffu**

Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â phwyllgorau Trosolwg a Chraffu mewn awdurdodau lleol.

Mae adran 57 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu sut y caiff dau awdurdod lleol neu ragor benodi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, ac i nodi'r trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau'r pwyllgor.

Mae adran 60 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ddynodi person at ddibenion adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae adran 62 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru eithrio materion y ceir eu cyfeirio at bwyllgorau trosolwg a chraffu.

Mae adran 74 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru bennu sut y mae awdurdodau lleol i benodi cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a chraffu.

Mae adran 80 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth y ceir ei rhagnodi mewn rheoliadau ynghylch gweithgareddau arfaethedig pwyllgorau trosolwg a chraffu yn y dyfodol.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

*Cyd-bwyllgorau Craffu*
Mae adran 57 yn bŵer galluogi ar gyfer awdurdodau lleol a bydd y pŵer dirprwyedig sydd ynddi yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu manylion gweithredol cyd-bwyllgor. Byddent am ymgynghori â'r awdurdodau lleol cyn defnyddio'r pŵer hwn. Ni fydd pob un o'r awdurdodau lleol yn dewis cael cyd-bwyllgor ac ni fydd angen pwyllgor o'r fath ar bob un ohonynt. Os byddant yn dewis cael cyd-bwyllgor neu os bydd angen pwyllgor o'r fath arnynt, byddant yn gallu craffu ar y modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus pan fo'r gwasanaethau hynny'n cael eu cyflenwi mewn mwy nag un ardal sirol.

*Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000*
Mae angen diwygio'r system drosolwg a chraffu a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") er mwyn adlewyrchu bwriad y Mesur, sef caniatáu ar gyfer craffu ar yr holl wasanaethau cyhoeddus mewn ardal. Mae adran 60 yn mewnosod adran newydd (adran 21G) i Ddeddf 2000. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi person at ddibenion adran 21 o'r Deddf Llywodraeth Leol mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal sirol. Effaith hyn fydd rhoi rhwymedigaeth ar y personau neu'r cyrff

dynodedig hynny i ymateb i geisiadau i fynd i gyfarfodydd pwyllgorau craffu neu i roi gwybodaeth iddynt.

Mae adran 62 yn diwygio adran 21A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sy’n rhoi pŵer dirpwyedig i Weinidogion Cymru bennu materion y ceir eu heithrio rhag cael eu hystyried gan bwyllgorau trosolwg a chraffu.

*Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu*
Nid yw’r broses ar gyfer penodi cadeiryddion pwyllgorau craffu yn cael ei nodi yn Neddf 2000 nac mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall, ac mae nifer o brosesau gwahanol yn bod, gan gynnwys dyrannu cadeiryddiaeth pob un o’r pwyllgorau craffu i aelodau o’r un grŵp gwleidyddol. Bwriad y Mesur yw gwella’r modd y dyrennir cadeiryddiaeth pwyllgorau craffu drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried cydbwysedd gwleidyddol wrth ddyrannu. Mae adran 74 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i sicrhau proses benodi unffurf.

*Blaen-gynlluniau*
Diben y pwerau dirprwyedig o dan adran 80 yw gwireddu’r bwriad polisi o’i gwneud yn ofynnol i bwyllgorau craffu gyhoeddi blaen-gynlluniau, a fydd yn golygu y bydd y cyhoedd a sectorau eraill yn cael rhagor o wybodaeth, ac yn gallu cynllunio eu cyfraniadau eu hunain yn well a monitro’r broses graffu yn well.

**Ffurf y Pŵer Dirprwyedig**

Yn achos adran 57, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai rheoliadau sy’n briodol oherwydd y byddant yn darparu ar gyfer yr holl fanylion gweithredol a gweinyddol sy’n gysylltiedig â chyd-bwyllgorau. Mae gofyn i ddau neu ragor o awdurdodau lleol weithredu er mwyn sefydlu cyd-bwyllgor ac mae hyn yn dilyn ymlaen o fwriad y Mesur.

Mae adran 60 yn darparu ar gyfer pŵer i wneud gorchymyn mewn adran 21G (1) newydd o Ddeddf 2000. Bernir mai pŵer i wneud gorchymyn sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â dynodi personau neu gategorïau o bersonau h.y. rhestr, a gorchymyn, yw’r ffordd briodol o wneud hyn.

Mae pŵer yn adran 62 i wneud gorchymyn gan nad oes modd nodi ymlaen llaw pa faterion y gallai fod yn briodol eu heithrio. Mae pŵer i wneud gorchymyn yn rhoi’r hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau wrth iddynt godi.

Mae pŵer yn adran 74 i wneud rheoliadau. Bernir mai rheoliadau sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â manylion gweinyddol y cynllun penodi sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur, y gall y bydd angen eu hadolygu o bryd i’w gilydd.

Mae pŵer yn adran 80 i wneud rheoliadau. Bernir mai rheoliadau sy’n briodol gan fod y darpariaethau’n ymwneud â’r manylion gweinyddol ar gyfer cyhoeddi blaen-gynlluniau sy’n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur, y gall y bydd angen eu hadolygu o bryd i’w gilydd.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer sydd yn adran 57 i wneud rheoliadau. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion gweinyddol y cynllun sy'n dilyn ymlaen o fwriad y Mesur.

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 60. Bernir mai dyna sy'n briodol er mwyn caniatáu i aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol drafod a chymeradwyo pa bersonau a pha gyrff y dylid craffu arnynt mewn ardal llywodraeth leol.

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 62. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r manylion gweinyddol y mae eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adran 74. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â chynllun penodi y mae ei angen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

Caiff y weithdrefn penderfyniad negyddol ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud rheoliadau sydd yn adran 80. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â'r manylion gweinyddol y mae eu hangen er mwyn rhoi effaith i fwriad y Mesur.

**Rhan 7- Cymunedau a Chynghorau Cymuned**

Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â chyfarfodydd cymunedol, pleidleisio cymunedol a chynghorau cymuned.

Mae adran 97 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru, i bob pwrpas, ddatgymhwyso'r gofynion hysbysu sydd yn yr adran yn achos pleidleisio cymunedol lle y bo'r cwestiwn yn gwestiwn o fath a bennir ganddynt mewn rheoliadau.

Mae adran 116 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn diwygio amryfal drothwyon mewn cysylltiad â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill.

Mae adran 119(5)(c) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i ychwanegu at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn hysbysiad cyhoeddus sy'n rhoi manylion am fwriad cyngor cymuned i gyfethol.

Mae adran 122 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i ychwanegu at yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn

hysbysiad cyhoeddus sy’n rhoi manylion am fwriad cyngor cymuned i benodi cynrychiolydd ieuenctid.

Mae adran 124 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i ddarparu bod cynrychiolydd ieuenctid i’w drin fel aelod o’r cyngor a benododd y cynrychiolydd, at y dibenion a bennir yn y rheoliadau.

Mae adran 130 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn er mwyn diwygio, diddymu, dirymu neu ddatgymhwyso unrhyw ddeddfiad sydd, yn eu barn hwy, yn atal neu’n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer llesiant. Caiff y pŵer hwn ei arfer mewn cysylltiad â phob cyngor cymuned neu â chynghorau cymuned neilltuol, neu mewn cysylltiad â disgrifiadau neilltuol o gynghorau cymuned, ac am gyfnod neilltuol.

Mae adran 133 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer i wneud gorchymyn yn nodi cytundeb siarter enghreifftiol rhwng prif gyngor a chyngor cymuned.

Mae adran 137 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i wneud cynllun ar gyfer achredu cyngor cymuned.

Mae adran 143 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gael pŵer dirprwyedig i wneud addasiadau i’r modd y gweithredir unrhyw ddeddfiad mewn cysylltiad â chynghorau cymuned neilltuol sy’n deillio o’r ffaith bod y cyfryw gynghorau wedi’u hachredu, neu fel arall.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i’r bwriad o ran polisi**

Mae adran 97 yn galluogi Gweinidogion Cymru i eithrio cwestiynau penodol o’r gofyniad sydd ar y swyddog canlyniadau i hysbysu’r prif gyngor perthnasol am y bleidlais ac am ganlyniadau’r bleidlais.

Mae adran 116 yn mewnosod adran newydd i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio’r amryfal drothwyon mewn cysylltiad â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill.

Mae adrannau 119(5)(c) a 122 yn ymwneud â gwneud y broses gyfethol a’r broses penodi cynrychiolwyr ieuenctid yn fwy effeithiol. Byddant yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gwybodaeth bellach y byddant am iddi gael ei chynnwys yn yr hysbysiad cyhoeddus gorfodol.

Mae adran 124 yn galluogi Gweinidogion Cymru, yng ngoleuni profiad cynghorau cymuned wrth benodi cynrychiolwyr ieuenctid, i ddarparu bod cynrychiolwyr ieuenctid i’w trin fel aelodau o’r cynghorau at ddibenion penodol a bennir yn y rheoliadau.

Mae adran 130 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gael gwared ar unrhyw rwystr cyfreithiol a fyddai'n atal cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer i hybu llesiant.

Mae adran 133 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun siarter enghreifftiol fel modd o hybu perthynas dda rhwng prif gyngor a chyngor cymuned.

Mae adran 137 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cynllun achredu ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru. Er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol ym maes llywodraeth leol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gall y bydd yn rhaid i gynghorau cymuned ymateb iddi, mae adran 143 yn caniatáu ar gyfer addasiadau gan Weinidogion Cymru i unrhyw Fesurau neu Ddeddfau yn y dyfodol. Mae'n caniatáu ar gyfer rhoi o'r neilltu, neu ei gwneud yn haws cydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth ar gynghorau cymuned yn y dyfodol y bernir nad oes ei hangen yn rhinwedd y ffaith bod y cyngor cymuned wedi'i achredu.

**Ffurf y pŵer dirprwyedig**

Yn achos adran 97, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phleidleisiau, a dichon y bydd gofyn eu diwygio hwy yn y dyfodol.

Yn achos adran 116, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Ni cheir gwneud unrhyw orchymyn cyn ymgynghori â'r prif gynghorau neu â'r corff sy'n eu cynrychioli a chyda'r cynghorau cymuned neu â'r corff sy'n eu cynrychioli hwy. Bernir bod pŵer i wneud gorchymyn yn briodol gan mai dyma'r ffordd i ddiwygio'r trothwyon sydd i'w gweld ar wyneb Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygir gan y Mesur.

Yn achos adrannau 119(5)(c), 122, a 124, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Dyna sy'n briodol oherwydd y bydd modd newid y rheoliadau er mwyn ymateb i anghenion ac effeithiau ymarferol y penodiadau.

Yn achos adran 130, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyna sy'n briodol ac mai dyna'r dull mwyaf addas i'w ddefnyddio gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â phŵer Gweinidogion Cymru i ddiwygio, i ddirymu neu i ddatgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Yn achos adran 133, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Dyna sy'n briodol gan fod yr adran yn ymwneud â nodi darpariaethau cytundeb siarter enghreifftiol. Ni cheir gwneud gorchymyn o dan yr adran hon heb ymgynghori â'r cyrff sy'n cynrychioli prif gynghorau a chynghorau cymuned, ac â'r cyfryw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn barnu ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

Yn achos adrannau 137 a 143, pŵer i wneud rheoliadau yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion cynllun achredu a all fod yn agored i newid.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Caiff y weithdrefn penderfyniad negyddol ei defnyddio ar gyfer adrannau 97, 119(5)(c), 122, 124, 133 a 137. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y darpariaethau'n ymwneud â manylion gweinyddol a thechnegol y gall fod angen eu diweddaru yn y dyfodol.

Caiff y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ei defnyddio ar gyfer adrannau 116 a 143. Bernir mai dyna sy'n briodol gan y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad drafod a chymeradwyo'r newidiadau.

Caiff y weithdrefn uwchgadarnhaol ei defnyddio ar gyfer adran 130. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd mai dim ond drwy gyfrwng y weithdrefn gyfatebol yn Nau Dŷ'r Senedd y ceir arfer pŵer cyfatebol yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Rhan 8 – Taliadau a phensiynau aelodau (Lwfansau Cynghorwyr)**

Mae'r darpariaethau yn yr adran hon yn ymwneud â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac â'r modd y gweithredir y system ar gyfer penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru.

Mae adran 161 yn rhoi pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru ddiwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud ag aelodaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddaieth Ariannol, a'r darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Panel.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Diwygio'r system lwfansau i aelodau sydd wrth wraidd y bwriad i estyn cylch gwaith y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ar hyn o bryd, Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 sy'n rheoli swyddogaethau'r Panel. Effaith hyn yw bod y cyfrifoldeb dros benderfynu ar y mathau o lwfansau, ac ar swm y lwfansau, yn cael ei rannu rhwng y Panel a Gweinidogion Cymru. Mae hefyd yn cyfyngu ar yr hyn y gall y Panel ei wneud. Mae Llywodraeth y Cynulliad am sefydlu system cydnabyddiaeth ariannol sy'n rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i bob cynghorydd am y cyfrifoldeb sydd arno wrth wasanaethu ei gymuned ac wrth gyfrannu at y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â llywodraethu ei gyngor, ac mae o'r farn mai'r Panel yw'r corff priodol i ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r Mesur yn nodi, yn Atodlen 2, y telerau y penodir y Panel oddi tanynt. Disgrifir swyddogaethau'r Panel yn adrannau 145 a 146.

Mae adran 161 yn darparu ar gyfer gwneud diwygiadau i ddarpariaethau sy'n ymwneud â phenodi'r Panel, â'i ddeiliadaeth a'i weithdrefnau, yn ogystal â swyddogaethau'r Panel o dan Ran 8 o'r Mesur. Gall yr angen i ddiwygio godi

o ganlyniad i ddatblygiadau ym maes llywodraeth leol yn y dyfodol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol a all effeithio ar y modd y penodir y Panel, ar ei ddeiliadaeth a'i weithdrefnau, yn ogystal ag ar ei swyddogaethau.

**Ffurf y Pŵer Dirprwyedig**

Yn achos adran 161, pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig. Bernir mai dyma'r dull mwyaf priodol gan fod y pŵer yn ymwneud â materion gweithredol sy'n gysylltiedig â sut y penodir y Panel, neu â'i swyddogaethau.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 161. Bernir mai dyna sy'n briodol gan y byddai'n rhoi cyfle i'r Cynulliad drafod a chymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i'r modd y penodir y Panel, neu i'w swyddogaethau.

**Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno – gweler yr Adendwm i'r Memorandwm hwn**

**Rhan 9A – Cyffredinol**

Mae adran 170 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, darfodol ac arbed mewn cysylltiad â'r Mesur hwn.

Mae adran 171 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r dyddiad y bydd unrhyw un neu rai o'r darpariaethau yn y Mesur yn dod i rym.

**Cyfraniad y pŵer dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

Er mwyn ystyried datblygiadau yn y dyfodol ym maes llywodraeth leol ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gall y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymateb iddi, mae adran 170 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol, ddarfodol ac arbed i'r rhannau priodol o'r Mesur. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer diweddaru manylion technegol yn y darpariaethau yn ôl yr angen yn sgil pasio Mesurau neu ddeddfau eraill. Mae angen y pŵer hwn er mwyn darparu ar gyfer rhoi effaith lawn i'r cyfryw orchymyn mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Mesur, a hynny oherwydd ei bod y debygol o fod yn fanwl iawn.

**Ffurf y pŵer dirprwyedig**

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 170. Bernir mai dyna sy'n briodol gan fod y ddarpariaeth yn ymwneud â manylion technegol diwygiadau i ddeddfwriaeth.

Pŵer i wneud gorchymyn yw'r pŵer dirprwyedig yn adran 171.

### Ffurf y Weithdrefn Cynulliad

Y weithdrefn penderfyniad negyddol a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn yn adran 170 onid oes ynddo addasiadau i ddeddfiad. Mewn achos o'r fath, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol a gaiff ei defnyddio. Mae hyn yn briodol oherwydd y byddai modd diwygio deddfiadau a chan y byddai'n rhoi cyfle i aelodau'r Cynulliad drafod a chymeradwyo'r diwygiad.

Nid oes unrhyw weithdrefn Cynulliad ar gyfer y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 171. Dyna yw'r arferiad yn achos darpariaethau cychwyn.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2010

Atodiad B i'r Memorandwm Esboniadol
gan ymgorffori'r

## Nodiadau Esboniadol

(fel y'u hadolygwyd ar ôl Cyfnod 2)

Mawrth 2011

# Nodiadau Esboniadol

*Cyflwyniad*

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) fel y'i cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Gorffennaf 2010 a'i adolygu ar ôl trafodion Cyfnod 2. Mae nodiadau am yr adrannau newydd a fewnsodwyd yng Nghyfnod 2 ym Mhennod 2 o Ran 9 (Cyfuno) wedi eu cynnwys yn Atodiad C i'r ddogfen hon..

2. Maent wedi eu llunio gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Mesur arfaethedig a helpu i lywio dadl arno. Nid ydynt yn ffurfio rhan o'r Mesur drafft nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Mesur arfaethedig. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur. Felly, os nad yw'n ymddangos bod angen unrhyw esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.

4. Mae 10 rhan i'r nodiadau esboniadol:

Rhannau 1-2 – Cryfhau democratiaeth leol; Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol;
Rhannau 3-5 – Trefniadau llywodraethu, newidiadau i drefniadau gweithrediaeth a'r broses o gyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau a chynghorwyr;
Rhan 6 – Trosolwg a Chraffu;
Rhan 7 – Cynghorau cymuned;
Rhan 8 – Aelodau: Taliadau a Phensiynau;
Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno;
Rhan 9A – Cyffredinol.

5. Mae'r pwerau i wneud Mesur o'r fath wedi eu cynnwys ym Materion 12.1 a 12.5 i 12.17 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

6. Defnyddir y termau a ganlyn yn y Nodiadau hyn:

Prif gyngor - i gyfeirio at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru
Cyngor cymuned - i gyfeirio at gyngor cymuned neu gyngor tref yng Nghymru
Deddf 1972 - Deddf Llywodraeth Leol 1972
Deddf 2000 - Deddf Llywodraeth Leol 2000

*Esboniad ar Adrannau*

## *Rhan 1 - Cryfhau democratiaeth leol*

Pennod 1 – Hybu a chefnogi aelodaeth o awdurdodau lleol

### Adran 1 - Dyletswydd i gynnal arolwg

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor yng Nghymru gynnal arolwg o ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr mewn etholiadau cyffredin ar gyfer prif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru (a gynhelir fel rheol ar yr un pryd bob pedair blynedd), a hefyd o'r personau hynny y llwyddwyd i'w hethol yn gynghorwyr yn yr etholiadau hynny.

Mae'r arolwg wedi ei fwriadu i gwmpasu amryw o faterion ac i helpu i roi gwybod i wneuthurwyr polisi am lwyddiant neu fethiant mentrau i hyrwyddo ystod ehangach o bersonau i ymgeisio mewn etholiadau ar gyfer cynghorau. Rhagnodir cwestiynau'r arolwg, ffurflen yr arolwg a modd crynhoi'r wybodaeth mewn rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion Cymru.

Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n ymgymryd â'r arolwg sicrhau bod cynghorwyr ac ymgeiswyr yn gallu darparu'r wybodaeth yn ddienw; nid yw cynghorwyr ac ymgeiswyr o dan unrhyw orfodaeth i ymateb i'r arolwg.

### Adran 2 - Cwblhau arolwg a chyhoeddi gwybodaeth

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gwblhau'r arolwg a darparu'r wybodaeth sydd wedi ei chrynhoi ganddynt i Weinidogion Cymru cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiadau y mae'r arolwg yn ymwneud â hwy. Caiff yr awdurdodau lleol gyhoeddi'r wybodaeth y maent wedi ei chrynhoi.

Rhaid i Weinidogion Cymru grynhoi'r wybodaeth a geir a'i chyhoeddi cyn pen deuddeng mis ar ôl dyddiad yr etholiadau y mae'r arolwg yn ymwneud â hwy. Caiff Gweinidogion Cymru rannu'r wybodaeth fel y'i ceir oddi wrth yr awdurdodau lleol (h.y. cyn unrhyw grynhoi pellach gan Weinidogion Cymru) ag unrhyw gorff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru.

Wrth gyhoeddi neu rannu unrhyw wybodaeth o'r arolwg, rhaid i Weinidogion Cymru ac awdurdod lleol sicrhau na chaiff unrhyw un a gyfrannodd at yr arolwg ei enwi a sicrhau na fyddai modd ei adnabod mewn unrhyw ffordd.

### Adran 3 - Canllawiau ynghylch arolygon

Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau am arolygon ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hynny.

**Adran 4 - Mynychu cyfarfodydd o bell**

Effaith yr adran hon yw ehangu cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys cyfeiriad sydd wedi ei gynnwys yn y Mesur ac mewn is-ddeddfwriaeth) at gyfarfod o awdurdod lleol i gynnwys aelodau o awdurdod lleol sy'n ei fynychu o bell cyhyd ag y caiff pob un o'r amodau, a nodir yn is-adran (3), ei fodloni.

Rhaid i reolau sefydlog awdurdod lleol sicrhau, i bob pwrpas, fod nifer yr aelodau sy'n mynychu'r cyfarfod mewn gwirionedd (h.y. sy'n mynychu'r cyfarfod yn y man lle y mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal) yn fwy na nifer y rhai sy'n ei fynychu o bell. Yn ychwanegol, caiff yr awdurdod lleol wneud rheolau sefydlog eraill ynghylch mynychu o bell.

Diben y newid yw cyflwyno mwy o hyblygrwydd ar gyfer trefniadau cyfarfodydd er mwyn darparu ar gyfer anghenion cynghorwyr o gefndiroedd mwy amrywiol.

Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ynglŷn â mynychu o bell.

**Adran 5 - Adroddiadau blynyddol gan aelodau o awdurdod lleol**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol gan ei aelodau a chan aelodau o'i weithrediaeth ar eu gweithgareddau yn unol â'r naill rôl neu'r llall neu'r ddwy yn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

Caiff y trefniadau a wneir gan yr awdurdod gynnwys amodau ynghylch cynnwys adroddiad y mae'n rhaid eu bodloni gan y person sy'n ei lunio a rhaid i'r awdurdod roi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau hynny. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau y caiff Gweinidogion eu dyroddi am adroddiadau blynyddol.

**Adran 6 - Amseru cyfarfodydd cyngor**

Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch amseru cyfarfodydd awdurdod lleol (gan gynnwys cyfarfodydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor) gyda golwg ar gyflwyno trefniadau mwy hyblyg i ddarparu ar gyfer cynghorwyr o gefndiroedd mwy amrywiol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hynny.

**Adran 7 - Hyfforddi a datblygu aelodau o awdurdod lleol**

Mae'n rhoi dyletswydd ar brif gynghorau i sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w haelodau. Rhaid i bob prif gyngor roi ar gael i'w aelodau adolygiad blynyddol o'u hanghenion hyfforddi a datblygu, gan

gynnwys cyfle am gyfweliad gyda pherson y bernir ei fod yn briodol gymwys i gynghori ar y mater hwnnw. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ar y materion hyn.

Pennod 2 – Gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol

**Adran 8 - Pennaeth gwasanaethau democrataidd**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob prif gyngor ddynodi un o'i swyddogion i fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd ("PGD"), ond ni chaniateir i bennaeth ei wasanaeth cyflogedig, ei swyddog monitro na'i brif swyddog cyllid gael ei ddynodi yn y cyswllt hwn.

Caiff y PGD drefnu i'r swyddogaethau gwasanaethau democrataidd gael eu cyflawni gan staff  a rhaid darparu i'r PGD y staff, y llety a'r adnoddau eraill sydd, ym marn y PGD, yn ddigon i ganiatáu i swyddogaethau'r PGD gael eu cyflawni.

Diben y swydd yw sicrhau bod digon o gymorth yn cael ei roi i gynghorwyr y tu allan i'r weithrediaeth i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol, a hynny gyda'r ddarpariaeth angenrheidiol o ran gweinyddu ac ymchwilio.

**Adran 9 - Swyddogaethau gwasanaethau democrataidd**

Mae'n nodi'r swyddogaethau a ymddiriedir i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd, gan gynnwys:-

a) rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd;

b) rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau (gan gynnwys cyd-bwyllgorau ac is-bwyllgorau, ond heb gynnwys y pwyllgor trosolwg a chraffu a'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd);

Nid yw "cyngor" yn (a) a (b) uchod yn cynnwys cyngor ynghylch sut y dylai swyddogaeth yr awdurdod gael, neu fod wedi cael, ei harfer.

c) hybu rôl pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod;

d) rhoi cymorth a chyngor i bwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod ac aelodau o'r pwyllgor hwnnw neu'r pwyllgorau hynny, ac yn yr un modd i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod;

e) rhoi cymorth a chyngor, mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor(au) trosolwg a chraffu'r awdurdod, i aelodau'r awdurdod, aelodau'r weithrediaeth a swyddogion yr awdurdod;

f) rhoi cymorth a chyngor i aelodau o'r awdurdod i gyflawni ei rôl fel aelod o'r awdurdod. Nid yw hyn yn ymestyn i roi cymorth a chyngor i aelod i gyflawni ei swyddogaeth fel aelod o'r weithrediaeth (ac eithrio ar gyfer y swyddogaethau hynny a gofnodwyd gan (e) uchod), a/neu gyngor ynghylch a

ddylai swyddogaethau'r awdurdod gael eu harfer neu fod wedi eu harfer mewn perthynas â mater sy'n cael ei ystyried, neu sydd i'w ystyried, mewn cyfarfod o'r awdurdod neu bwyllgor o'r awdurdod (gan gynnwys cyd-bwyllgor neu is-bwyllgor); ac

g) gwneud adroddiadau a argymhellion ynghylch materion staffio sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd.

Caniateir i swyddogaethau eraill y PGD gael eu rhagnodi mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru; ac mae is-ddeddfwriaeth o'r fath i ddilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Nid oes dim yn yr adran hon sy'n effeithio ar ddyletswydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod.

**Adran 10 - Dyletswydd i fabwysiadu rheolau sefydlog ynghylch rheoli staff**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori mewn rheolau sefydlog ddarpariaethau rhagnodedig ynghylch rheoli staff a ddarperir i'r PGD ac addasiadau eraill i reolau sefydlog yr awdurdod sy’n ymwneud â rheoli staff. Ni fyddai modd i'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gwmpasu penodi, diswyddo staff na disgyblu'r staff y cyfeirir atynt.

**Adran 11 - Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau gwasanaethau democrataidd**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi pwyllgor o'r cyngor i ddynodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, arolygu gwaith y Gwasanaethau Democrataidd, sicrhau bod digon o adnoddau ar gyfer y gwaith a chyflwyno adroddiad i'r cyngor llawn yn unol â hynny.

**Adran 12 - Aelodaeth**

Mae'n nodi'r aelodaeth o'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Mae aelodaeth o'r pwyllgor wedi ei chyfyngu i gynghorwyr (dim aelodau cyfetholedig), dim ond un aelod o weithrediaeth y cyngor a gaiff fod yn aelod, ac ni chaiff pennaeth gweithrediaeth y cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor. Ni chaiff y cadeirydd fod yn aelod o’r grŵp gweithredol (ac eithrio mewn awdurdodau lle y mae pob grŵp gwleidyddol yn cael ei gynrychioli ar wetihrediaeth yr awdurdod ac yn yr achos hwnnw ni chaiff y cadeirydd fod yn aelod o’r weithrediaeth). Rhaid i aelodaeth y pwyllgor adlewyrchu'r cydbwysedd gwleidyddol ar y cyngor llawn yn unol ag adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

**Adran 13 - Is-bwyllgorau**

Mae'n caniatáu i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd sefydlu is-bwyllgorau, a gaiff gyflawni ei swyddogaethau.

**Adran 14 - Trafodion etc**

Mae'n nodi darpariaethau sy'n llywodraethu trafodion pwyllgorau gwasanaethau democrataidd, gan gynnwys: y dylai'r cadeirydd gael ei benodi gan y cyngor llawn; y dylai cadeiryddion unrhyw is-bwyllgorau gael eu penodi gan y pwyllgor gwasanaethau democrataidd; nad oes unrhyw gyfyngiadau ar bleidleisio ar gyfer aelodau o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgorau; y caiff y pwyllgor (ac is-bwyllgor) alw tystion ( a fydd o dan ddyletswydd i'w fynychu os ydynt yn aelodau'r awdurdod neu'n swyddogion i'r awdurdod, ond ni orfodir tyst o unrhyw ddisgrifiad i ateb unrhyw gwestiwn y byddai hawl ganddynt i wrthod ei ateb mewn achos llys, neu mewn cysylltiad ag achos o'r fath, yng Nghymru a Lloegr); ac y bydd cyfarfodydd, papurau a chofnodion y pwyllgor (a'r is-bwyllgor) hwnnw yn ddarostyngedig i'r gofynion ynghylch mynediad, cyhoeddi ac arolygu a nodir yn Rhan VA o Ddeddf 1972.

**Adran 15 – Cynnal cyfarfodydd: pa mor aml**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr, ond caiff gyfarfod yn amlach na hynny. Yn ychwanegol, rhaid i'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y dylai wneud hynny, neu fod traean o leiaf o'i aelodau yn galw am gyfarfod yn y modd a nodir.

**Adran 16 - Cyflawni swyddogaethau**

Mae'n cyfyngu ar y swyddogaethau y caiff y pwyllgor gwasanaethau democrataidd eu harfer i'r rhai a nodir yn y bennod hon o'r mesur; rhaid i'r pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgorau) roi sylw i unrhyw ganllawiau y caiff Gweinidogion Cymru eu dyroddi ar gyflawni swyddogaethau.

**Adran 17 - Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod**

Bydd aelodaeth cynghorydd o bwyllgor (neu is-bwyllgor) gwasanaethau democrataidd yn peidio os bydd y cynghorydd hwnnw'n peidio â bod yn aelod o'r cyngor, ond ni effeithir arno os yw aelodaeth y cynghorydd o'r cyngor wedi peidio am fod tymor ei swydd fel cynghorydd wedi dirwyn i ben a'i fod yn cael ei ailethol yn yr etholiadau nesaf (mae hyn yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu'r pwyllgor/is-bwyllgor gwasanaethau democrataidd).

**Adran 18 - Adroddiadau ac argymhellion gan bennaeth y gwasanaethau democrataidd**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i bennaeth y gwasanaethau democrataidd anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhellion a luniwyd ganddo am y materion staffio sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd at bob aelod o'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd. Rhaid cynnal cyfarfod o'r pwyllgor i ystyried adroddiadau neu argymhellion o'r fath cyn pen tri mis ar ôl iddynt gael eu hanfon at aelodau'r pwyllgor.

**Adran 19 - Adroddiadau ac argymhellion gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd**

Os bydd pwyllgor gwasanaethau democrataidd yn llunio unrhyw adroddiad neu'n gwneud argymhellion ynghylch darparu staff, llety ac adnoddau eraill sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, rhaid anfon copi at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Rhaid cynnal cyfarfod o'r cyngor llawn i ystyried yr adroddiadau neu'r argymhellion hynny cyn pen tri mis ar ôl iddynt gael eu hanfon at aelodau o'r awdurdod.

**Adran 20 - Swyddogaethau awdurdod lleol nad ydynt i'w dirprwyo**

Mae'r adran hon yn sicrhau na chaiff y cyngor llawn ddirprwyo’r dyletswyddau a'r swyddogaethau a roddir iddo gan y Mesur hwn parthed: dynodi pennaeth y gwasanaethau democrataidd; darparu staff, llety ac adnoddau eraill iddo; penodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd, ei aelodau (gan gydymffurfio â'r darpariaethau) a'i gadeirydd; penderfynu y dylai pwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod; ac ystyried adroddiad neu argymhellion a luniwyd gan y pwyllgor gwasanaethau democrataidd.

**Adran 21 - Swydd pennaeth gwasanaethau democrataidd i fod yn swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol**

Mae'n diwygio adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i gynnwys pennaeth gwasanaethau democrataidd fel swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol. Effaith hyn yw atal deiliad y swydd rhag cael unrhyw rôl wleidyddol weithgar naill ai y tu mewn neu y tu allan i'r gweithle. Caiff cyflogeion o dan gyfyngiadau gwleidyddol eu hanghymhwyso’n awtomatig rhag ymgeisio am swydd etholedig neu ddal swydd o'r fath ac mae'n rhaid i'r cyfyngiadau hyn gael eu hymgorffori fel telerau yng nghontract cyflogi'r cyflogai o dan adran 3 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Cyfyngiadau Gwleidyddol) 1990.

**Adran 22 – Ystyr “aelod”**

Mae'n darparu bod cyfeiriad, yn y Rhan hon o’r Mesur, at aelod etholedig yn cynnwys aelod o weithrediaeth awdurdod lleol ond nid yw’n cynnwys maer etholedig.

## *Rhan 2 - Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol*

Mae'r darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur yn rhoi ar gael i aelodau o brif gynghorau (gan gynnwys aelodau o'r weithrediaeth) hawl i absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu ac absenoldeb rhiant (“absenoldeb teuluol”) i roi cymorth i gynghorwyr a'r rhai sydd am ymgeisio mewn etholiad ac y gall fod ganddynt gyfrifoldebau teuluol.

### Adran 23 - Yr hawl i absenoldeb teuluol

Mae'n sefydlu hawl i gynghorwyr prif gyngor gael absenoldeb teuluol ac yn nodi'r mathau gwahanol o absenoldeb teuluol.

### Adran 24 - Absenoldeb mamolaeth

Mae'n rhoi hawl i gynghorydd gael cyfnod o hyd at 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth os yw'r cynghorydd wedi geni plentyn ac yn bodloni amodau rhagnodedig. Mae'r adran yn darparu i'r manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth gael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth.

### Adran 25 - Absenoldeb newydd-anedig

Mae'n rhoi hawl i gynghorydd gael hyd at ddwy wythnos o absenoldeb yn achos cynghorydd sy'n bodloni amodau mewn perthynas ag “absenoldeb newydd-anedig”. Rhaid cymryd yr absenoldeb o fewn cyfnod o 56 o ddiwrnodau gan ddechrau gyda genedigaeth plentyn y mae gan y cynghorydd berthynas ag ef yn y modd a nodir mewn amodau rhagnodedig. Mae'r adran yn darparu bod y manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb newydd-anedig yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth ac adlewyrchu unrhyw newidiadau o’r fath.

### Adran 26 – Absenoldeb mabwysiadydd

Mae'r adran hon yn rhoi hawl i gynghorydd sy'n bodloni amodau rhagnodedig gael cyfnod o absenoldeb pan fo'r cynghorydd hwnnw (p'un ai'n unigol neu ar y cyd â pherson arall) yn mabwysiadu plentyn. Bydd y cyfnod o absenoldeb yn gyfnod o hyd at ddwy wythnos. Mae'r adran yn darparu bod y manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb mabwysiadydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth ac adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

**Adran 27 - Absenoldeb mabwysiadu newydd**

Mae'r adran hon yn rhoi hawl i gynghorydd gael cyfnod o absenoldeb os partner person sydd i fabwysiadu plentyn yw'r cynghorydd hwnnw. Mae absenoldeb mabwysiadu newydd ar gael i berson at ddibenion gofalu am blentyn sydd wedi ei fabwysiadu neu roi cymorth i'r person sydd i fabwysiadu'r plentyn. Mae rheoliadau i osod yr amodau y mae'n rhaid i berson eu bodloni ynglŷn â'i berthynas â pherson sydd i fabwysiadu plentyn a'i berthynas â'r plentyn sydd i'w leoli ar gyfer ei fabwysiadu er mwyn cymhwyso ar gyfer absenoldeb mabwysiadu newydd. Bydd y cyfnod o absenoldeb yn gyfnod o hyd at ddwy wythnos. Mae'r adran yn darparu bod y manylion sy'n ymwneud ag absenoldeb mabwysiadu newydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau, a thrwy hynny mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y drefn ehangach ym maes cyflogaeth ac adlewyrchu unrhyw newidiadau o'r fath.

**Adran 28 - Absenoldeb rhiant**

Mae'n rhoi hawl i gynghorydd gael cyfnod o absenoldeb o hyd at dri mis os oes gan gynghorydd gyfrifoldebau dros blentyn neu os yw'n disgwyl cael cyfrifoldebau o'r fath ("absenoldeb rhiant"). Mae'r adran yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau sy'n nodi manylion absenoldeb rhiant.

**Adran 29 – Rheoliadau atodol**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi manylion a gofynion gweinyddol penodol ar gyfer awdurdodau lleol ac aelodau o awdurdodau lleol mewn cysylltiad â'r hawliau newydd a gyflwynir gan y darpariaethau yn y Rhan hon.

**Adran 30 - Canllawiau**

Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar hawliau i absenoldeb teuluol y mae'n rhaid i brif gynghorau roi sylw iddynt.

**Adran 31 - Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972**

Mae'n diwygio adran 85 o Ddeddf 1972 fel na fydd cyfnod o "absenoldeb teuluol" (fel y darperir ar ei gyfer gan y Mesur hwn), ynddo'i hun, yn peri i

gynghorydd fod yn agored i ofyniad iddo adael ei swydd yn rhinwedd y ffaith nad yw wedi mynychu cyfarfodydd cyngor am chwe mis.

Mae'r adran 85 bresennol o Ddeddf 1972 yn dweud y bydd cynghorydd yn peidio â dal ei swydd os bydd yn methu â mynychu unrhyw un neu rai o gyfarfodydd ei awdurdod yn ystod cyfnod o chwe mis yn olynol heb reswm a gymeradwywyd gan yr awdurdod. Mae'r is-adran newydd (3C), a fewnosodir yn adran 85 o Ddeddf 1972, yn sicrhau na chaiff absenoldeb teuluol ei gymryd i ystyriaeth i gyfrifo cyfnod absenoldeb o chwe mis. Mae'r adran newydd (3D) yn darparu y ceir cymryd i ystyriaeth, wrth gyfrifo'r cyfnod absenoldeb o chwe mis, y cyfnodau yn union cyn ac yn union ar ôl y cyfnod o absenoldeb teuluol.

**Adran 31A Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000**

Mae’n diwygio adran 11 o Ddeddf 1972 i ganiatáu i derfyn statudol ar faint gweithrediaeth awdurdod lleol gael ei godi i ganiatáu i rywun gael ei benodi dros dro yn lle aelod gweithredol sy’n cymryd abesnoldeb teuluol yn ôl y ddarpariaeth yn Rhan 2 o’r Mesur hwn. Darpariaeth alluogi yw hon felly nid oes rhaid penodi aelod ychwanegol.

**Adran 32 – Dehongli Rhan 2**

Mae'n darparu dehongliad o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Mesur.

## *Rhan 3 – Trefniadau Llywodraethu sydd ar gael*

**Adran 33 - Diddymu gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor**

Mae’n diwygio Deddf 2000 i ddileu opsiwn y weithrediaeth maer a rheolwr cyngor o’r trefniadau gweithrediaeth sydd ar gael yng Nghymru.

**Adran 34 –Awdurdodau i roi trefniadau gweithrediaeth yn lle trefniadau amgen**

Mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru sy’n gweithredu trefniadau amgen (y cyfeirir atynt hefyd fel y “Pedwerydd Opsiwn”) i roi’r gorau i wneud hynny ac i ddechrau gweithredu yn lle hynny ffurf a ganiateir, sef ffurf ar drefniadau gweithrediaeth. Mae’r weithdrefn ar gyfer y trosiad o drefniadau amgen i drefniadau gweithrediaeth wedi ei nodi yn Atodlen 1 i’r Mesur hwn y mae’r adran hon yn rhoi ei heffaith iddo. Wrth gydymffurfio â’r adran hon a’r Atodlen, bydd yn rhaid i unrhyw awdurdod lleol y mae arno angen roi’r newid ar waith gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru. Mae paragraff 13(2) o Ran 2 o’r Atodlen yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu, drwy orchymyn, i’r awdurdod lleol roi’r gorau i weithredu

trefniadau amgen a dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol ag adran 34.

**Adran 35 - Darpariaeth ganlyniadol etc**

Mae'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau yn Neddf 2000 i adlewyrchu'r ffaith bod y trefniadau amgen presennol yn cael eu dileu yng Nghymru. Nid oes angen mwyach yr adran 29(3) bresennol o Ddeddf 2000 sy'n caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru newid o drefniadau gweithrediaeth i drefniadau amgen; mae'r newidiadau eraill yn dileu cyfeiriadau at weithdrefnau mewn perthynas â gweithredu trefniadau amgen a fydd wedi darfod amdanynt pan gaiff yr opsiwn hwnnw ei ddileu.

Mae is-adrannau (5) – (8) yn caniatáu i awdurdod lleol sydd ar hyn o bryd yn gweithredu trefniadau amgen barhau i wneud hynny ar ôl i'r darpariaethau yn y Mesur ddod i rym. Effaith hynny yw caniatáu cyfnod trosiannol i awdurdod sy'n gweithredu trefniadau amgen; maent yn cysylltu â'r gofyniad ym mharagraff 2(4) o Atodlen 1 i'r Mesur hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol fod wedi newid o drefniadau amgen i drefniadau gweithrediaeth cyn pen chwe mis ar ôl y dyddiad y daw adran 34 yn y Mesur hwn i rym.

## *Rhan 4 – Newidiadau mewn Trefniadau Gweithrediaeth*

<u>Pennod 1 – Mabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth</u>

**Adran 36 – Y pŵer i fabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth**

Mae'n gwneud darpariaeth newydd i symleiddio'r weithdrefn i awdurdod lleol sydd eisoes yn gweithredu un ffurf ar drefniadau gweithrediaeth a ganiateir newid i ffurf arall ar drefniadau gweithrediaeth, ond yn ei alluogi i wneud newid o'r fath unwaith yn unig rhwng etholiadau cyffredin. Mae'r gweithdrefnau newydd yn golygu na fydd angen mwyach i awdurdod ymgynghori'n ffurfiol ag etholwyr lleol na llunio cynigion wrth gefn.

**Adran 37 – Y cynigion ar gyfer mabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth**

**Adran 38 – Cynnwys y cynigion**

**Adran 39 - Refferenda**

**Adran 40 – Yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith: dim refferendwm**

**Adran 41 – Yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith: refferendwm**

**Adran 42 – Cyhoeddusrwydd i'r cynigion**

**Adran 43 - Rhoi'r cynigion ar waith**

**Adran 44 – Camau gweithredu os yw'r newid yn cael ei wrthod mewn refferendwm**

Mae'r adrannau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdod lleol sydd am newid o un ffurf ar drefniadau gweithrediaeth i un arall, ac yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i'r awdurdod hwnnw eu dilyn, a chynnwys y cynigion ar gyfer y newid y mae'n rhaid iddo eu paratoi a'u hanfon at Weinidogion Cymru (gweler adran 37).

Os yw'r newid arfaethedig yn newid i ffurf ar drefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys maer etholedig, rhaid i'r cynigion gynnwys darpariaeth ar gyfer refferendwm o etholwyr llywodraeth leol yn yr awdurdod o dan sylw i gymeradwyo'r newid arfaethedig, ond rhaid peidio â chynnal refferendwm os yw'r newid y newid i unrhyw ffurf arall ar drefniadau gweithrediaeth (adran 39). Mae gofyniad i gynnal refferendwm yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad yn adran 45 o Ddeddf 2000 na chaniateir i refferendwm ar drefniadau gweithrediaeth gael ei gynnal fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd. Mae'r amserlenni ar gyfer rhoi ar waith newid y cytunwyd arno wedi eu nodi yn adrannau 40 a 41. Os yw awdurdod yn cymeradwyo newid nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth ar ei gyfer mewn refferendwm, rhaid iddo roi cyhoeddusrwydd i'r newid arfaethedig yn y modd a nodir yn adran 42.

Os oes rhaid cynnal refferendwm a bod y newid yn cael ei wrthod gan y pleidleiswyr, ni chaiff yr awdurdod roi'r newid ar waith (adran 43). Rhaid iddo ddilyn y weithdrefn yn adran 44 a pharhau i weithredu ei drefniadau gweithrediaeth presennol.

**Adran 45 – Newid mewn trefniadau gweithrediaeth y mae'n ofynnol ei gymeradwyo mewn refferendwm**

Mae'r adran hon yn darparu ei bod yn ofynnol i newid mewn trefniadau gweithrediaeth gael ei gymeradwyo mewn refferendwm os yw naill ai'r model presennol neu'r model arfaethedig yn weithrediaeth maer a chabinet.

**Adran 46 – Dehongli**

Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bennod hon o'r Mesur.

<u>Pennod 2 – Amrywiadau eraill ar drefniadau gweithrediaeth presennol</u>

Pennod 3 - Atodol

**Adran 47 – Y pŵer i amrywio'r ffurf bresennol ar weithrediaeth**

**Adran 48 – Y cynigion ar gyfer amrywio'r ffurf ar weithrediaeth**

**Adran 49 – Cynnwys y cynigion**

**Adran 50 – Rhoi’r cynigion ar waith**

**Adran 51 – Y pwerau sy'n caniatáu amrywio pwerau gweithrediaeth**

Mae’r adrannau hyn yn cyflwyno darpariaeth newydd i alluogi awdurdod lleol sy’n gweithredu trefniadau gweithrediaeth i amrywio’r trefniadau fel eu bod yn wahanol i’r trefniadau presennol ond yn dal i weithredu â’r un model.

**Adran 52 – Ffurfiau ar weithrediaeth**

Mae’n egluro mai at ddibenion y Rhan hon y mae dwy ffurf ar weithrediaeth yng Nghymru.

**Adran 53 – Darpariaeth ganlyniadol etc**

Mae’r adran hon yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i adrannau o Ddeddf 2000 sy’n ymwneud â’r Rhan hon o’r Mesur. Mae Adran 30 o Ddeddf 2000 yn nodi’r gweithdrefnau presennol ar gyfer newid trefniadau gweithrediaeth, sydd wedi eu disodli gan y darpariaethau yn y Rhan hon ynghylch newid trefniadau gweithrediaeth a’u hamrywio. Diben mewnosod yr adran 33ZA newydd yw cyfeirio darllenwyr at y darpariaethau ar gyfer newid trefniadau llywodraethu yng Nghymru yn y rhan hon o’r Mesur. Mae’r diwygiad i adran 45 o Ddeddf 2000 yn cydnabod y diffiniad o refferendwm i gynnwys y darpariaethau a fewnosodir gan y Mesur hwn.

**Atodlen 1 – Newid trefniadau amgen yn drefniadau gweithrediaeth**

Mae adran 34 yn rhoi effaith i’r Atodlen hon sy’n nodi’n fanwl y weithdrefn y bydd yn rhaid i awdurdod lleol, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth, ei dilyn pan fydd yn gwneud y newid i drefniadau gweithrediaeth fel sy’n ofynnol yn adran 34 o’r Mesur hwn. Mae paragraff 13(2) o Ran 3 o’r Atodlen yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer diofyn i’w gwneud yn ofynnol drwy orchymyn i awdurdod lleol roi’r gorau i weithredu trefniadau amgen ac i ddechrau gweithredu ffurf benodedig ar drefniadau gweithrediaeth pan fo awdurdod yn methu â gwneud y newid yn unol ag adran 34.

## *Rhan 5 – Swyddogaethau Awdurdod Lleol: Cyflawni gan Bwyllgorau a Chynghorwyr*

**Adran 54 - Yr ardal a gwmpesir ac aelodaeth**

**Adran 55 - Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr**

**Adran 56 - Darpariaeth ganlyniadol**

Mae'r adrannau hyn yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gael mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y caniateir i swyddogaethau gweithrediaeth yr awdurdod hwnnw gael eu cyflawni. Mae adran 15 o Ddeddf 2000 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â chyflawni swyddogaethau ar gyfer gweithrediaeth arweinydd a chabinet yng Nghymru. Mae adran 15(2) o Ddeddf 2000 yn darparu y caniateir i unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb y weithrediaeth gael eu cyflawni gan (a) y weithrediaeth, (b) unrhyw aelod o'r weithrediaeth, (c) unrhyw bwyllgor i'r weithrediaeth a (d) unrhyw swyddogion i'r awdurdod.

Mae adran 54 o'r Mesur yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol yn adran 18 o Ddeddf 2000 i roi i awdurdodau fwy o hyblygrwydd ynghylch aelodaeth o bwyllgor ardal sy'n cyflawni swyddogaethau penodedig yn ei ran ef o ardal yr awdurdod. Ar hyn o bryd, mae pwyllgor ardal yn bodloni'r amodau os yw'r aelodau o'r pwyllgor sy'n gynghorwyr wedi eu hethol ar gyfer adrannau etholiadol sy'n dod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y rhan honno. Yn ôl yr amodau presennol ar gyfer ardal, rhaid i'r ardal a gwmpesir gan y pwyllgor ardal beidio â bod yn fwy na dwy ran o bump o ardal gyfan yr awdurdod a phoblogaeth y rhan honno yn yr un modd.

Mae adran 55 yn gwneud darpariaeth newydd i alluogi aelod o awdurdod lleol sy'n cynrychioli'r weithrediaeth neu'r awdurdod ar gorff allanol i wneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb gweithrediaeth yr awdurdod, ar yr amod bod y weithrediaeth neu'r awdurdod wedi cyflawni'r swyddogaethau hynny'n ffurfiol i'r aelod. Nid oes unrhyw bŵer i ddarparu ar gyfer hynny ar hyn o bryd.

Mae adran 56 yn gwneud newidiadau canlyniadol i Ddeddf 1972 a Deddf 2000. Mae'r diwygiadau i Ddeddf 1972 yn darparu bod aelodau sy'n arfer swyddogaethau yn gwneud cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau ac yn eu darparu i'r awdurdod. Mae'r newidiadau i Ddeddf 2000 yn caniatáu i swyddogaethau gweithrediaeth gael eu cyflawni'n unol â'r darpariaethau newydd ynghylch aelodau ac i'r aelodau hynny gael eu galw gerbron pwyllgor trosolwg a chraffu i ateb cwestiynau am y swyddogaethau hynny.

## Rhan 6 - Trosolwg a Chraffu

Pennod 1 – Y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

### Adran 57 – Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i weinidogion Cymru ddarparu drwy reoliad y caiff dau brif gyngor neu ragor sefydlu un neu ragor o gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu (CTChau), a threfnu i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau lunio adroddiadau neu wneud argymhellion i unrhyw un neu rai o'r prif gynghorau sy'n sefydlu'r pwyllgor, ac i weithrediaethau'r cynghorau hynny.

Caiff y CTChau lunio adroddiadau a gwneud argymhellion am unrhyw fater, ond nid ynghylch materion trosedd ac anhrefn, y gallai pwyllgor trosedd ac

anhrefn lunio adroddiad neu wneud argymhellion amdanynt yn rhinwedd adran 19(1)(b) neu (3)(a) o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006.

Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth i CTChau gael pwerau sy'n cyfateb i rai pwyllgorau trosolwg a chraffu nad ydynt yn gyd-bwyllgorau, yn y modd a nodir mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ac fel y darperir ar ei gyfer yn y Mesur hwn.

**Adran 58 - Craffu ar bersonau dynodedig**

**Adran 59 – Hysbysu personau dynodedig am adroddiad neu argymhellion**

Mae'r adrannau hyn yn cryfhau safle pwyllgorau trosolwg a chraffu (ac yn sgil hynny, safle CTChau) drwy adeiladu ar y pŵer presennol i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion yn adran 21(2)(e) o Ddeddf 2000, fel ei bod yn ofynnol i bwyllgorau graffu a chyflwyno adroddiad ar faterion sy'n ymwneud â "pherson dynodedig" (gweler adran 60). Y prif newidiadau eraill yw pwerau newydd ar gyfer pwyllgor: ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi (gofyniad y mae'n rhaid cydymffurfio ag ef); i anfon copi o adroddiad neu argymhellion at berson dynodedig; ac i ofyn i'r person hwnnw roi sylw i'r adroddiad neu'r argymhellion.

**Adran 60 - Personau dynodedig**

Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi drwy orchymyn y personau hynny neu'r categorïau hynny o bersonau ("person dynodedig") y caniateir i bwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol graffu ar eu cyfrifoldebau neu eu swyddogaethau. Effaith yr amodau yn is-adrannau (3) i (5) yw cyfyngu'r pŵer dynodi i bersonau sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau, hyd yn oed os nad yw'r gwaith darparu hwnnw'n cael ei gyflawni'n uniongyrchol gan y personau hynny.

**Adran 61 - Rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd**

Mae'n cyflwyno darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i alluogi'r cyhoedd i fynegi eu barn mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor.

**Adran 62 - Cyfeirio materion at bwyllgor trosolwg a chraffu etc**

Mae'n diwygio adran 21A o Ddeddf 2000 i alluogi cynghorydd prif gyngor yng Nghymru i gyfeirio mater at bwyllgor trosolwg a chraffu sy'n ymwneud â chyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r cyngor neu sy'n effeithio ar y cyfan neu ran o'r ardal etholiadol y mae'r cynghorydd yn ei chynrychioli. Rhaid i'r pwyllgor ystyried y mater ac adrodd yn ôl i'r aelod.

**Adran 63 – Y ddyletswydd i ymateb i bwyllgor trosolwg a chraffu**

Mae'n gymhwyso o ran Cymru y ddarpariaeth yn adran 21B o Ddeddf 2000 sy'n nodi'r camau y mae'r rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu eu cymryd i hysbysu'r awdurdod neu'r weithrediaeth am adroddiad y mae wedi ei lunio a'r camau y mae'n rhaid i'r awdurdod neu'r weithrediaeth eu cymryd i ymateb.

**Adran 64 - Darpariaeth ganlyniadol i adrannau 62 a 63**

Mae'n estyn y diffiniad o wybodaeth sy'n esempt rhag cael ei chyhoeddi mewn adroddiadau etc pwyllgor trosolwg a chraffu i gynnwys yr hyn sydd wedi ei esemptio o dan adran 186 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006.

**Adran 65 - Y ddarpariaeth mewn rheolau sefydlog ynghylch penodi personau i gadeirio pwyllgorau**

**Adran 66 - Yr adegau pan fo penodiadau i'w gwneud gan bwyllgor**

**Adran 67 – Yr adegau pan fo penodiadau i'w gwneud gan grŵp nad yw'n grŵp gweithrediaeth**

**Adran 68 - Sut y mae penodiadau i'w gwneud mewn achosion eraill**

Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud darpariaeth yn ei reolau sefydlog ar gyfer penodi cadeiryddion i bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod (y "weithdrefn benodi"). Mae'r adrannau'n nodi hefyd pwy fydd yn penodi'r cadeiryddion, penderfyniad sy'n dibynnu ar nifer y grwpiau gwleidyddol sydd â chynrychiolwyr yn yr awdurdod hwnnw a chyfansoddiad gweithrediaeth yr awdurdod. Bydd y pwyllgorau eu hunain yn penodi eu cadeiryddion o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 66; bydd y grŵp gwleidyddol anweithredol yn gwneud hynny os yr amgylchiadau yn adran 67 yw'r amgylchiadau hynny. Mae adran 68 yn cyflwyno'r trefniadau a fydd yn gymwys mewn achosion eraill.

**Adran 69 - Y penodiadau sydd i'w gwneud gan grwpiau gwleidyddol**

**Adran 70 - Methiant i wneud penodiadau yn unol ag adran 69**

**Adran 71 - Newidiadau yng nghyfansoddiad gweithrediaeth**

**Adran 72 - Swyddi gwag achlysurol ymhlith cadeiryddion pwyllgor**

**Adran 73 – Yr awdurdod yn penderfynu ar ddarpariaeth benodi**

Mae'r adrannau hyn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer awdurdodau pan na fo adrannau 66 na 67 yn gymwys, sef yn gyffredinol yr awdurdodau hynny y mae eu haelodaeth wedi ei rhannu rhwng nifer o grwpiau gwleidyddol.

Nod bras yr adrannau hyn yw'r gofyniad i awdurdodau lleol wneud darpariaeth ar gyfer dyrannu nifer y cadeiryddion pwyllgorau craffu yn gyfrannol, ynghyd â'r amod ychwanegol na chaiff y grŵp (neu'r grwpiau) gwleidyddol sy'n ffurfio gweithrediaeth y cyngor ddyrannu mwy o gadeiryddion craffu i'w grŵp (grwpiau) na'r nifer sy'n gyfrannol i'w gynrychiolaeth (gyfun) yn y cyngor llawn (h.y. yr holl aelodau, p'un a ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol ai peidio). Os nad yw'r hawl i gadeiryddion y grŵp (grwpiau) yn y weithrediaeth yn rhif cyfan, mae'r nifer y mae gan y grŵp (grwpiau) hawl i'w gael i'w dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion craffu i grwpiau gwleidyddol sy'n ffurfio'r weithrediaeth i'w cael yn is-adran (3) newydd adran 69.

Mae gweddill y cadeiryddion craffu i'w dyrannu wedyn i grwpiau gwleidyddol yr wrthblaid, a dyraniad pob grŵp gwrthblaid i fod yn gyfrannol i gryfder y grŵp hwnnw o ran nifer o fewn cyfanswm cyfunol y grwpiau gwrthblaid (is-adran (4) o adran 69). Ni ddylai'r broses o gyfrifo cadeiryddion craffu ar gyfer grwpiau gwrthblaid gymryd i ystyriaeth gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o grwpiau gwleidyddol yn yr awdurdod.

Mae adran 70 yn nodi beth sydd i ddigwydd os na chaiff unrhyw gadeiryddion pwyllgor eu penodi'n unol ag adran 69. Ni chaiff grŵp (grwpiau) yr weithrediaeth gael mwy o benodiadau. Caiff y grŵp (grwpiau) gwrthblaid sydd wedi llwyr ddefnyddio eu dyraniad cychwynnol o benodiadau gael penodiadau ychwanegol yn gyfrannol i nifer eu penodiadau cychwynnol. Os yw pob un o'r grwpiau gwrthblaid wedi methu â llwyr ddefnyddio ei ddyraniad cychwynnol o benodiadau neu os oes gan grŵp gwrthblaid hawl i benodiad ychwanegol ond nad yw'n ei ddefnyddio, bydd y pŵer penodi yn yr achosion hyn yn dod i ran y pwyllgorau.

Os bydd cyfansoddiad y weithrediaeth yn newid, rhaid ailedrych ar ddyraniad y cadeiryddion craffu ac efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r dyraniadau, fel a nodir yn adran 71. Mae'r weithdrefn ar gyfer sefyllfa pan fo swydd cadeirydd craffu yn dod yn wag wedi ei nodi yn adran 72.

Mae adran 73 yn caniatáu i awdurdod lleol hepgor y gofyniad i ddilyn y gweithdrefnau uchod os cytunir ar weithdrefn benodi amgen gan bob grŵp gwleidyddol, ar yr amod na fydd y weithdrefn amgen yn arwain at y canlyniad bod y blaid fwyafrifol yn dyrannu nifer mwy o gadeiryddion craffu o'u plaid hwy na'r hyn a fyddai gweithdrefn 69 yn ei ganiatáu.

### Adran 74 - Darpariaeth atodol a dehongli

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn benodi ar gyfer dyrannu cadeiryddion pwyllgorau craffu ac i ddyroddi canllawiau neu gyfarwyddiadau. Mae'r adran hefyd yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn adrannau 65 i 74 ac yn mewnosod is-adran (10A) newydd yn adran 21 o Ddeddf 2000 i gyfeirio darllenwyr at adrannau 65 i 74 o'r Mesur.

**Adran 75 – Y pwyllgorau: cyfyngu ar nifer yr aelodau cyfetholedig**

**Adran 76 - Yr is-bwyllgorau: cyfyngu ar nifer yr aelodau cyfetholedig**

**Adran 77 - Pleidleisio gan aelodau cyfetholedig**

**Adran 78 - Is-bwyllgorau: cydbwysedd gwleidyddol**

**Adran 79 - Canllawiau a chyfarwyddiadau ynghylch cyfethol**

Mae'r adrannau hyn: yn pennu bod y nifer uchaf a ganiateir o aelodau cyfetholedig ar bwyllgorau trosolwg a chraffu yn draean o aelodaeth gyfan y pwyllgor (adran 75); yn ei gwneud yn ofynnol na chaiff is-bwyllgor i bwyllgor trosolwg a chraffu fod wedi ei gyfansoddi'n llwyr o aelodau cyfetholedig (adran 76); yn caniatáu i awdurdod lleol roi i aelodau cyfetholedig o bwyllgorau ac is-bwyllgorau trosolwg a chraffu hawliau pleidleisio (adran 77); yn dileu'r gofyniad i is-bwyllgorau trosolwg a chraffu fod yn ddarostyngedig i'r rheolau am gydbwysedd gwleidyddol, ar yr amod bod aelodau cyfetholedig a bod gan o leiaf un ohonynt hawliau pleidleisio (adran 78); ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddyd ar gyfethol a ddyroddir gan Weinidogion Cymru (adran 79).

**Adran 80 – Blaen-gynlluniau a gwybodaeth arall am benderfyniadau**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi blaen-gynlluniau pwyllgorau ac is-bwyllgorau trosolwg a chraffu.

**Adran 81 - Gwahardd pleidleisio o dan gyfarwyddyd chwip plaid a datgan cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid**

Mae'n gwahardd defnyddio chwip mewn cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu. Mae'r adran yn nodi gweithdrefn ar gyfer datgan, penderfynu a chofnodi chwip plaid gwaharddedig mewn cyfarfodydd pwyllgor craffu a chanlyniadau rhoi chwip plaid gwaharddedig

**Adran 82 - Canllawiau a chyfarwyddiadau**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau neu roi cyfarwyddiadau ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu.

**Adran 83 - Dehongli'r Bennod hon**

Mae'r adran hon yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bennod hon.

Pennod 2 - Pwyllgorau archwilio

**Adran 84 - Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio**
**Adran 85 - Aelodaeth**
**Adran 86 - Trafodion etc**
**Adran 87 - Cyfarfodydd: pa mor aml i'w cynnal**
**Adran 88 - Cyflawni swyddogaethau**
**Adran 89 - Terfynu aelodaeth aelod pan fydd yn peidio â bod yn aelod o awdurdod**
**Adran 90 - Dehongli etc**

Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benodi pwyllgor archwilio i adolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â'r rhain. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofyniad statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru gael pwyllgor o'r fath

Mae'r adrannau yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau, aelodaeth, cadeirydd, trafodion, pa mor aml i gynnal cyfarfodydd, cyflawni swyddogaethau a therfynu aelodaeth. Mae adran 90 yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn y Bennod hon.

## *Rhan 7 –Cymunedau a Chynghorau cymuned*

Mae'r adrannau ym Mhenodau 1 a 2 o Ran 7 o'r Mesur yn adolygu'r trefniadau a nodir yn Neddf 1972 i alw a threfnu cyfarfodydd cymunedol a phleidleisio cymunedol yng Nghymru i'w gwneud yn fwy cynrychioliadol o'r farn leol.

Pennod 1 - Cyfarfodydd cymunedol a phleidleisio cymunedol

**Adran 91 - Cynnull cyfarfodydd cymunedol gan etholwyr llywodraeth leol**

Mae adran 91 yn diwygio'r ddarpariaeth bresennol ym mharagraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 i gynnull cyfarfodydd cymunedol.

Mae is-adran (1) o'r adran newydd 91 yn ailddeddfu'r darpariaethau presennol ym mharagraff 30(1) o Atodlen 12 i'r graddau y maent yn caniatáu, mewn cymunedau a chanddynt gyngor cymuned, i gyfarfod cymunedol gael ei gynnull gan gadeirydd y cyngor neu gan ddau gynghorydd sy'n cynrychioli'r gymuned ar y cyngor.  Mae'r sbardunau hyn dros gynnull cyfarfod cymunedol heb eu newid. Effaith is-adrannau 1(b) - (e) yw, pan fo cyfarfodydd cymunedol yn cael eu cynnull yn y ffordd hon, bod y gofynion presennol i roi hysbysiad cyhoeddus yn cael eu hailgymhwyso. Yn unol â hynny, os mater cyffredinol yw busnes y cyfarfod cymunedol, rhaid rhoi hysbysiad o saith niwrnod o leiaf; os y mater gerbron yw bodolaeth cyngor cymunedol neu grwpio cymuned â chymunedau eraill (h.y. yn unol ag adrannau 27A-27L o Ddeddf 1972 fel y'u

mewnosodir gan y Mesur) rhaid rhoi hysbysiad o ddeng niwrnod ar hugain o leiaf.

Ar ben hynny, mae'r diwygiad i baragraff 30(1) o Atodlen 12 yn dileu'r darpariaethau presennol sy'n caniatáu i gyfarfod cymunedol gael ei gynnull gan chwe etholwr llywodraeth leol (p'un a oes gan y gymuned o dan sylw gyngor cymuned ai peidio). Mae is-adran (2) o'r adran 91 newydd yn cyflwyno trothwyon newydd, sef 10% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned honno neu 50 o etholwyr, p'un bynnag o'r ddau sydd isaf.

### Adran 92 - Hysbysiad am gyfarfod cymunedol a gafodd ei gynnull gan etholwyr llywodraeth leol

Mae'n mewnosod paragraff 30B newydd yn Atodlen 12 i Ddeddf 1972 sy'n rhoi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'w darparu i alluogi'r cyngor lleol perthnasol i benderfynu a gafodd cyfarfod cymunedol ei gynnull yn briodol pan fo cynullwyr y cyfarfod yn etholwyr llywodraeth leol. Cyngor cymuned mewn cymunedau lle y mae cyngor cymuned yn bod a'r prif gyngor lle nad oes un yn bod yw'r cyngor lleol perthnasol y mae'n rhaid rhoi hysbysiad am gyfarfod cymunedol iddo.

Nodir yr wybodaeth y mae'n ofynnol i'w chynnwys mewn hysbysiad yn is-adrannau (2) - (7). Mae'r darpariaethau yn caniatáu i'r hysbysiad gael ei roi ar ffurf electronig i brif gyngor (ar yr amod ei fod yn bodloni'r gofynion technegol a osodir gan y prif gyngor o dan adran 93) ac i'r etholwyr sy'n cefnogi cynnull cyfarfod cymunedol i aros yn ddienw os cofrestrwyd hwy yn ddienw ar y gofrestr o etholwyr llywodraeth leol.

### Mae adran 93 - Y cyfleuster ar gyfer darparu hysbysiadau electronig am gynnull cyfarfodydd cymunedol

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor roi cyfleusterau ar gael er mwyn dosbarthu hysbysiadau am gyfarfodydd cymunedol yn electronig. Ar ben hynny, mae'n ofynnol i'r cyngor osod y gofynion ar gyfer cynllun hysbysiadau electronig, fel dilysu llofnod electronig, a rhoi cyhoeddusrwydd priodol i'r gofynion hynny.

### Adran 94 - Camau gweithredu ar ôl cael hysbysiad am gynnull gyfarfod cymunedol

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor sy'n cael yr hysbysiad y manylir arno yn adran 92 ystyried p'un a fodlonwyd y gofynion gosodedig a'r trothwy sbardun cychwynnol ai peidio. Os yw'r cyngor o'r farn iddynt gael eu bodloni, rhaid i'r cyngor rhoi hysbysiad cyhoeddus yn unol â'r adran newydd 95. Os yw'r cyngor o'r farn na fodlonwyd y gofynion, rhaid iddo roi hysbysiad i'r cynullwyr a datgan pam y mae o'r farn honno.

**Adran 95 - Hysbysiad cyhoeddus am gyfarfod cymunedol**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol, cyn pen deng niwrnod ar hugain ar ôl penderfynu bod y gofynion i gynnull cyfarfod cymunedol wedi eu bodloni, i'r cyngor perthnasol roi hysbysiad cyhoeddus y cynhelir y cyfarfod cymunedol.

Os mater cyffredinol yw busnes y cyfarfod cymunedol, rhaid rhoi hysbysiad o saith niwrnod o leiaf; os y mater gerbron yw bodolaeth cyngor cymunedol neu grwpio cymuned â chymunedau eraill (h.y. yn unol ag adrannau 27A-27L o Ddeddf 1972 fel y'u mewnosodir gan y Mesur), rhaid rhoi hysbysiad o ddeng niwrnod ar hugain o leiaf. Mae'r adran hefyd yn pennu manylion y mae'n ofynnol eu cynnwys yn yr hysbysiad a sut y dylid cyhoeddi'r hysbysiad.

**Adran 96 - Galw am bleidleisio cymunedol**

Mae'r adran hon yn rhoi yn lle paragraff 34(4) o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 ddarpariaeth sy'n codi'r trothwyon sy'n ofynnol er mwyn i gyfarfod cymunedol fynnu pleidleisio cymunedol. Mae'r trothwyon presennol yn ei gwneud yn ofynnol bod galw am bleidleisio yn cael ei gefnogi gan ddim llai na deg neu draean o'r etholwyr llywodraeth leol sy'n bresennol yn y cyfarfod cymunedol, p'un bynnag yw'r isaf. Yn eu lle, rhoddir mwyafrif o'r etholwyr llywodraeth leol sy'n bresennol, a'r mwyafrif hwnnw yn ffurfio 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned honno neu 150 o'r etholwyr, p'un bynnag yw'r lleiaf.

**Adran 97 - Hysbysiad sydd i'w roi gan y swyddog canlyniadau ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol**

Mae'n cyflwyno darpariaeth newydd sy'n gosod y weithdrefn hysbysu yn sgil pleidleisio cymunedol a sbardunwyd gan gyfarfod cymunedol a phan oedd mwyafrif o etholwyr oedd yn pleidleisio o blaid y cwestiwn a osodwyd. Nid oes rhaid cymhwyso'r gofynion hysbysu os oedd y pleidleisio ar gwestiwn o fath y byddai'n amhriodol i'r cyngor ymateb iddo a bod y math hwnnw wedi ei bennu mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru (yr is-baragraff 38A(2) newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 1972).

**Adran 98 - Penderfyniad swyddog monitro o ran y cyngor y mae'r pleidleisio'n ymwneud â'i swyddogaethau**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog monitro y rhoddwyd canlyniad y pleidleisio cymunedol iddo benderfynu, cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl cael hysbysiad, y cyngor y mae cwestiwn y pleidleisio yn ymwneud â'i swyddogaethau. Yna, rhaid i'r swyddog monitro roi hysbysiad, fel y'i nodir yn y paragraff newydd, i'r cyngor perthnasol cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.

**Adran 99 - Ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol gan gyngor cymuned**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned ystyried canlyniadau pleidleisio, yn dilyn hysbysiad o dan baragraff 38B newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 1972, mewn cyfarfod o'r cyngor.

**Adran 100 - Y camau gweithredu sydd i'w cymryd yn dilyn ystyriaeth gan gyngor cymuned o ganlyniadau pleidleisio cymunedol penodol**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor cymuned hysbysu cynullwyr y cyfarfod cymunedol a sbardunodd y pleidleisio am ba gamau gweithredu (os o gwbl) y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd mewn ymateb i'r pleidleisio. Mae is-baragraff 1(a) o baragraff 29A newydd o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 yn ei gwneud yn glir nad oes disgwyliad cyfreithiol y bydd y cyngor cymuned yn cymryd unrhyw gamau gweithredu mewn ymateb i'r pleidleisio. Dim ond pan fo'r pleidleisio cymunedol wedi ei sbarduno mewn cyfarfod cymunedol o etholwyr llywodraeth leol y mae angen cymryd y camau gweithredu hyn.

**Adran 101 - Prif gyngor yn ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol**

Mae'n cyflwyno adran 33B newydd i Ddeddf 1972 sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor, sydd wedi cael hysbysiad o dan baragraff 38B newydd, ystyried canlyniad y pleidleisio cymunedol a phenderfynu pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd. Mae'n ofynnol i'r cyngor, cyn pen dau fis ar ôl cael hysbysiad, gyflawni o leiaf un o'r camau gweithredu a nodir yn yr is-adran (4) newydd, ond caiff gyflawni mwy nag un.

**Adran 102 - Prif gyngor yn egluro'i ymateb i bleidleisio cymunedol**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor roi hysbysiad, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, am y camau gweithredu y mae wedi eu cymryd, ac o bosibl yn bwriadu eu cymryd, mewn ymateb i bleidleisio cymunedol. Mae'r adran hon yn nodi bod pwy all gael hysbysiad o'r fath, a hynny i’w benderfynu yn ôl yr amgylchiadau.

<u>Pennod 2 - Trefniadaeth Cymunedau a'u Cynghorau</u>

**Adran 103 - Diddymu darpariaethau presennol ynghylch sefydlu a diddymu cynghorau cymuned etc.**

Mae'n diddymu'r darpariaethau presennol yn adrannau 28 i 29B o Ddeddf 1972 sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau i sefydlu a diddymu cynghorau cymuned (gan gynnwys grwpiau o gymunedau), i wneud lle i’r darpariaethau newydd a nodir yn y Mesur hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried bod y darpariaethau presennol yn ddianghenraid o gymhleth a bod datblygiad cynghorau cymuned yn cael ei rwystro gan y trothwyon presennol sy'n gymwys i rai o'r gweithdrefnau i sefydlu neu ddiddymu cyngor cymuned. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod y trothwyon presennol i sefydlu

cyngor cymuned yn rhy uchel a bod y trothwyon ar gyfer diddymu cyngor cymuned yn rhy isel.

**Adran 104 - Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn i sefydlu cyngor cymuned**

Mae'n cyflwyno adran 27A newydd yn Neddf 1972 i osod yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn i sefydlu cyngor cymuned ar gyfer yr ardal. Mae'r is-adrannau (4) -(6) newydd yn ailddeddfu amodau sy'n gymwys o dan y darpariaethau presennol. Mae is-adrannau (2) a (3) newydd yn gostwng y trothwy ar gyfer cyfarfod cymuned sy'n pleidleisio i sefydlu cyngor cymunedol i'w gwneud yn ofynnol i 10% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned neu 150 o'r etholwyr (p'un bynnag o'r ddau sydd isaf) fod yn bresennol ac yn pleidleisio yn y cyfarfod. Y trothwy presennol yw 30% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned neu 300 o'r etholwyr (p'un bynnag o'r ddau sydd isaf).

**Adran 105 - Gorchmynion i sefydlu cynghorau cymuned ar wahân gyfer cymunedau**

Mae'n cyflwyno adran 27B newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd yn cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol i sefydlu cyngor cymuned ar wahân i ardal y gymuned.

**Adran 106 - Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn i ddiddymu ei gyngor cymuned ar wahân**

Mae'n cyflwyno adran 27C newydd yn Neddf 1972 i osod yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn i ddiddymu cyngor cymuned ar gyfer yr ardal sydd eisoes mewn bod. Mae'r is-adrannau (2) - (5) newydd yn ailddeddfu amodau sy'n gymwys o dan y darpariaethau presennol. Mae’r trothwy ar gyfer cyfarfod cymunedol yn pleidleisio i ddiddymu cyngor cymuned yn aros yn 30% o etholwyr llywodraeth leol y gymuned neu’n 300 o'r etholwyr (p'un bynnag o'r ddau sydd isaf) yn bresennol yn ac yn pleidleisio yn y cyfarfod. Mae is-adran (6) newydd yn cyflwyno trothwy newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf ddau draean o'r rheini sy'n pleidleisio yn y pleidleisio cymunedol yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu cyngor cymuned. Ar hyn o bryd, mae angen mwyafrif syml.

**Adran 107 - Gorchmynion i ddiddymu cynghorau cymuned ar wahân ar gyfer cymunedau**

Mae'n cyflwyno adran 27D newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i ddiddymu cyngor cymuned ar wahân i ardal y gymuned.

**Adran 108 - Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn grwpio ei gymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin**

Mae'n cyflwyno adran 27E newydd yn Neddf 1972 i osod yr amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn grwpio ei gymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin. Yr un yn y bôn yw'r darpariaethau â'r darpariaethau i sefydlu cyngor cymuned o dan yr adran 27A newydd, gyda'r amod ychwanegol yn is-adran (7) sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu gwneud ar y cyd â'r cymunedau eraill sydd ynghlwm yn y grwpio arfaethedig.

**Adran 109 - Gorchmynion yn grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin**

Mae'n cyflwyno adran 27F newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i grwpio cyngor cymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin.

**Adran 110 - Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn ychwanegu ei gymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cyffredin**

Mae'n cyflwyno adran 27G newydd yn Neddf 1972 i nodi’r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn ychwanegu ei gymuned at grŵp o gymunedau o dan gyngor cymuned cyffredin. Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydsyniad pob cymuned sydd ynghlwm yn y grwpio newydd arfaethedig gan gymhwyso'r un trothwyon ag a gyflwynir i sefydlu cyngor cymuned o dan yr is-adran 27A newydd.

**Adran 111 - Gorchmynion yn ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cyffredin**

Mae'n cyflwyno adran 27H newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cymuned cyffredin.

**Adran 112 - Pŵer cyngor dros grŵp o gymunedau i wneud cais am orchymyn yn diddymu'r grŵp**

Mae'n cyflwyno adran 27I newydd yn Neddf 1972 i nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyngor dros grŵp o gymunedau wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn diddymu'r grŵp. Yr un yn y bôn yw'r darpariaethau â'r darpariaethau i ddiddymu cyngor cymuned ar wahân o dan yr adran 27C newydd, gyda'r gofyniad bod pob cymuned yn y grŵp yn ystyried ac yn pleidleisio ar y cynnig ar wahân.

**Adran 113 - Gorchmynion yn diddymu grŵp o gymunedau**

Mae'n cyflwyno adran 27J newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyngor ar ran grŵp o gymunedau am orchymyn yn diddymu'r grŵp.

**Adran 114 - Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn gwahanu cymuned oddi wrth grŵp o gymunedau**

Mae'n yn cyflwyno adran 27K newydd yn Neddf 1972 i nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'r prif gyngor dros ei ardal am orchymyn yn gwahanu'r gymuned oddi wrth grŵp o gymunedau. Yr un yn y bôn yw'r darpariaethau â'r darpariaethau i ddiddymu cyngor cymuned ar wahân o dan yr adran newydd 27C.

**Adran 115 - Gorchmynion yn gwahanu cymunedau oddi wrth grŵp o gymunedau**

Mae'n cyflwyno adran 27L newydd yn Neddf 1972 i nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid i brif gyngor eu cymryd pan fydd wedi cael cais oddi wrth gyfarfod cymunedol am orchymyn i wahanu'r gymuned oddi wrth grŵp o gymunedau sydd eisoes mewn bod.

**Adran 116 - Pŵer Gweinidogion Cymru i newid trothwy pleidleisio mewn cysylltiad â threfniadaeth cynghorau cymuned**

Mae'n cyflwyno adran 27M newydd yn Neddf 1972 i alluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i newid y trothwyon ar gyfer y gweithdrefnau sefydlu a diddymu amrywiol a gyflwynir gan y Mesur hwn a thrwy hynny eu galluogi i wneud newidiadau yng ngoleuni profiad cymhwyso'r trothwyon newydd.

**Adran 117 - Trefniadaeth cymunedau a'u cynghorau: diwygiadau canlyniadol**

Mae'n diwygio'r ddarpariaeth bresennol i adlewyrchu'r ffaith bod amryw o adrannau newydd wedi cael eu rhoi yn lle'r hen rai yn Neddf 1972 gan y darpariaethau newydd priodol yn y Rhan hon o'r Mesur.

**Adran 118 - Darpariaeth drosiannol**

Mae'n egluro na fydd y gweithdrefnau newydd a nodir ym Mhennod 2 o'r Mesur hwn yn gymwys os ymgymerwyd â gweithdrefnau presennol penodol, fel y'u nodir gan is-adrannau (a) a (b) o'r adran hon, cyn i ddarpariaethau yn y Bennod hon gael eu dwyn i rym.

Pennod 3 - Cyfethol aelodau o gynghorau cymuned

**Adran 119 - Gofyniad am hysbysiad cyhoeddus pan fo seddau gwag aelodau cynghorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol**

Mae'n cyflwyno gofyniad, sef pan fo cyngor cymuned yn bwriadu llenwi swydd wag drwy gyfethol, rhaid i'r cyngor roi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfle i gyfethol. Arfer da cyffredin yw hysbysebu cyfleoedd i gyfethol yn agored, ond ar hyn o bryd nid oes rheidrwydd i wneud hynny. Diben hyn yw osgoi'r canfyddiad mai 'siopau caeedig' yw cynghorau cymuned a bydd yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i grwpiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli chwarae rhan amlycach ynddynt. Rhoddir y gofynion hysbysiad cyhoeddus yn is-adran (5), sy'n cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru osod gofynion eraill ar gyfer yr hysbysiad yng ngoleuni profiad.

**Adran 120 - Canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol**

Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i roi canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol a bydd rhaid i gynghorau cymuned a chynghorwyr roi sylw iddynt.

Pennod 4 - Penodi Cynrychiolwyr Ieuenctid Cymunedol

**Adran 121 - Penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol gan gynghorau cymuned**

Mae'n galluogi cyngor cymuned i benodi hyd at ddau gynrychiolydd ieuenctid cymunedol i'r cyngor cymuned. Bydd y penodiadau yn rhoi llwyfan i lais pobl ifanc, yn annog cyfathrebu rhwng sectorau gwahanol o gymdeithas ac ennyn mwy o ddiddordeb ymhlith pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth a llywodraeth leol.

Mae’r meini prawf ar gyfer cynrychiolydd ieuenctid cymunedol wedi eu nodi yn is-adran (2). Mae is-adran (3) yn galluogi'r cyngor cymuned i benderfynu telerau'r penodiad, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â gadael y swydd yn wag.

**Adran 122 - Gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolydd ieuenctid**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned, pan fo’n penodi cynrychiolydd ieuenctid, roi hysbysiad cyhoeddus yn gyntaf o'i fwriad i wneud hynny ac yn benodol i'r personau ac yn y dull a roddir yn is-adrannau (4-5). Mae gofynion

yr hysbysiad cyhoeddus wedi eu nodi yn is-adran (6). Caiff Gweinidogion Cymru osod gofynion eraill ar yr hysbysiad yng ngoleuni profiad.

**Adran 123 - Canllawiau ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol**

Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol, a bydd rhaid i gynghorau cymuned roi sylw iddynt.

**Adran 124 - Effaith penodi cynrychiolydd ieuenctid cymunedol**

Ni fydd gan y cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol unrhyw un o'r hawliau, breintiau na rhwymedigaethau statudol sydd gan gyngor cymuned ar hyn o bryd; ond mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu i gynrychiolydd ieuenctid cymunedol gael ei drin yn aelod o'r cyngor at ddibenion a bennir yn y rheoliadau.

<u>Pennod 5 - Adolygu ardaloedd cymunedol a threfniadau etholiadol</u>

**Adran 125 - Adroddiadau am gyflawni swyddogaeth prif gyngor o gadw ardaloedd cymunedol o dan adolygiad**

Mae'n cyflwyno is-adrannau (2A) -(2D) yn adran 55 o Ddeddf 1972 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyhoeddi adroddiad bob 15 mlynedd (a'i anfon i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru - “Comisiwn Cymru”) yn nodi sut y mae wedi cyflawni'r swyddogaeth sydd ganddo ar hyn o bryd o gadw ardaloedd cymunedol o dan adolygiad. Nid oes gan y ddeddfwriaeth bresennol amserlen o'r fath i gyhoeddi adroddiadau ac mae rhai cynghorau heb gyhoeddi adroddiadau.

**Adran 126 - Adroddiadau am gyflawni swyddogaeth prif gyngor o gadw trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau o dan adolygiad**

Mae'n cyflwyno is-adrannau newydd (4A)-(4D) yn adran 57 o Ddeddf 1972 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor gyhoeddi adroddiad bob 15 mlynedd (a'i anfon i Gomisiwn Cymru) yn nodi sut y mae wedi cyflawni'r swyddogaeth sydd ganddo ar hyn o bryd o gadw trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd cymunedol o dan adolygiad. Nid oes gan y ddeddfwriaeth bresennol amserlen o'r fath i gyhoeddi adroddiadau ac mae rhai cynghorau heb gyhoeddi adroddiadau.

**Adran 127 - Arfer swyddogaethau gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar ran prif gynghorau**

Mae'n cyflwyno adran 57A newydd yn Neddf 1972 i alluogi Comisiwn Cymru a phrif gyngor i gytuno ar drefniadau sy'n caniatáu i Gomisiwn Cymru arfer swyddogaethau'r prif gyngor o adolygu ardaloedd cymunedol neu drefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau ac ystyried ceisiadau a geir oddi wrth gyfarfodydd cymunedol a chynghorau yn y cyswllt hwn.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Comisiwn Cymru i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ar hyn o bryd, ond rhaid i Gomisiwn Cymru gael ei gyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i wneud hynny yn gyntaf. Ar hyn o bryd cyfrifoldeb Comisiwn Cymru yw talu am gynnal adolygiadau am nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu iddo godi unrhyw ffi ar y prif gyngor o dan sylw. Mae'r ddarpariaeth newydd yn lleihau'r angen am gyfarwyddyd oddi wrth Weinidogion Cymru pan fo prif gyngor a Chomisiwn Cymru wedi dod i gytundeb am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad.

**Adran 128 - Y symiau sy'n daladwy mewn cysylltiad ag adolygiadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**

Mae'n cyflwyno is-adrannau (4A) - (4C) newydd yn adran 56 o Ddeddf 1972 ar gyfer amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru wedi gorfod cyfarwyddo Comisiwn Cymru i ymgymryd ag adolygiad ar ran prif gyngor (efallai am fod Comisiwn Cymru a'r cyngor wedi methu â dod i gytundeb am y trefniadau ar gyfer yr adolygiad). Caiff y cyfarwyddyd gynnwys gofyniad ar i'r prif gyngor o dan sylw dalu i Gomisiwn Cymru swm a bennwyd neu swm sydd i'w gyfrifo.

<u>Pennod 6 – Pwerau cynghorau cymuned i hybu llesiant</u>

**Adran 129 - Pwerau cynghorau cymuned i hybu llesiant**

Mae'n diwygio adran 1(b) o Ddeddf 2000 i gynnwys cynghorau cymuned yn y rhestr o awdurdodau lleol y rhoddir pŵer llesiant iddynt gan adran 2(1) o'r Ddeddf honno.

Mae Rhan 1 o Ddeddf 2000 yn darparu pŵer i awdurdodau lleol wneud unrhyw beth sydd yn eu barn hwy yn debygol o sicrhau bod llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal yn cael ei hybu neu ei wella. O ran Cymru, dim ond i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol y mae’r pŵer hwn wedi ei roi ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y bydd estyn y pŵer llesiant i gynghorau cymuned yn amlhau'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu rôl mewn hybu a gwella llesiant eu hardaloedd.

**Adran 130 - Addasiadau i ddeddfiadau'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sydd yn eu barn hwy yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer o dan adran 2(1) o Ddeddf 2000.

**Adran 131 - Darpariaeth drosiannol**

Mae'r ddarpariaeth drosiannol hon i ddelio â sefyllfa pan na fo strategaeth gymunedol yn unol ag adran 39(4) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 wedi ei chyhoeddi eto.

Pennod 7 - Grantiau i gynghorau cymuned

**Adran 132 - Pŵer Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned. Mae'n bosibl y bydd rôl ddatblygol cynghorau cymuned yn gosod gofynion newydd ar eu cyllid ond nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud taliadau grant i gynghorau cymuned at unrhyw ddiben.

Pennod 8 - Cytundebau siarter enghreifftiol rhwng awdurdodau lleol a chynghorau cymuned

**Adran 133- Y pŵer i osod cytundeb siarter enghreifftiol**

Mae’n  galluogi Gweinidogion Cymru i osod cytundeb siarter enghreifftiol mewn gorchymyn. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn annog trefniadau cydlafurio rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned, gan amlaf wedi eu gosod mewn “siarter” y cytunwyd arni, y byddai dwy haen llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd drwy'r siarter mewn dull cilyddol o gefnogi a chydweithredu er budd eu cymunedau. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, yn y lle cyntaf, bod datblygu a mabwysiadu trefniadau / siarteri cydlafurio yn cael eu cyflawni orau ar sail wirfoddol ar lefel leol. Er hynny, ar hyn o bryd nid oes unrhyw bŵer ar gael i Lywodraeth y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau amharod ddod at ei gilydd, mynd i'r afael â materion a chytuno ar siarter er budd eu hardaloedd.

**Adran 134- Cyfarwyddiadau sy'n gwneud mabwysiadu cytundebau siarter enghreifftiol yn ofynnol**

Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddiadau sy'n gwneud mabwysiadu cytundebau siarter enghreifftiol yn ofynnol.

**Adran 135- Canllawiau ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol**

Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ynghylch cytundebau siarter, y mae'n rhaid i brif gynghorau a chynghorau cymuned sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru roi sylw iddynt.

**Adran 136 - Ymgynghori**

Mae’n  ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i ymgynghori â'r cyrff, y personau neu sefydliadau llywodraeth leol a bennir cyn gwneud gorchymyn neu ddyroddi cyfarwyddyd ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol.

Pennod 9- Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol

**Adran 137 – Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol**

Mae'n  galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer achredu cynllun ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned.

Ar hyn o bryd nid oes cynllun ansawdd ag achrediad cenedlaethol i asesu cymhwysedd cynghorau cymuned yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod  gwerth mewn datblygu cynllun o'r fath i helpu i godi safonau llywodraeth leol gan gynghorau cymuned.

Bwriad Gweinidogion Cymru yw, yn y lle cyntaf, datblygu cynllun ansawdd ag achrediad cenedlaethol yng Nghymru a'i weithredu ar sail anstatudol. Er hynny, mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n fanteisiol cael pŵer “wrth gefn” i gyflwyno cynllun achredu statudol ar ryw adeg yn y dyfodol pe bai hyn yn cael ei ystyried yn briodol. Mae'r adran hon yn darparu'r pŵer hwn.

**Adran 138– Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: meini prawf**
**Adran 139 –Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ceisiadau**
**Adran 140 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ffioedd**
**Adran 141 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: tynnu achrediad yn ôl**
**Adran 142    Ceisiadau am achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: dirprwyo swyddogaethau**
**Adran 143 – Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: canlyniadau**

Mae'r darpariaethau hyn yn ategu adran 137. Os bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau ar gyfer cynllun achredu, o ran y rheoliadau:

- rhaid iddynt osod meini prawf i'w bodloni wrth wneud cais am achrediad. Gallai'r rhain ymwneud â'r materion a restrir yn adran 138(2), ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;
- rhaid iddynt osod y gofynion ar gyfer cais dilys am achrediad (adran 139);
- caniateir iddynt osod ffioedd ar gyfer cais am achrediad (adran 140);
- rhaid iddynt osod y seiliau dros dynnu'n ôl statws achrediad a gafodd ei ddyfarnu a thros adolygu'r statws achrediad a gafodd ei ddyfarnu (adran 141).

Byddai adran 142 yn caniatáu i Weinidogion Cymru drefnu i berson arall (nad oes raid iddo fod yn awdurdod cyhoeddus) weithredu'r cynllun achredu.

Mae adran 143 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i dynnu rhwystrau statudol oddi wrth gynghorau cymuned a achredwyd neu i'w newid (er enghraifft, oherwydd eu bod wedi cyflawni safon benodol mewn perfformiad) ac i osod rhwystrau yn ffordd cynghorau cymuned nas achredwyd (er enghraifft, oherwydd nad ydynt yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni safon benodol).

## *Rhan 8 –Aelodau: Taliadau a Phensiynau*

Mae'r Rhan hon o'r Mesur yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr fel bod panel annibynnol yn gyfrifol am benderfynu iawn digonol i gynghorwyr mewn cysylltiad â'r cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyddo ac am gynnal system talu cydnabyddiaeth sy'n mynd bob yn gam â'r lliaws o ddatblygiadau yn y blynyddoedd diweddar o ran dyletswyddau arwain, llywodraethu a chraffu a dyletswyddau rheoleiddiol sy'n rheidrwydd ar gynghorydd.

### Adran 144 – Y Panel

Mae'n darparu bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau i fodoli (y “PAGA”).

Sefydlwyd y PAGA o dan reoliad 26 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1086) ( “Rheoliadau 2007”) i ragnodi, ymhlith pethau eraill, lefelau uchaf y lwfansau a fyddai'n daladwy gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Mae cylch gwaith presennol y PAGA yn ymestyn i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn unig ac nid yw'n cwmpasu cynghorau cymuned, awdurdodau Parciau Cenedlaethol nac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r ddarpariaeth newydd yn cadw sail statudol y PAGA ac yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n nodi'r manylion ar gyfer aelodaeth, deiliadaeth a threfniadaeth y PAGA.

### Adran 145 - Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau

Mae'n nodi swyddogaethau'r PAGA, ac yn benodol yn rhoi iddo fwy o hyblygrwydd mewn cysylltiad â diffinio'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a all gymhwyso cynghorwyr i gael taliadau, disgrifio'r mathau o daliadau a gosod lefelau taliadau i'r awdurdodau hynny a ddisgrifir yn adran 147. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod yr hyblygrwydd hwn yn angenrheidiol i

ganiatáu i'r PAGA ymateb i wahanol amgylchiadau cynghorwyr ac awdurdodau.

Bydd y darpariaethau yn galluogi'r PAGA i bennu swm gwirioneddol taliad y caiff awdurdod ei wneud i aelod, gosod lefel uchaf taliad i aelod o'r awdurdod neu gyfyngu ar y gyfran o aelodau'r awdurdod sy'n gallu cael math penodol o daliad. Gallai'r Panel, mewn perthynas ag un neu ragor neu bob un o awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad, benderfynu gosod taliadau a allai gynnwys cyfraddau uchaf a chyfraddau gwirioneddol.

Mae'r ddarpariaeth yn is-adran (2) yn diffinio'r materion perthnasol y caiff y PAGA benderfynu arnynt o dan is-adran (1). Mae materion perthnasol yn rhai sy'n ymwneud â busnes swyddogol cynghorwyr fel y'i diffinnir yn is-adran (8) ac mae'n cynnwys taliadau i gynghorwyr sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol (fel y darperir ar ei gyfer yn Rhan 2 o'r Mesur hwn).

O dan is-adran (4) caiff y PAGA osod mynegrifau a chyfraddau addasu uchaf y caiff awdurdodau eu cymhwyso neu gyfeirio atynt wrth addasu eu cyfraddau talu o flwyddyn i flwyddyn. Caiff y PAGA hefyd benderfynu ar gyfran yr aelodau sy'n gallu cael math penodol o daliad er bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r PAGA yn dymuno pennu'r gyfran yn uwch na hanner cant y cant.

Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r PAGA, wrth osod swm neu gyfradd addasu uchaf neu fynegrif, gymryd i ystyriaeth effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar yr awdurdod o dan sylw.

**Adran 146 – Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau**

Mae'n galluogi'r Panel i benderfynu pa aelodau etholedig (nid aelodau cyfetholedig) o'r awdurdodau hynny sydd neu a fydd yn dod yn aelodau cymwys o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) y bydd hawl ganddynt i gael pensiynau. Mae cylch gwaith cyfredol y PAGA wedi ei gyfyngu i argymell pa aelodau etholedig o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol a ddylai fod â hawl i gael pensiynau o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

**Adran 147 - Awdurdodau perthnasol, aelodau etc**

Mae'n darparu diffiniadau o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon o'r Mesur. Effaith y diffiniad o "awdurdod perthnasol" yn is-adran (2) yw estyn cylch gwaith y PAGA i gwmpasu cynghorau cymuned, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, yn ychwanegol at gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol.

**Adran 148 - Adroddiadau blynyddol**

**Adran 149 - Adroddiad blynyddol cyntaf**

**Adran 150 - Adroddiadau blynyddol dilynol**

**Adran 151 - Ymgynghori ar adroddiadau drafft**

Mae'r adrannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r PAGA gyhoeddi adroddiad blynyddol ynghylch arfer ei swyddogaethau am bob blwyddyn ariannol sydd ar ddod.

Mae adran 149 yn pennu: mai'r flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 yw'r flwyddyn ariannol gyntaf y mae'n rhaid i'r PAGA gyhoeddi adroddiad blynyddol arni, yn pennu bod yn rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2011 ac yn pennu gofynion yr adroddiad. Mae'r darpariaethau hefyd yn caniatáu i'r PAGA lunio adroddiadau sy'n atodol i'r adroddiad blynyddol cyntaf. Mae gofynion adroddiadau blynyddol dilynol (ac adroddiadau atodol) yn debyg i'r rhai ar gyfer yr adroddiad blynyddol cyntaf (ac unrhyw adroddiadau sy'n atodol i'r adroddiad cyntaf)(adran 150).

Rhaid i'r PAGA ganiatáu cyfnod o wyth wythnos o leiaf ar gyfer ymgynghori ynghylch adroddiad drafft a dodi copi o'r adroddiad drafft ar ei wefan yr un pryd ag y caiff ei ddosbarthu i Weinidogion Cymru etc.

**Adran 152 - Cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r PAGA i ailystyried darpariaeth mewn adroddiad drafft. Rhaid i Weinidogion Cymru nodi eu rhesymau dros ddyroddi'r cyfarwyddyd a rhoi dyddiad ar gyfer ymateb. Nid yw'r PAGA yn gorfod amrywio'r drafft, ond rhaid iddo ymateb ac esbonio os yw'n penderfynu peidio â'i amrywio.

**Adran 153 - Gofynion gweinyddol mewn adroddiadau**

**Adran 154 - Gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau**

Mae'n galluogi'r PAGA i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu systemau gweinyddol i osgoi dyblygu hawliadau am daliadau ac i gadw cofnodion mewn perthynas â thaliadau a wneir i'w haelodau, ac i bennu mewn adroddiad blynyddol y trefniadau ar gyfer cyhoeddusrwydd a ddylai gael eu sefydlu gan yr awdurdodau mewn perthynas â'r taliadau a wneir gan awdurdod.

**Adran 155 - Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau**

Mae'n nodi'r camau y mae'n rhaid i'r PAGA eu cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'w adroddiadau, gan gynnwys adroddiadau drafft.

**Adran 156 - Cydymffurfio â gofynion y Panel**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gydymffurfio â phenderfyniadau'r PAGA a nodir mewn adroddiad blynyddol ac yn rhoi pŵer i'r PAGA fonitro'r modd y mae taliadau sy'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau y mae ei benderfyniadau yn effeithio arnynt yn cael eu gweithredu a'u rheoli. Mae pŵer wedi ei roi i'r PAGA ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi iddo fanylion eu taliadau a'r cyfraddau gwirioneddol a ddefnyddiwyd i dalu. Rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â chais o'r fath.

**Adran 157 - Aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau**

Mae'n galluogi aelod o awdurdod i ildio ei hawl i gael y cyfryw daliadau y bydd yr aelod hwnnw'n penderfynu arnynt. Gan y bydd yn ofynnol i awdurdodau wneud taliadau penodol i aelodau, bernir ei bod yn angenrheidiol gwneud darpariaeth i ganiatáu i awdurdodau beidio â thalu lwfansau mewn amgylchiadau pan fo aelod wedi dethol ymwrthod â'i hawl i gael taliad.

**Adran 158 - Peidio â gwneud taliadau**

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod beidio â gwneud taliadau i bersonau sydd wedi eu hatal (neu wedi eu hatal yn rhannol) rhag bod yn gynghorwyr yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ganlyniad i ddyfarniad gan bwyllgor safonau lleol neu gan dribiwnlys achosion neu dribiwnlys achosion interim ynghylch a oedd y cynghorydd wedi cydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod lleol.

Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau, yn dilyn ymgynghoriad â'r PAGA, i awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â gwneud taliadau fel a benderfynir gan Weinidogion Cymru, i aelod o awdurdod am resymau a bennir yn y cyfarwyddyd.

Caiff Gweinidogion Cymru wneud cais i'r Llys am orchymyn i orfodi'r cyfarwyddyd.

**Adran 159 - Cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion**

Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno gan y PAGA at ddibenion y Mesur, cânt ddyroddi cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gydymffurfio â'r gofyniad. Rhaid i unrhyw gyfarwyddyd o'r fath esbonio'r rhesymau dros ei ddyroddi a nodi'r camau y bydd angen eu cymryd gan yr awdurdod, gan gynnwys amserlen sy'n nodi erbyn pryd y dylai'r awdurdod ymateb.

Caiff Gweinidogion Cymru wneud cais i'r Llys am orchymyn i orfodi'r cyfarwyddyd.

**Adran 160 - Canllawiau**

Mae'n rhoi pŵer i'r PAGA ddyroddi, amrywio a dirymu canllawiau ynghylch cydymffurfio â'i ofynion a nodir mewn adroddiadau blynyddol ac adroddiadau atodol.

### Adran 161 – Y Pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel

Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu, drwy orchymyn, y darpariaethau yn y Rhan hon o'r Mesur sy'n ymwneud â phenodi aelodau o'r PAGA neu ei swyddogaethau ac i wneud unrhyw addasiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill yn sgil hynny.

### Adran 162 - Dehongli Rhan 8

Mae'n nodi'r dehongliad o dermau penodol a ddefnyddir yn y Rhan hon.

### Adran 163 - Diwygiadau canlyniadol

Mae'n cyflwyno Atodlen 3 (Taliadau a phensiynau: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol)

### Atodlen 2 - Y Panel

Fe'i cyflwynwyd gan adran 144. Mae'n nodi'r gweithdrefnau penodi, gweinyddu a chynorthwyo ar gyfer y PAGA (gan gynnwys anghymhwyso rhag bod yn aelod). Mae paragraffau 18-20 yn nodi rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru o ran rhoi cymorth i'r PAGA.

### Atodlen 3 – Taliadau a phensiynau: Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

*Mae'n gwneud diwygiadau technegol eu natur i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes er mwyn adlewyrchu'r ddarpariaeth a gyflwynir yn Rhan 8 o'r Mesur. Er enghraifft, mewn perthynas â Deddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, Deddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2008, yn achos y cyfeiriadau hynny sy'n ymwneud â lwfansau sy'n daladwy o dan y ddeddfwriaeth bresennol, mae angen rhoi yn eu lle gyfeiriadau at daliadau i aelodau o dan ddarpariaethau'r Mesur.*

*Er bod mwyafrif yr is-adrannau yn adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i'w diddymu, mae angen diwygiad i adran 18 (3A) i gadw pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n galluogi awdurdodau lleol, h.y., cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, i benderfynu symiau arian rhodd mewn perthynas ag aelodau.*

**Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno**

**Adran 164 - Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig**

Mae'n diwygio Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau statudol cynhwysfawr ar bob agwedd ar bwerau a dyletswyddau o dan y Mesur hwnnw.

**Adran 164A – Cyfuno – gweler yr adendwm i'r Memorandwm hwn yn Atodiad C**

**Rhan 9A - Cyffredinol**

**Adran 165 – Gorchmynion a rheoliadau**

Mae'r adran hon yn darparu bod gorchmynion a rheoliadau o dan y Mesur hwn yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol ac yn nodi gweithdrefnau'r Cynulliad mewn cysylltiad â'r offerynnau hyn.

**Adran 166 – Y weithdrefn sy'n gymwys i orchmynion penodol o dan adran 130**

Mae'n nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn os byddant yn gwneud gorchymyn o dan adran 130 i wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad y maent yn meddwl ei fod yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer (ynghylch llesiant) o dan adran 2(1) o Ddeddf 2000.

**Adran 167 – Canllawiau a chyfarwyddiadau**

Mae'n egluro pwerau Gweinidogion Cymru i roi canllawiau a rhoi cyfarwyddiadau o dan y Mesur hwn.

**Adran 168 – Dehongli**

Mae'n darparu dehongliad o dermau penodol a gaiff eu defnyddio yn y Mesur hwn.

**Adran 169 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau**

Mae'r adran hon yn mewnosod is-adrannau (5) i (7) newydd yn adran 106 o Ddeddf 2000 i wneud darpariaeth ar gyfer gorchmynion a rheoliadau o dan yr adrannau newydd o'r Ddeddf honno a fewnosodir gan y Mesur i gael eu

gwneud gan offeryn statudol ac mae’n nodi gweithdrefnau’r Cynulliad mewn cysylltiad â’r offerynnau hyn.

Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 4 (diddymiadau a dirymiadau) ac yn gwneud darpariaeth i’r PAGA ragnodi cynllun i awdurdod lleol gan ddefnyddio’r rheoliadau presennol am gyfnod trosiannol ar gyfer y flwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012. Mae’r PAGA i gyhoeddi ei adroddiad blynyddol cyntaf o dan y Mesur erbyn 31 Rhagfyr 2011 ac mae’r adroddiad i ymdrin â’r flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2013.

**Adran 170 – Y pŵer i wneud darpariaeth atodol**

Mae’n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol, ddarfodol ac arbed i’r rhannau o’r Mesur i gymryd datblygiadau yn y dyfodol mewn llywodraeth leol i ystyriaeth ac unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol y gallai fod awdurdodau lleol yn eu hysgwyddo.

**Adran 171 – Cychwyn**

Mae’r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch cychwyn y darpariaethau yn y Mesur.

**Adran 172 – Enw byr**

**Atodlen 4 – Diddymiadau a dirymiadau**

Mae’n diddymu ac yn dirymu’r ddarpariaeth bresennol i wneud lle i’r ddarpariaeth newydd a wneir yn y Mesur.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

## Atodiad C

Adendwm i'r Memorandwm Esboniadol

ynghylch mewnosod adrannau newydd i roi pwerau i Weinidogion Cymru gyfuno dau neu dri awdurdod lleol

Mawrth 2011

## 1. Disgrifiad

1.1 Cafodd y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) ei ddiwygio yn ystod Cam 2 wrth iddo gael ei ystyried gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd bellach yn cynnwys darpariaeth newydd yn Rhan 9 a fydd yn:

(vii) caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy gyfrwng gorchymyn, gyfuno dau neu dri awdurdod lleol er mwyn creu un awdurdod lleol newydd.

## 2 Y cefndir deddfwriaethol

### Cymhwysedd

2.1 Mae'r cymhwysedd y dibynnir arno o dan adran 94(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") ar gyfer y ddarpariaeth newydd yn cael ei roi gan Fater 12.1 o Ran 1 o Atodlen 5 i Ddeddf 2006.

2.2 Mae Mater 12.5 hefyd yn berthnasol o ran arfer y pwerau y mae'r ddarpariaeth newydd yn eu rhoi i Weinidogion Cymru.

2.3 Cafodd materion 12.1 a 12.5 eu mewnosod i Atodlen 5 gan adran 235 o, ac Atodlen 17 i, Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007. Mae Mater 12.5 yn cael ei atgynhyrchu ym mharagraff 2.4 ym mhrif ran y Memorandwm Esboniadol hwn; atgynhyrchir mater 12.1 isod:

*Mater 12.1*

Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad ag –

(a) cyfansoddiad prif ardaloedd newydd a diddymiad neu addasiad prif ardaloedd sydd eisoes yn bodoli, a
(b) sefydliad cynghorau ar gyfer y prif ardaloedd newydd a diddymiad prif gynghorau sydd eisoes yn bodoli.

## 3 Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

*Cyflwyniad*

3.1 Mae cydlafurio rhwng awdurdodau lleol yn un o egwyddorion canolog y strategaeth sydd gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer darparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon i ddinasyddion Cymru. Mae gwaith polisi a deddfwriaethol Llywodraeth y Cynulliad ym maes llywodraeth leol wedi adlewyrchu'r egwyddor hon, ac mae wedi sefydlu amryfal ddulliau o annog a chymell llywodraeth leol i gydlafurio.

3.2 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus eisoes drwy'r Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi, a hynny er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o gyflenwi gwasanaethau, a sicrhau bod yr arferion hynny'n cael eu mabwysiadu.

3.3 Roedd pŵer cyffredinol ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) ("Mesur 2009") a oedd yn caniatáu i lywodraeth leol gydlafurio ag unrhyw berson pe byddai hynny'n hwyluso gwelliannau, ac roedd hefyd yn rhoi dyletswydd arnynt i ystyried arfer y pŵer hwnnw o bryd i'w gilydd.

3.4 Mae darpariaeth yn y Mesur arfaethedig ynghylch llywodraeth leol (gweler adran 164 yn y fersiwn a gyflwynwyd) sy'n cywiro rhywbeth a gafodd ei hepgor o Fesur 2009 ac sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill. Bydd canllawiau o'r fath yn nodi modelau cydlafurio ac yn disgrifio sut ac o dan ba amgylchiadau y byddai awdurdodau lleol yn eu mabwysiadu. Fodd bynnag, fel yn achos unrhyw ganllawiau eraill, ni allant orfodi unrhyw un i wneud unrhyw beth.

3.5 Er hynny, o ystyried yr amgylchiadau ariannol sydd ohoni, mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn bod angen mynd ati'n gynt i gyflwyno newidiadau, a chyflwyno mwy ohonynt hefyd. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddatblygu ac i lywio polisi i'r cyfeiriad hwn a'i bod yn gallu hwyluso'r gwaith drwy achub ar bob cyfle y mae'r broses ddeddfwriaethol yn ei rhoi iddi.

### Y cynigion ar gyfer yr adrannau newydd

3.6 Mae disgrifiad manylach o'r darpariaethau i'w weld yn y Nodiadau Esboniadol estynedig (ynghylch yr adrannau newydd) sy'n cyd-fynd â'r adendwm hwn. I grynhoi, bydd yr adrannau newydd arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- ddiddymu, drwy gyfrwng gorchymyn, ddau neu dri phrif ardal a'u cynghorau sir/bwrdeistref sirol perthnasol a sefydlu ardal newydd a chyngor newydd yn eu lle;
- rhoi enw Cymraeg a Saesneg i'r ardal a'r awdurdod newydd;

- penderfynu ar statws yr awdurdod newydd o ran a fydd yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol,
- gwneud trefniadau i drosglwyddo staff ac i ddelio â'r materion sy'n gysylltiedig â hynny;
- gwneud trefniadau i sefydlu cyngor cysgodol;
- gwneud trefniadau etholiadol ar gyfer yr awdurdod newydd;
- trefnu i drosglwyddo swyddogaethau, eiddo a rhwymedigaethau i'r awdurdod newydd;
- gwneud trefniadau ar gyfer contractau masnachol;
- trefnu pwy fydd yn gyfrifol am ddelio ag unrhyw achosion cyfreithiol sydd ar y gweill adeg y diddymu;
- gwneud trefniadau ar gyfer unrhyw bartneriaethau statudol neu gydgwmnïau yr oedd yr hen awdurdodau yn gysylltiedig â hwy;
- ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr awdurdod newydd;
- cyflwyno trefniadau trosiannol; a
- gwneud darpariaeth, o dan amgylchiadau penodol a bennir, ar gyfer cynnal refferendwm ynghylch penodi maer etholedig yn ardal yr awdurdod newydd.

3.7 Mae'r adrannau newydd yn pennu mai gweithdrefn penderfyniad "uwchgadarnhaol" y Cynulliad sydd i'w defnyddio yn achos gorchymyn i gyfuno awdurdodau lleol. O dan y weithdrefn honno, mae'n ofynnol bod ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal ynghylch cynnig i gyfuno, bod y Cynulliad yn craffu ar y cynnig a bod y gorchymyn cyfuno terfynol yn cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad ei hun.

**Y materion y mae'r adrannau newydd yn mynd i'r afael â hwy**

3.8 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo ers tro i hyrwyddo ac i hwyluso mwy o gydlafurio rhwng awdurdodau lleol. Yn eu datganiad polisi, *Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: Y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus* (a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009), rhoddodd Gweinidogion Cymru her amlwg i'r awdurdodau lleol (ac i eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus), a'u hannog i gydlafurio llawer mwy nag yn y gorffennol.

3.9 Cafodd y dyhead i annog mwy o gydlafurio ei gydnabod ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009"). Roedd ynddo bŵer cyffredinol a oedd yn caniatáu i awdurdodau lleol (ac eraill sy'n darparu gwasanaethau) gydlafurio ag unrhyw berson pe byddai hynny'n hwyluso gwelliannau. Roedd hefyd yn rhoi dyletswydd arnynt i ystyried arfer y pŵer hwnnw o bryd i'w gilydd.

3.10 Roedd Mesur 2009 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod i wneud trefniadau penodedig i gydlafurio ag awdurdod arall os oedd yn methu â gwneud trefniadau i wella.

3.11 Yn ystod y cyfnod ers cyflwyno'r Mesur arfaethedig, mae'r hinsawdd economaidd sy'n wynebu sefydliadau yn y sector cyhoeddus wedi mynd yn

fwyfwy anodd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwbl glir ynghylch y ffaith bod cydlafurio rhwng awdurdodau lleol yn gallu bod yn elfen allweddol o'r ymdrech i arbed arian ac i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae'n dilyn felly bod angen iddynt gydweithio a chydlafurio'n agosach wrth i'r sector cyhoeddus ymateb i'r angen i gynnal gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed ac ar gyfer yr anghenus mewn hinsawdd economaidd sy'n gynyddol anodd.

3.12 Mae yna dystiolaeth sy'n dangos bod mwy o gydlafurio rhwng yr awdurdodau lleol. Serch hynny, mae cryn wahaniaeth o ran yr hyn sydd wedi'i gyflawni mewn rhai ardaloedd o'u cymharu ag eraill, ac nid yw'r gwaith hwn yn mynd rhagddo mor gyflym ag y gallai. Mae wedi dod i'r amlwg hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn fwy parod i gydweithio nag eraill. O ystyried na fu unrhyw ymateb strategol o ran symud y broses hon yn ei blaen ar raddfa fawr ac mewn ffordd gydgysylltiedig, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen ffyrdd cryfach o sicrhau bod yr awdurdodau yn mynd ati i gydlafurio.

3.13 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn mai un opsiwn priodol posibl ar gyfer creu gwell gwasanaethau am lai o gost fyddai cyfuno awdurdodau lleol sy'n bodoli eisoes i greu un ardal llywodraeth leol newydd. Byddai hyn yn esgor ar nifer o fanteision, gan gynnwys darbodion maint a gwasanaethau rheng flaen mwy cadarn. Byddai hefyd yn fodd i ledaenu arferion da ar draws ardal ehangach.

3.14 Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bŵer y gall Gweinidogion Cymru ei defnyddio i gyfuno awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Mater 12.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi'r cymhwysedd angenrheidiol i'r Cynulliad ddeddfu ar gyfer creu a diddymu ardaloedd llywodraeth leol newydd.

3.15 Daeth Llywodraeth y Cynulliad i'r casgliad bod y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) yn gyfle amserol i sicrhau pŵer y mae'n amlwg bod ei angen.

3.16 Bydd y pŵer a geisir gan Lywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn a fyddai'n eu galluogi i gyflwyno cynigion i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol er mwyn creu ardal llywodraeth leol newydd. Roedd Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y byddai pŵer i wneud gorchymyn yn briodol ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol ar raddfa leol ar draws dim mwy na thri awdurdod lleol sydd eisoes yn bod. Y weithdrefn uwchgadarnhaol fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer y gorchymyn hwnnw.

3.17 Bwriad y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 9 o'r Mesur arfaethedig yw darparu ar gyfer yr amgylchiadau hyn; ceir crynodeb o'r cynigion ym mharagraff 3.6 o'r adendwm hwn, a manylir arnynt yn y Nodiadau Esboniadol i'r adrannau newydd.

## 4. Ymgynghori

4.1 Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori am y cynnig i gyflwyno pŵer i wneud gorchymyn i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol. Datblygodd y materion a arweiniodd at y cynigion hyn yn gyflym yn ystod y cyfnod ers cyflwyno'r Mesur arfaethedig.

4.2 Mae Gweinidogion y Cynulliad wedi datgan yn glir, mewn trafodaethau rhyngddynt hwy a'r awdurdodau lleol, ac mewn datganiadau cyhoeddus, eu bod o blaid llawer mwy o gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, ac y byddent yn gweithredu pe na bai'r awdurdodau'n symud ymlaen yn hyn o beth. Mae Pwyllgorau'r Cynulliad hefyd wedi cydnabod bod angen gweithredu.

4.3 Ym mis Mehefin 2010, gofynnodd Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol y Cynulliad i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ystyried cyflwyno model na fyddai, efallai, yn golygu ad-drefnu ar raddfa fawr ond a fyddai'n edrych ar gynghorau cyfagos a allai rannu elfen fawr o'u gwasanaethau addysg, rhannu uwch-gyfarwyddwyr a phrif weithredwyr a chyfuno'u hadnoddau.

4.4 Ym mis Rhagfyr 2010, cwblhaodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 y Cynulliad y gwaith o graffu ar y Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol, a chyhoeddodd ei adroddiad Cyfnod 1. Argymhellodd y Pwyllgor "O ystyried yr ymgyrch tuag at gydlafurio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, credwn fod angen atgyfnerthu'r Mesur arfaethedig er mwyn darparu arf mwy effeithiol i orfodi cydlafurio mewn amgylchiadau y tu hwnt i'r pwerau cyfyngedig sydd ym Mesur 2009 ar hyn o bryd."

4.5 Pŵer galluogi yn unig y mae'r adrannau newydd arfaethedig yn ei roi i Weinidogion Cymru. Mae'r egwyddor o ymgynghori yn rhan annatod o arfer y pŵer ei hun. “Gweithdrefn penderfyniad uwchgadarnhaol” y Cynulliad a gaiff ei defnyddio ar gyfer gorchymyn a fydd yn deillio o gynnig i greu ardal llywodraeth leol newydd drwy gyfuno awdurdodau.

4.6 Mae'r camau y mae'n ofynnol eu dilyn o dan y weithdrefn uwchgadarnhaol yn cael eu nodi yn yr adran 164H newydd, a byddant yn golygu y bydd yn ofynnol i Lywodraeth y Cynulliad “ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ymddangos i'r Gweinidogion eu bod yn cynrychioli personau neu fuddiannau yr effeithir arnynt gan y cynigion.”

4.7 Byddai'n rhaid i'r Gweinidogion ymgynghori â phobl leol, yr awdurdodau lleol presennol y byddai'r cynigion yn effeithio arnynt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff cynrychioliadol lleol.

## 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1 Mae'r adrannau newydd arfaethedig yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae *Tabl 1* isod yn nodi, mewn cysylltiad â phob un o'r darpariaethau hynny:

- y person, neu'r corff, y mae'r pŵer yn cael ei roi iddo;
- ar ba ffurf y mae'r pŵer i'w arfer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn i'w defnyddio (cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn) os oes gweithdrefn o gwbl.

**Crynodeb o'r Pwerau i wneud Is-ddeddfwriaeth – Cyfuno**

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 164A<br>(pŵer i wneud gorchymyn cyfuno) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd y bydd yn darparu ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol ar raddfa leol mewn rhan penodedig o Gymru. Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo'r gorchymyn yn cael ei nodi yn adran 164H. | Penderfyniad Uwchgadarnhaol |
| Pŵer 164D<br>(pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn darparu ar gyfer y manylion gweinyddol a fydd yn dilyn ymlaen o'r bwriad o ran polisi a nodir yn y Mesur. | Penderfyniad Cadarnhaol |

| Adran | Pŵer yn cael ei roi i | Ffurf | Priodoldeb | Gweithdrefn |
|---|---|---|---|---|
| Adran 164E (Darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn addas ar gyfer rheoliadau oherwydd y byddant yn caniatáu ar gyfer darpariaethau gweinyddol eu natur o ganlyniad i orchymyn cyfuno. | Penderfyniad Cadarnhaol |
| Adran 164I (Cywiro gorchmynion) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer gorchymyn oherwydd y bydd yn caniatáu ar gyfer cywiro camgymeriadau mewn gorchymyn cyfuno. | Penderfyniad Cadarnhaol |

5.2 Eir ati yn y paragraffau a ganlyn i nodi pa mor briodol fyddai hi i ddefnyddio’r is-ddeddfwriaeth arfaethedig a ddarperir o dan Bennod 2 o Ran 9 (Cyfuno) o’r Mesur arfaethedig. Mae’r paragraffau’n nodi’r darpariaethau ym Mhennod 2 sy’n rhoi’r pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth. Dynodir hefyd ddiben y pŵer, y rheswm pam y mae ar y ffurf y mae, ac unrhyw weithdrefnau Cynulliad sy’n gymwys i arfer y pŵer.

5.3 Mae’r darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 9 o’r Mesur yn ymwneud â’r Cynulliad yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol sydd eisoes yn bod a chreu ardal llywodraeth leol newydd.

5.4 Mae Adran 164A (pŵer i wneud gorchymyn cyfuno) yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru sy’n eu galluogi i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol (a dim mwy), gan wneud hynny drwy orchymyn. Wrth gynnig gorchymyn cyfuno, bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain bod angen gwneud gorchymyn er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol.

5.5 Ni cheir gwneud gorchymyn oni bai fod Gweinidogion Cymru o’r farn na fyddai modd sicrhau llywodraeth leol effeithiol drwy arfer (mewn cysylltiad â’r awdurdodau lleol yr effeithid arnynt) y pwerau a roddwyd i’r awdurdodau

hynny o dan adrannau penodedig o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru 2009) (Mesur 2009).

5.6 Mae Adran 164D (pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig) yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru sy'n eu galluogi i wneud rheoliadau i gyfarwyddo awdurdod cysgodol ardal llywodraeth leol newydd i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu gweithrediaeth maer etholedig a chabinet ai peidio.

5.7 Mae Adran 164E (pŵer i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed) yn rhoi pŵer dirprwyedig i Weinidogion Cymru sy'n eu galluogi i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â gorchymyn cyfuno.

5.8 Mae'n bosibl na fyddai'n ymarferol ceisio cynnwys pob manylyn yn y gorchymyn cyfuno. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddelio â materion a fydd yn codi o ganlyniad i fwriad i gyfuno.

5.9 Mae Adran 164I (gorchmynion cywiro) yn rhoi pŵer dirprwyedig i gywiro gwall mewn gorchymyn cyfuno.

**Cyfraniad y pwerau dirprwyedig i'r bwriad o ran polisi**

5.10 Bydd y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 164A yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynnig i gyfuno dau neu dri (a dim mwy) o awdurdodau lleol sydd eisoes yn bod er mwyn creu ardal llywodraeth leol newydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn, o ystyried yr amgylchiadau ariannol sydd ohoni yn y sector cyhoeddus, bod angen mynd ati'n gynt i gydlafurio, a bod angen gwneud mwy ohono hefyd. Os yw'r awdurdodau lleol yn gyndyn o newid, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddatblygu ac i lywio polisi i'r cyfeiriad hwn, a'i bod yn gallu gweithredu i hwyluso'r gwaith hwn drwy achub ar bob cyfle y mae'r broses ddeddfwriaethol yn ei rhoi iddi.

5.11 Dichon mai'r unig adeg y bydd angen defnyddio'r pŵer yn Adran 164D fydd pan fyddai trigolion un o'r awdurdodau lleol y bwriedir ei gyfuno wedi pleidleisio mewn refferendwm o blaid cael maer etholedig ond lle na fyddai'r etholiad i ethol maer wedi'i gynnal eto. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer cyflwyno maer etholedig yn cwmpasu'r cyfan o'r ardal llywodraeth leol newydd.

5.12 Mae'r pwerau a geir yn adran 164E ac yn adran 164I yn cael eu cynnwys rhag ofn y bydd eu hangen. Dichon na fydd yn ymarferol ceisio cynnwys pob manylyn atodol neu ganlyniadol etc mewn gorchymyn cyfuno, felly bydd y pŵer a roddir gan adran 164E yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer delio â materion allweddol megis trosglwyddo staff, eiddo, rhwymedigaethau, hawliau ac unrhyw fater arall sy'n codi yn sgil y cyfuno.

Bydd adran 164I yn eu galluogi i gywiro unrhyw gamgymeriadau mewn gorchymyn cyfuno.

**Ffurf y Pŵer Dirprwyedig**

5.13 Bernir bod y pŵer i wneud gorchymyn sydd yn adran 164A yn briodol ar gyfer cynnig i fynd ati ar raddfa leol i ad-drefnu llywodraeth leol ar draws dau neu dri awdurdod lleol sy'n bodoli eisoes ac sy'n effeithio ar ran benodedig o Gymru yn unig. Bydd defnyddio'r weithdrefn penderfyniad uwchgadarnhaol yn golygu y bydd ymgynghori cyhoeddus eang am y gorchymyn ac y bydd y Cynulliad yn craffu arno'n fanwl.

5.14 Bernir bod y pŵer i wneud gorchymyn hefyd yn briodol ar gyfer cywiro gorchymyn (adran 164I). Bydd hyn yn fodd i sicrhau y gellir cywiro unrhyw gamgymeriad mewn gorchymyn.

5.15 Bernir bod rheoliadau'n briodol ar gyfer adrannau 164D a164E. Bydd y rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r manylion gweinyddol a fydd yn ganlyniad i refferendwm a fydd yn ofynnol o dan adran 164D ac i ddelio ag unrhyw faterion a allai fod yn atodol i orchymyn cyfuno neu'n ganlyniad etc iddo.

**Ffurf y Weithdrefn Cynulliad**

5.16 Caiff y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol ei defnyddio ar gyfer yr holl orchmynion a rheoliadau o dan Bennod 2 o Ran 9. Bernir mai dyna sy'n briodol o ystyried bod y materion yn ymwneud â sefydlu ardal llywodraeth leol newydd ac â materion sy'n deillio o'r broses honno.

5.17 Bydd gofynion ychwanegol yn gysylltiedig â gorchymyn (gorchymyn cyfuno) o dan adran 164A hefyd. Nodir y gofynion hynny yn adran 164H, ac maent yn golygu mai'r weithdrefn penderfyniad uwchgadarnhaol fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer pob gorchymyn arfaethedig. Bernir mai dyna sy'n briodol oherwydd y bydd yn fodd i sicrhau bod ymgynghori cyhoeddus eang am y gorchymyn a bod y Cynulliad yn craffu arno'n fanwl.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi yn unol â Rheol Sefydlog 23.18 (vi) ar gyfer y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 9 o'r Mesur arfaethedig ac mae'n dilyn yn Adran 7.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

***7. Opsiynau***

7.1 Dyma'r opsiynau sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â'r cynigion a nodir yn y Mesur arfaethedig:

**Opsiwn 1**: Gwneud dim
**Opsiwn 2**: Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl gan ddefnyddio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a chan hyrwyddo newidiadau eraill drwy ganllawiau a thrwy ledaenu arferion da.
**Opsiwn 3**: Cyflwyno Mesur Cynulliad.

**Opsiwn 1 – Gwneud dim**

7.2 Byddai gwneud dim yn golygu y byddai'r broses o annog a hyrwyddo mwy o gydlafurio rhwng yr awdurdodau lleol yn arafu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei gwneud yn glir bod dyblygu modelau darparu gwasanaethau 22 o weithiau yn ddiangen, yn gostus ac yn anhylaw.

7.3 Mae yna dystiolaeth bendant sy'n dangos bod mwy o gydlafurio rhwng yr awdurdodau lleol, ond mae'r cydlafurio hwnnw'n anghyson ac nid oes iddo gyfeiriad strategol. Nid yw'r gwaith hwn yn symud ymlaen yn ddigon cyflym mewn rhai ardaloedd. Mae hefyd wedi dod i'r amlwg bod rhai awdurdodau lleol yn barotach nag eraill i gydweithio. Yn ogystal, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau nad yw diffyg ymroddiad gwleidyddol neu syrthni sefydliadol yn golygu ein bod yn colli'r momentwm ar gyfer prosiectau cydlafurio.

**Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl gan ddefnyddio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes a chan hyrwyddo newidiadau eraill drwy ganllawiau a thrwy ledaenu arferion da**

7.4 Mae gan Weinidogion Cymru rai pwerau eisoes o dan Fesur 2009 i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gydlafurio. Roedd y Mesur arfaethedig (fel y'i cyflwynwyd) yn mynd i'r afael â rhywbeth a gafodd ei hepgor o Fesur 2009 drwy alluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio.

7.5 Dim ond hyn a hyn y gellir ei gyflawni drwy anogaeth a thrwy gyhoeddi canllawiau; os yr hyn sy'n atal mwy o gydlafurio ar lefel leol yw'r ffaith bod nifer o awdurdodau gwahanol yn bodoli, nid oes unrhyw fecanwaith ar hyn o bryd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gael gwared ar y rhwystr hwnnw.

**Opsiwn 3 – Cyflwyno deddfwriaeth drwy gyfrwng Mesur Cynulliad**

7.6 Yr opsiwn hwn fyddai'r olaf o'r opsiynau polisi a fyddai ar gael i Weinidogion Cymru i'w helpu i gyrraedd yr amcan polisi o annog a hyrwyddo mwy o gydlafurio rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru.

7.7 Bydd y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 9 o'r Mesur arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i amgylchiadau lleol ac i gynnig bod dau neu dri awdurdod lleol (a dim mwy) yn cael eu cyfuno i greu un ardal llywodraeth leol newydd.

7.8 Bydd y darpariaethau ym Mhennod 2 yn cynnig dull deddfwriaethol nad yw ar gael i Weinidogion Cymru ar hyn o bryd. Bernir bod pŵer i wneud gorchymyn sy’n caniatáu ad-drefnu ar raddfa leol yn briodol, o ystyried mai gweithdrefn penderfyniad uwchgadarnhaol y Cynulliad fydd yn cael ei defnyddio wrth arfer y pŵer hwnnw. Bernir y byddai cyflwyno Mesur cyflawn er mwyn ad-drefnu dau neu dri o awdurdodau lleol yn ffordd rhy feichus o ymdrin â mater a fydd, yn bennaf, o ddiddordeb i ran o Gymru yn unig.

## 8. Costau a manteision

8.1 Mae’r adran hon yn ystyried y costau a’r manteision yng nghyd-destun cyffredinol yr opsiynau a ddisgrifir yn adran 7.

8.2 Pŵer galluogi yw’r pŵer i wneud gorchymyn y darperir ar ei gyfer yn adran 164A. Bydd y costau a’r arbedion yn dibynnu ar y math o gyfuno a gynigir, a chan nad oes unrhyw gynnig penodol, nid oes modd cyflwyno ffigurau.

### <u>Opsiwn 1 – Gwneud dim</u>

8.3 O wneud dim, mae’n bosibl na fyddai pobl leol mewn rhannau penodol o Gymru yn cael y manteision o ran gwasanaethau a’r arbedion o ran costau a fyddai i’w gweld pe bai awdurdodau lleol yn gweithio’n agosach â’i gilydd. Byddai cydlafurio’n fodd i wneud arbedion ar draws llywodraeth leol, ond os yw awdurdodau’n araf neu’n amharod i weithio gyda’i gilydd, pobl leol fydd yn talu’r pris.

Yn ôl y dystiolaeth sydd wedi dod i’r amlwg o’r cynigion arfaethedig yn Lloegr, lle bydd awdurdodau’n cyfuno’n wirfoddol, gall yr arbedion hyn fod yn rhai sylweddol iawn. Er enghraifft, amcangyfrifwyd y byddai cyfuno dau gyngor dosbarth bach yn Swydd Derby yn fodd i arbed £3 miliwn y flwyddyn. Yn ôl yr amcangyfrifon, gallai cyfuno tair bwrdeistref fawr yn Llundain arwain at arbedion o hyd at £35 miliwn y flwyddyn.

8.4 Am fod awdurdodau lleol yn gyndyn o gydweithio, mae perygl gwirioneddol y byddant yn colli’r cyfle i wneud arbedion; i wella’r modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi drwy fynd ati i rannu’r arferion gorau, ac i sicrhau bod y gwasanaethau sy’n bodoli eisoes yn fwy cadarn yn wyneb y ffaith bod llai o adnoddau ar gael. Nid yw’r sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd yn eu hannog i beidio â dyblygu ymdrechion drwy ddatblygu atebion gwahanol i’r un broblem ar draws nifer o awdurdodau. Mae cyfuno gwasanaethau a mynd ati ar y cyd i benodi staff uwch yn ddim ond dau o’r meysydd lle nad oes digon o gynnydd wedi’i wneud.

### Opsiwn 2 – Cyflwyno cyn lleied o newidiadau â phosibl

8.5 Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddefnyddio’r amryfal bwerau sydd ar gael iddi o dan Fesur 2009 i hwyluso ac i hyrwyddo cydlafurio. Ond mae pen draw i’r pwerau hynny, ac os bydd un neu fwy o awdurdodau lleol yn

methu â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliannau (gan gynnwys trefniadau i gydlafurio), mae'n bosibl y bydd hynny'n golygu y bydd yn rhaid wrth ateb mwy pellgyrhaeddol.

8.6 Rydym wedi dysgu drwy brofiad bod dibynnu ar ganllawiau, ar anogaeth ac ar ledaenu arferion da yn gallu arwain at ganlyniadau cadarnhaol, ond rydym wedi dysgu hefyd mai araf yw'r cynnydd a wneir o dan amgylchiadau o'r fath ac nad yw, ar y cyfan, yn digwydd mewn modd strategol.

**Opsiwn 3 - Cyflwyno Mesur**

8.7 Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y bydd dibynnu ar Opsiynau 1 a 2 yn golygu na fydd pobl leol yn cael manteisio ar yr arbedion mwyaf posibl a'r gwelliannau mwyaf posibl i wasanaethau a fyddai'n deillio o gynnig i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gydweithio â phartneriaid i yrru'r agenda gydlafurio yn ei blaen, ond mae o'r farn bod angen y ddeddfwriaeth arfaethedig er mwyn cael gwared ar nifer o rwystrau allweddol a allai atal cynnydd yn hyn o beth.

*Costau a manteision*

8.8 Mae'n amhosibl amcangyfrif y costau a'r arbedion ariannol a fyddai'n gysylltiedig â gorchymyn cyfuno. Mae'r costau a'r arbedion tebygol yn dibynnu ar sawl ffactor sy'n perthyn yn arbennig i amgylchiadau'r awdurdodau lleol y bydd y bwriad i gyfuno yn ymwneud â hwy. Ymhlith y ffactorau a allai effeithio'n fawr ar ddadansoddiad o'r costau fyddai nifer yr awdurdodau o dan sylw, eu maint o'u cymharu â'i gilydd (yn weithredol, yn ddaearyddol ac o ran eu poblogaeth) ac i ba raddau y byddent wedi bod yn cydlafurio eisoes. Fodd bynnag, yn ôl amcangyfrifon o Loegr (gweler uchod), gwelir yn gyson bod modd gwneud arbedion blynyddol sylweddol unwaith y bydd awdurdodau wedi eu cyfuno.

8.9 Wrth reswm, byddai costau trosiannol yn codi yn ystod proses o gyfuno awdurdodau, a hynny yn sgil yr angen i gael gwared ar ddyblygu ac i sicrhau bod gwasanaethau a systemau yn gyson ar draws yr amryfal sefydliadau. Er hynny, mae'n rhesymol disgwyl i arbedion yn y tymor hwy fwy na gwneud iawn am y costau trosiannol. O'u rheoli'n iawn yn y tymor canolig, ni ddylai'r costau hyn fod yn rhai sylweddol ymlaen llaw.

8.10 O dan yr adran 164H arfaethedig (y weithdrefn sy'n gymwys i orchymyn cyfuno), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori am gynnig i gyfuno, ac i gyflwyno dogfen gerbron y Cynulliad yn esbonio'r cynigion.

8.11 Byddai'r costau a'r manteision (gan gynnwys yr arbedion ariannol) yn elfennau allweddol o'r ymgynghori a'r ddogfen esboniadol. Bydd yn rhaid i'r cynigion nodi'r costau a'r arbedion a fyddai'n gysylltiedig â phob elfen o'r cyfuno arfaethedig, a byddant yn gwbl dryloyw.

8.12 Pan fydd Gweinidogion Cymru yn mynd ati, yn unol â'r adran 164H arfaethedig, i osod y dogfennau gerbron y Cynulliad, rhaid iddynt nid yn unig esbonio'r cynigion ond hefyd fanylu ar yr ymgynghori y maent wedi'i wneud. Bydd digon o gyfle i edrych ar yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau ynghylch chostau ac arbedion yn ystod y broses o ystyried gorchymyn cyfuno.

**9. Asesiad o'r Gystadleuaeth**

9.1 Nid oes angen Asesiad o'r Gystadleuaeth gan mai darparu pŵer galluogi sy'n ymwneud â llywodraeth leol yng Nghymru y mae'r darpariaethau hyn.

**10. Adolygu ar ôl gweithredu**

10.1 Bydd Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu â'r awdurdodau lleol o dan sylw os caiff gorchymyn cyfuno ei gyflwyno.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# MESUR ARFAETHEDIG YNGHYLCH LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)

## Adendwm i'r Nodiadau Esboniadol

ynghylch mewnosod adrannau newydd i roi pwerau i Weinidogion Cymru gyfuno dau neu dri awdurdod lleol

Mawrth 2011

# Nodiadau Esboniadol (Adendwm)

*Rhagarweiniad*

1. Mae'r Adendwm hwn i'r Nodiadau Esboniadol yn ymwneud â'r adrannau ym Mhennod 2 o Ran 9 o'r Mesur arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) a fewnosodwyd yn y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 2 yn ystod Chwefror 2011.

2. Maent wedi eu llunio gan Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen Pennod 2 a helpu i lywio dadl arni. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur arfaethedig nac wedi eu hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

3. Dylai'r Nodiadau Esboniadol hyn gael eu darllen ar y cyd â'r darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 9. Nid ydynt, ac ni fwriedir iddynt fod, yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r darpariaethau. Os yw'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, nis rhoddir.

4. Mae'r pŵer i wneud darpariaeth o'r fath wedi ei gynnwys ym Mater 12.1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

5. Mae'r termau canlynol yn cael eu defnyddio yn y Nodiadau hyn:

- Awdurdodau lleol – mae'n cyfeirio at ardaloedd cyngor sir neu ardaloedd bwrdeistref sirol yng Nghymru
- Comisiwn Cymru – mae'n cyfeirio at y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru
- Mesur 2009 – mae'n cyfeirio at Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

*Esboniad ar Adrannau*

## *Rhan 9 – Cydlafurio a Chyfuno*

<u>Pennod 2 – Cyfuno</u>

### Adran 164A – Pŵer i wneud gorchymyn cyfuno

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru drwy orchymyn i gyfuno dau neu dri awdurdod lleol (a dim mwy na hynny) i greu un ardal llywodraeth leol newydd.

Cyn gwneud gorchymyn cyfuno, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni nad yw'n debyg y câi llywodraeth leol effeithiol ei sicrhau mewn o leiaf un o'r ardaloedd llywodraeth leol sydd i'w chyfuno.

Wrth ddod i'w casgliad bod cyfuno'n angenrheidiol, rhaid i Weinidogion Cymru bwyso a mesur a ellid sicrhau llywodraeth leol effeithiol yn yr awdurdodau lleol o dan sylw drwy arfer y pwerau sydd eisoes wedi eu rhoi i'r awdurdodau hynny ac i Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau penodedig ym Mesur 2009.

Rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni felly bod arfer y pwerau canlynol yn annhebyg o sicrhau llywodraeth leol effeithiol:

i. Adran 9 o Fesur 2009 (pwerau cydlafurio). Mae'r adran hon yn rhoi i awdurdodau gwella Cymreig (sy'n cynnwys awdurdodau lleol) bwerau i'w galluogi i gydlafurio â'i gilydd ac â chyrff eraill, er mwyn cyflawni’r dyletswyddau o dan adran 2(1) o Fesur 2009 (dyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau) neu hwyluso’r modd y maent yn cael eu cyflawni. Mae adran 3(2) o Fesur 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gwella Cymreig osod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, amcanion gwella iddo'i hun. Amcanion yw'r rhain ar gyfer gwella'r modd y mae swyddogaethau penodol yr awdurdod yn cael eu harfer ac mae adran 8(7) o Fesur 2009 yn pennu bod rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safonau perfformiad yn cael eu bodloni.

ii. Adran 28 o Fesur 2009 (cymorth i awdurdodau gwella Cymreig). Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth y maent yn credu y byddai'n debygol o gynorthwyo awdurdod gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion Rhan 1 o Fesur 2009 (Gwella Llywodraeth Leol). Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru ystyried cynnig cymorth o'r fath os gofynnir iddynt wneud hynny; ac (oni ofynnir iddynt) ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol ac eraill cyn rhoi cymorth. Nid yw'n caniatáu i Weinidogion Cymru orfodi na chyfarwyddo awdurdod lleol neu unrhyw gorff arall i wneud unrhyw beth.

iii. Adran 29 o Fesur 2009 (pwerau cyfarwyddo). Mae'r adran hon yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd yn achos awdurdod lleol sy'n methu, neu sydd mewn perygl o fethu, â chydymffurfio â'i ddyletswyddau yn Rhan 1 o Fesur 2009 (yn y bôn, dyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant) a chyfarwyddo'r awdurdod hwnnw.

iv. Adran 30 o Fesur 2009 (pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio). Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod gwella Cymreig nad yw efallai yn methu ei hun (nac mewn perygl o fethu) i gydlafurio ag un sy'n methu.

v. Adran 31 o Fesur 2009 (pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd). Mae'r adran hon yn darparu pŵer (drwy orchymyn) i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth i addasu neu eithrio cymhwysiad deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella Cymreig, ac i roi pwerau newydd i'r awdurdodau hynny. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud hynny ond os ydynt wedi eu bodloni bod deddfiad o'r fath yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o Fesur 2009, neu y byddai rhoi pŵer newydd yn hwyluso'r cydymffurfio hwnnw.

Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ddangos eu bod wedi eu bodloni bod arfer y pwerau uchod yn annhebyg o sicrhau llywodraeth leol effeithiol, ac y byddai cyfuno yn debyg o wneud hynny. Felly, ar ôl cael eu bodloni'n gyntaf nad yw llywodraeth leol effeithiol yn debyg o gael ei sicrhau drwy arfer pwerau o dan Ddeddf 2009, dim ond bryd hynny y caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt wedi eu bodloni ei fod yn angenrheidiol i sicrhau llywodraeth leol, wneud gorchymyn cyfuno.

Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru esbonio cynnig am gyfuno yn y ddogfennaeth sy'n ofynnol o dan adran 164H (gweler isod); bydd yn rhaid i'r esboniad ddangos sut y mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'w casgliad.

Mae adran 164A yn ei gwneud ofynnol hefyd i orchymyn cyfuno ymdrin ag amryw o faterion sy'n sylfaenol i'r broses o gyfuno a chreu awdurdod newydd, gan gynnwys diddymu'r ardaloedd presennol, creu'r ardal newydd, ei enwi, ei ddynodi'n sir neu'n fwrdeistref sirol, sefydlu'r awdurdod lleol newydd yn gyngor sir neu'n gyngor bwrdeistref sirol a dirwyn i ben a diddymu cynghorau'r ardaloedd presennol.

## Adran 164B - Materion etholiadol

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru, pan fônt yn gwneud gorchymyn cyfuno, i wneud darpariaeth yn y gorchymyn hwnnw i ethol cyngor yr awdurdod lleol newydd. Byddai'r ddarpariaeth yn cynnwys pŵer i ganslo unrhyw etholiadau sydd wedi eu hamserlennu ar gyfer yr awdurdodau sydd i'w diddymu.

Os oedd yn rhaid i etholiad yr awdurdod newydd ddigwydd ar ddiwrnod ac eithrio'r un sydd wedi ei amserlennu ar gyfer etholiadau arferol llywodraeth leol a bod etholiadau cynghorau cymuned wedi eu hamserlennu hefyd ar

gyfer y diwrnod hwnnw yn yr ardaloedd o dan sylw, byddai Gweinidogion Cymru yn gallu canslo'r etholiadau cynghorau cymuned a gorchymyn iddynt gael eu cynnal ar ddiwrnod arall (er enghraifft i gyd-fynd â'r etholiadau cyntaf i'r awdurdod newydd).

Mae'r diwygiad yn darparu ar gyfer cyfnod "cysgodol" a sefydlu awdurdod cysgodol a gweithrediaeth gysgodol i wneud y paratoadau angenrheidiol ar gyfer yr awdurdod newydd cyn iddo ddod i fodolaeth yn ffurfiol.

**Adran 164C – Gofyniad i gynnal refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig**

Mae'n gofyn bod Weinidogion Cymru, pan fônt yn gwneud gorchymyn cyfuno, yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol ar gyfer yr ardal llywodraeth leol newydd gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod newydd (pan ddaw i fodolaeth yn ffurfiol) weithredu ffurf maer etholedig a chabinet ar drefniadau gweithrediaeth. Dim ond pan fo un o leiaf o'r awdurdodau sydd i'w cyfuno eisoes yn gweithredu drwy weithrediaeth maer etholedig a chabinet y bydd y gofyniad i gynnal refferendwm o'r fath yn gymwys.

**Adran 164D – Pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu iddynt gyfarwyddo awdurdod cysgodol ardal llywodraeth leol newydd i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu'r ffurf maer etholedig a chabinet ar drefniadau gweithrediaeth.

Yr amgylchiadau lle y gellid galw'r pŵer hwn i rym yw rhai lle y byddai preswylwyr un o'r awdurdodau lleol a oedd i'w cyfuno wedi pleidleisio mewn refferendwm o blaid cael maer etholedig, ond bod etholiad y maer heb gael ei gynnal eto. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i estyn y weithdrefn ar gyfer cyflwyno maer etholedig dros y cyfan o ardal llywodraeth leol newydd.

**Adran 164E - Darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed mewn cysylltiad â gorchymyn cyfuno.

Bydd yr adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn gorchymyn cyfuno i fynd i'r afael â materion allweddol eraill megis trosglwyddiadau staff, eiddo, rhwymedigaethau a hawliau ac unrhyw fater arall sy'n deillio o'r cyfuno. Gall fod yn anymarferol ceisio dal yr holl fanylion

hyn yn y gorchymyn cyfuno, ac felly mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ymdrin â darpariaeth o'r fath.

**Adran 164F - Adolygu trefniadau etholiadol**

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Comisiwn Cymru i ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd.

Mae'r darpariaethau sy'n cael eu cyflwyno gan adran 164B yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r trefniadau etholiadol cychwynnol ar gyfer awdurdod newydd yn y gorchymyn cyfuno.

Ran amlaf byddai'r gorchymyn cyfuno'n cael ei wneud mewn digon o amser cyn y dyddiad a amserlenwyd ar gyfer yr etholiadau cyntaf i'r trefniadau etholiadol fod wedi eu hadolygu gan Gomisiwn Cymru. Gall adolygiad gymryd rhwng 12 a 18 mis, ac felly os bydd gorchymyn cyfuno'n cael ei wneud yn agos at y dyddiad a amserlenwyd ar gyfer etholiadau, efallai na fydd amser i'r Comisiwn gwblhau ei adolygiad cyn yr etholiadau cyntaf.

Yn yr amgylchiadau hyn, mae adran 164B yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu'r trefniadau etholiadol sydd i'w defnyddio ar gyfer yr etholiadau cyntaf. Byddai'r Gweinidogion yn ceisio dod o hyd i farn ddeallus wrth wneud hynny; byddai'r trefniadau yn destun adolygiad wedyn gan Gomisiwn Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr etholiadau cyntaf. Dyma beth a ddigwyddodd yn achos yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau newydd a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.

**Adran 164G – Diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**

Mae'n diwygio darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 (“Deddf 1972”) sy'n llywodraethu'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan Gomisiwn Cymru wrth iddo ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau etholiadol. Bydd hynny'n sicrhau bod y gweithdrefnau arferol yn cael eu dilyn os bydd y Comisiwn yn ymgymryd ag adolygiad o ardal llywodraeth leol newydd o dan gyfarwyddyd gan Gweinidogion Cymru yn sgil gorchymyn cyfuno.

Mae is-adran (5) hefyd yn diwygio adran 68(1) o Ddeddf 1972 fel bod darpariaethau adran 68 (sy'n ymwneud â chytundebau trosiannol mewn cysylltiad ag eiddo a chyllid mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus hynny y mae newid, diddymu neu gyfansoddi unrhyw ardal drwy orchymyn o dan Ran IV o Ddeddf 1972 yn effeithio arnynt) hefyd yn gymwys os bydd gorchymyn cyfuno.

## Adran 164H – Y weithdrefn sy'n gymwys i orchymyn cyfuno

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i orchymyn cyfuno fod yn ddarostyngedig i weithdrefn benderfynu uwchgadarnhaol y Cynulliad. Mae'r adran yn nodi pob cam yn y weithdrefn.

Pan fo Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi eu bod yn cynnig cyfuno dau neu dri awdurdod lleol, rhaid iddynt ymgynghori â phawb sy'n cynrychioli personau neu fuddiannau y bydd y cynigion yn effeithio arnynt.

Ar ôl yr ymgynghoriad, os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid iddynt osod gerbron y Cynulliad ddogfen sy'n rhoi esboniad am y cynigion, yn rhoi manylion yr ymgynghoriad ac yn cyflwyno gorchymyn drafft sy'n rhoi effaith i'r cynigion.

Rhaid i'r ddogfen fod wedi ei gosod gerbron y Cynulliad am ddim llai na 60 o ddiwrnodau – ac yn ystod yr amser hwnnw caiff unrhyw un sydd â buddiant yn y cynigion gyflwyno sylwadau a chaiff pwyllgorau Cynulliad achub ar y cyfle i alw'r cynigion i mewn i gael eu hystyried.

Caniateir i'r gorchymyn drafft terfynol gael ei osod wedyn gerbron y Cynulliad, ynghyd â datganiad sy'n nodi pa sylwadau sydd wedi dod i law ers i'r gorchymyn drafft cyntaf gael ei osod a pha newidiadau, os o gwbl, sydd wedi eu gwneud yn y gorchymyn drafft terfynol.

Rhaid i'r gorchymyn drafft terfynol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, drwy fwyafrif syml o'r ACau hynny sy'n pleidleisio.

## Adran 164I – Cywiro gorchmynion

Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gywiro, drwy orchymyn, wall sydd wedi ei wneud mewn gorchymyn cyfuno.

## Adran 164J – Dehongli

Mae'n darparu diffiniadau o'r derminoleg benodol sy'n cael ei defnyddio yn yr adrannau newydd.